Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
62/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:
13/06/2023

# Adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg

© Hawlfraint y Goron

ISBN digidol 978-1-83504-089-8

**Adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg**

Awduron: Buddug Hughes, Kathryn Jones, Rhys Jones a Huw Lewis, IAITH: y ganolfan cynllunio iaith

Adroddiad ymchwil llawn: Hughes, B., Jones, K., Jones, R., a Lewis, H. (2023). *Adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 62/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cynllun-grantiau-llywodraeth-cymru-i-hyrwyddo-hwylusor-defnydd-or-gymraeg-adolygiad

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil y Gymraeg

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.Cymraeg@llyw.cymru

**Cynnwys**


Rhestr o dablau ... 2

Rhestr o ffigurau ... 3

Geirfa ... 4

1. Cyflwyniad a chefndir ... 6

2. Methodoleg ... 9

3. Cyd-destun polisi y Cynllun Grantiau ... 20

4. ‘Cymuned’, ‘grymuso cymunedol’ a gweithredu mewn partneriaeth ... 30

5. Cynllunio bwriadus a deall effaith ... 47

6. Gwerthusiad proses o’r Cynllun Grantiau presennol ... 54

7. Datblygu Theori Newid ar gyfer y Gynllun Grantiau ... 86

8. Datblygu’r Cynllun Grantiau at y dyfodol ... 103

9. Casgliadau ac argymhellion ... 106

Atodiad 1: Llyfryddiaeth ... 116

Atodiad 2: Arfau ymchwil ... 122

## Rhestr o dablau


Tabl 5.1: Dangosyddion CREAM ........................................................................ 48
Tabl 5.2: Dangosyddion SPICED ........................................................................ 49
Tabl 6.1: Sefydliadau sydd yn cael eu hariannu drwy'r Cynllun Grantiau a'r swm a ddyrannwyd yn 2021-22 ........................................................................ 56
Tabl 6.2: Dyraniadau Grant Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg 2013-21 ........................................................................ 58
Tabl 6.3: Themâu strategol, targedau a nodau Cymraeg 2050 ........................................ 59
Tabl 6.4: Enghreifftiau o bartneriaid a sefydliadau sy'n cydweithio gyda derbynwyr grant ........................................................................ 72

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 5.1 Model Asesu Gwerthusadwyedd (Evaluability Assessment) ..................... 53
Ffigur 7.1: Model theori newid ar gyfer gweithredu'r Cynllun Grantiau ...................... 93
Ffigur 7.2: Model theori newid ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg ..................... 97

## Geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| AALl | Awdurdod Addysg Lleol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| APC | Awdurdod Parc Cenedlaethol |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Wales Council for Voluntary Action (WCVA)) |
| CGS | Cyngor Gwirfoddol Sirol (County Voluntary Council (CVC)) |
| Consortiwm Addysg Rhanbarthol | Corff sy’n darparu gwasanaethau addysg i gefnogi ysgolion mewn rhanbarth. Ceir pedwar consortiwm:<br>GwE (Gogledd Cymru); Partneriaeth (Penfro, Caerfyrddin ac Abertawe); Consortiwm Canolbarth y De; Gwasanaeth Cyflawni Addysg (De- ddwyrain Cymru, GCA/EAS). Nid yw ALl Ceredigion, Powys a Chastell Nedd Port Talbot yn aelod o Gonsortiwm Addysg. |
| COVID-19 | Haint Coronafeirws 2019 (*Coronavirus Disease 2019*) |
| CSGA | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| Cyllid Craidd | Mae cyllid craidd  yn cael ei ddiffinio fel cymorth ariannol ar gyfer costau sefydliadol a gweinyddol ‘craidd’ sylfaenol. Gall costau craidd gynnwys cyflogau staff swyddfa, rhent, offer a gwasanaethau fel trydan, nwy, a systemau cyfryngau a chyfathrebu. |
| Cyllid Ychwanegol | Ystyr ‘cyllid ychwanegol’ neu ‘gyllid cyfatebol’ mewn perthynas â’r Cynllun Grantiau hwn yw cyfanswm ychwanegol o gyllid sydd yn cael ei godi gan y derbynwyr grant o ffynhonnell arall. |

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| | Disgwylir i bob dderbynnydd grant anelu at ennill isafswm o 30 y cant o'r costau llawn o ffynhonnell arall. Mae angen i'r cyllid ychwanegol/cyfatebol fod yn arian (yn hytrach na chyfraniad mewn da) ac mae disgwyl iddo gyd-fynd gyda dibenion y Cynllun Grantiau. |
| Derbynwyr Grant | Mudiadau a sefydliadau sydd yn derbyn cyllid drwy Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg |
| Ffederasiwn CFfI Sirol | Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sirol. Mae pob Clwb Ffermwyr Ifanc yn aelod annibynnol o Ffederasiwn CFfI Sirol. |
| Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru | Mae gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru rwydwaith o 12 ffederasiwn sirol. |
| GDPR | General Data Protection Regulation / Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data |
| MIC | Mentrau Iaith Cymru |
| Siarter Iaith | Rhaglen a weithredir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru gyda'r nod o arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg.<br>Mae rhaglenni eraill ar gyfer dysgwyr sydd yn dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg (Cymraeg Campus) ac ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg (Cymraeg Bob Dydd). |

## 1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg (y Cynllun Grantiau).[1] Comisiynwyd IAITH gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr adolygiad. Cafodd y gwaith ymchwil ei gynnal rhwng Rhagfyr 2021 a Hydref 2022.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r Cynllun Grantiau presennol ers iddo gael ei drosglwyddo o Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2012. Yn sgil *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*, rhannwyd swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn 2012. Roedd rhai o'r swyddogaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â dyrannu grantiau.

1.3 Nod y Cynllun Grantiau yw cefnogi amrywiaeth o sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Yn y flwyddyn ariannol 2021-22 roedd y sefydliadau canlynol yn derbyn cyllid drwy'r Cynllun Grantiau:

- Cymdeithas Eisteddfodau Cymru;
- Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru;
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru;
- Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru a 12 Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sirol;
- Mentrau Iaith Cymru (MIC);
- 21 Menter Iaith;[2]
- Merched y Wawr;
- 52 o Bapurau Bro (MIC sy'n dosbarthu'r grant ar ran Llywodraeth Cymru i'r Papurau Bro);
- Urdd Gobaith Cymru.

[1] Cyfeiriwn at y 'Cynllun Grantiau' heblaw ein bod yn dyfynnu testun sy'n cyfeirio at y 'Cynllun Grant'.

[2] Mae Menter Iaith Bangor yn cael ei gweinyddu gan Hunaniaith.

**Nod ac amcanion yr adolygiad**

1.4 Nod yr adolygiad oedd cynnig arweiniad i Lywodraeth Cymru wrth iddi gynllunio model cyllido a strwythurau ar gyfer y dyfodol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys asesu sut mae'r Cynllun Grantiau presennol wedi ei ddylunio ac yn cael ei weithredu, a dod i gasgliadau ynghylch yr elfennau sydd angen eu cynnal, eu haddasu neu eu trawsnewid. Nid oedd yn fwriad i'r adolygiad asesu perfformiad nac effaith gwaith derbynwyr grant unigol. Nid oedd ychwaith yn cynnwys asesiad o werth am arian. Roedd disgwyl archwilio'r meysydd canlynol sydd yn ymwneud ag elfennau cyllidol y Cynllun:

- y broses o ymgeisio am gyllid;
- monitro cynnydd yn ystod cyfnod cyllido, a chloriannu cyflawniad ar ddiwedd cyfnod cyllido;
- i ba raddau mae'r cyllid a ddyrennir drwy'r Cynllun yn rhoi sylfaen i dderbyn cyllid o ffynonellau eraill;
- rôl y Cynllun yng nghyd-destun ffrydiau cyllidol eraill Llywodraeth Cymru.

1.5 Amcanion yr adolygiad oedd:

- gosod y Cynllun yng nghyd-destun strategol a chyd-destun polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050*: *miliwn o siaradwyr*;
- archwilio sut mae'r Cynllun presennol yn cael ei weithredu drwy werthusiad proses;
- datblygu sail damcaniaethol a theori newid ar gyfer gweithredu'r Cynllun yn y dyfodol; a
- dod i gasgliadau a chynnig argymhellion ynghylch dulliau o gefnogi sefydliadau a chymunedau ar draws Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a chynyddu'r defnydd ohoni mewn byd sydd wedi newid yn sgil COVID-19.

### Cwestiynau Ymchwil

1.6 Roedd meysydd a chwestiynau ymchwil yr adolygiad fel a ganlyn:

- I ba raddau mae'r Cynllun yn cyfrannu at weledigaeth ac amcanion strategol *Cymraeg 2050* i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol ac anffurfiol ar draws Cymru?
- Sut ac i ba raddau mae'r Cynllun yn cyfrannu tuag at nodau a dulliau o weithio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*?
- A yw cyfraniad y Cynllun i weledigaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru yn eglur i Lywodraeth Cymru ac i dderbynwyr grant?
- Pa ddata a pha dystiolaeth sydd yn cael eu casglu a'u dadansoddi ar wahanol gamau'r cylch cyllido, ac at ba ddibenion maent yn cael eu casglu?
- Sut ac i ba raddau mae'r Cynllun presennol yn meithrin diwylliant o hunan-werthuso effeithiol ymhlith deiliaid grant?
- Sut mae deiliaid grant yn ymateb, ac yn cael eu cefnogi i ymateb, i sefyllfaoedd yn sgil COVID-19?

### Teitl y Cynllun Grantiau

1.7 Yn ystod yr adolygiad amlygwyd peth anghysondeb o ran y teitl a ddefnyddir i gyfeirio at y Cynllun Grantiau. 'Cynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg' oedd y teitl a nodwyd yn y fanyleb ar gyfer yr adolygiad. Ar gyfer dibenion yr adolygiad, ac wrth ymgysylltu â chyfranogwyr, hwn yw'r teitl a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag mae'r teitl a ddefnyddir yn y dogfennau gwybodaeth a chanllawiau sy'n gysylltiedig â'r grant yn amrywio fel a ganlyn: 'Grant Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg'; 'Grant Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg', a 'Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg'.

## 2. Methodoleg

2.1 Defnyddiodd yr adolygiad gyfuniad o ymchwil desg, cyfweliadau, arolwg ar-lein a gweithdai datblygu theori newid i archwilio'r cwestiynau ymchwil. Nod y cyfuniad o ddulliau ymchwil a ddefnyddiwyd oedd ceisio sicrhau bod yr adolygiad yn seiliedig ar sylfaen tystiolaeth a oedd yn gyfuniad o ddyfnder ac ehangder. Mae gweddill yr adran hon yn egluro'r dulliau hyn ac yn nodi'r cyfyngiadau a'r heriau cysylltiedig.

### Ymchwil desg

2.2 Cynhaliwyd ymchwil desg i gasglu tystiolaeth ddogfennol ac i ddatblygu sylfaen damcaniaethol a fframwaith strategol yr adolygiad. Roedd y dystiolaeth a'r cyhoeddiadau a adolygwyd yn cwmpasu:

- dogfennau gweinyddu a gweithredu'r Cynllun Grantiau;
- dogfennau polisi Llywodraeth Cymru a oedd yn berthnasol i'r Cynllun Grantiau *(Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr; Cymraeg 2050–Rhaglen Waith 2021-26*; *Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-26; Y Cynllun Trydydd Sector 2014, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)*;
- astudiaethau ymchwil blaenorol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru sydd yn berthnasol i'r Cynllun Grantiau (*Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe (2014)*; *Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig (2020); Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg (2020))*;
- adroddiadau am fodelau arloesi a grymuso cymunedol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru;
- astudiaethau a chyhoeddiadau ymchwil gan gynnwys erthyglau o gyfnodolion a chyfrolau academaidd; a
- gwefannau a dogfennaeth ynghylch rhaglenni a phrosiectau perthnasol y tu hwnt i Gymru.

2.3 Darparwyd dogfennau gweinyddu a gweithredu'r Cynllun Grantiau gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a darparwyd manylion am fodelau arloesi a grymuso cymunedol yng Nghymru gan aelodau Grŵp Llywio'r Adolygiad.

2.4 Er mwyn adolygu'r llenyddiaeth academaidd, tynnwyd ar wybodaeth aelodau'r tîm ymchwil ac awgrymiadau aelodau'r Grŵp Llywio. Yn ogystal, defnyddiwyd y cronfeydd data a'r gwefannau canlynol ar gyfer chwiliadau: Academia.edu; Casgliad Traethodau Cymru; Google Scholar; Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

2.5 Defnyddiwyd yr eirfa ganlynol yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer chwiliadau i adnabod eitemau perthnasol:

**Tabl 2.1: Geirfa a ddefnyddiwyd ar gyfer chwiliadau**

| | |
|---|---|
| Cymuned | Trawsnewid cymdeithasol |
| Cymunedol | Adfywiad iaith |
| Datblygu cymunedol | Strategaeth ieithyddol |
| Grymuso/ymbweru cymunedol | Hyrwyddo defnydd iaith |
| Grwpiau cymunedol | Llesiant |
| Teuluoedd | Cydraddoldeb hiliol |
| Plant a phobl ifainc | COVID-19 |
| Partneriaeth/partneriaethau/ gweithredu mewn partneriaeth | |

2.6 Er mwyn adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch rhaglenni a dulliau hyrwyddo defnydd iaith drwy bartneriaethau y tu hwnt i Gymru, cynhaliwyd ymarfer chwilio desg am dystiolaeth o Ewrop, Canada a Seland Newydd. Y bwriad oedd casglu tystiolaeth oedd ar gael yn Saesneg ar-lein, megis gwefannau, adroddiadau blynyddol, gwerthusiadau ac adolygiadau am:

- raglenni sy'n hyrwyddo defnydd iaith leiafrifol drwy bartneriaethau cymunedol;
- sut a chan bwy y cyllidir y prosiectau hyn; a
- sut mae'r cyllidwyr neu swyddogion rhaglenni yn gwerthuso a mesur effaith y prosiect.

2.7 Casglwyd peth tystiolaeth ychwanegol drwy gysylltu gyda sefydliadau rhyngwladol i holi am adroddiadau gwerthuso ac adolygu prosiectau.

**Syntheseiddio'r dystiolaeth ymchwil desg**

2.8 Detholwyd nifer o'r erthyglau academaidd oherwydd eu bod yn cynnig adolygiadau o lenyddiaeth ynddynt eu hunain ac yn syntheseiddio tystiolaeth ymchwil ar ddatblygu cymunedol, grymuso cymunedau, ail-strwythuro economaidd a chymdeithasol, a'u goblygiadau ar gyfer y maes polisi a chynllunio iaith sydd yn berthnasol i'r adolygiad. Mae'r synthesis yn cyd-destunoli'r adolygiad hwn o'r Gynllun Grantiau, yn nodi seiliau damcaniaethol ar gyfer yr adolygiad, ac yn trafod cysylltiadau a gwahaniaethau o fewn y themâu sy'n berthnasol i'r adolygiad.

2.9 Lluniwyd synthesis drwy ddarllen y deunydd perthnasol ac yna paratoi testun oedd yn adolygu'r deunydd hwnnw, gan grynhoi themâu allweddol, tynnu sylw at faterion lle ceir peth consensws, elfennau sy'n sail i anghytundeb neu wahaniaethau o ran pwyslais.

**Cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru**

2.10 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022 drwy Microsoft *Teams* gan ddilyn canllaw lled-strwythuredig. Diben y cyfweliadau hyn oedd casglu tystiolaeth ar y materion canlynol: cefndir y Cynllun Grantiau, proses gweithredu'r Cynllun, cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg drwy grantiau eraill, bwriad y Cynllun Grantiau ar ei ffurf bresennol, cryfderau a gwendidau'r broses weithredu bresennol, ac effeithiau COVID-19 ar y sefydliadau sy'n derbyn grantiau.

2.11 Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd rhwng Mawrth a Mai 2022 gyda Chanolfan Rhagoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru a rheolwyr grantiau â chyfrifoldeb

dros weinyddu grantiau eraill yn Llywodraeth Cymru. Diben y cyfweliadau â rheolwyr grantiau oedd casglu tystiolaeth am gefndir y cynlluniau grant, eu gweithrediad yn cynnwys gweinyddiaeth a threfniadau monitro, agweddau strategol ac unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwyddynt, ynghyd â deall a oedd nodweddion yn y cynlluniau grant a allai fod yn fuddiol i'w hystyried ar gyfer datblygu'r Cynllun Grantiau yn y dyfodol. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn hefyd drwy Microsoft *Teams* gan ddilyn canllaw lled-strwythuredig. Dim ond pedwar cynllun grantiau a gafodd eu hystyried ar gyfer yr elfen hon, ac ni chynhaliwyd archwiliad manwl o weithdrefnau'r cynlluniau hyn. Cynigiodd yr wybodaeth a gasglwyd gipolwg o rai o'r cynlluniau sy'n cael eu gweithredu mewn meysydd sy'n berthnasol i'r Cynllun Grantiau, ond dylid cadw mewn cof y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r modd y casglwyd yr wybodaeth hon.

**Arolwg ar-lein derbynwyr grant 2021-22**

2.12 Er mwyn rhoi cyfle i holl dderbynwyr y Cynllun Grantiau yn 2021-22 gyfrannu i'r adolygiad, cynlluniwyd arolwg ar-lein i'w ddosbarthu i bob derbynnydd grant presennol a Phapurau Bro. Diben yr arolwg oedd casglu tystiolaeth a sylwadau ar weithrediad a gweinyddiaeth y Cynllun Grantiau, a chasglu gwybodaeth am brofiadau derbynwyr grant mewn perthynas â'r Cynllun Grantiau. Roedd yr arolwg yn gyfuniad o gwestiynau a oedd yn gofyn am wybodaeth ffeithiol, a chyfleoedd i ymatebwyr gynnig eu sylwadau mewn blychau testun rhydd. Mae copi o'r holiadur yn Atodiad 2.

2.13 Roedd yr arolwg yn cynnwys 30 o gwestiynau ac fe gynlluniwyd y cwestiynau fel a ganlyn:

- 12 cwestiwn (C1 -12) ar gyfer derbynwyr grant a Phapurau Bro;
- chwe chwestiwn (C13 -18) ar gyfer Papurau Bro yn unig;
- 12 cwestiwn (C19 - 30) ar gyfer derbynwyr grant yn unig.

2.14 Atebwyd pob cwestiwn gan yr holl ymatebwyr perthnasol, ac eithrio cwestiynau 3, 4 a 23.[3] Tynnir sylw at yr eithriadau hyn wrth drafod y dadansoddiad o' dystiolaeth yr arolwg yn Adran 6.

2.15 Roedd y cwestiynau yn gofyn am wybodaeth am y derbynwyr grant; gweithrediad y Cynllun Grantiau; eu dehongliad o rôl y Cynllun Grantiau mewn perthynas ag amcanion a gweledigaeth *Cymraeg 2050*; cynllunio a gwerthuso effaith gweithgareddau; ymwneud gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill; effeithiau pandemig COVID-19; ffynonellau cyllid eraill; sylwadau derbynwyr grant ar y Cynllun Grantiau, a chyfraniad y derbynwyr grant i gynlluniau strategaethau hybu'r Gymraeg ac asesiadau llesiant.

2.16 Defnyddiwyd y feddalwedd dylunio holiaduron ac arolygon ar-lein *SmartSurvey*. Roedd yr arolwg ar gael i ymateb iddo yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ôl dewis yr ymatebydd. Cynhaliwyd cam peilot ac addaswyd rhai cwestiynau ar ôl derbyn sylwadau yn sgil y broses hon.

2.17 Dosbarthwyd yr arolwg ar Fai 23 2022 trwy negeseuon i swyddogion yr holl sefydliadau a dderbyniodd grant yn 2021-22, sef 42 sefydliad. Derbyniwyd manylion cyswllt y derbynwyr grant gan Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd i Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru ddosbarthu'r arolwg i'r 12 Ffederasiwn CFfI Sirol. Gofynnwyd i Mentrau Iaith Cymru ddosbarthu'r arolwg i'r 52 Papur Bro. Bu'r arolwg yn agored hyd at 24 Mehefin 2022.

2.18 Ymateb isel a gafwyd i'r gwahoddiad cyntaf i gwblhau'r arolwg. Anfonwyd negeseuon atgoffa dair gwaith at y derbynwyr grant rhwng 23 Mai a 24 Mehefin 2022 i annog a cheisio cynyddu nifer yr ymatebion.

2.19 Ar sail nifer y gwahoddiadau a anfonwyd (94), cafwyd cyfradd ymateb o 56.4 y cant (53 ymateb). Roedd cyfradd ymateb y Papurau Bro yn 63.5 y cant (33 ymateb allan o 52) a'r derbynwyr grant eraill yn 47.6 y cant (20 ymateb allan o 42). Ni dderbyniwyd ymateb i'r arolwg gan y Ffederasiynau CFfI Sirol.

---

[3] Atebwyd y cwestiynau gan yr holl ymatebwyr ac eithrio'r canlynol: Cwestiwn 3, un heb ymateb; Cwestiwn 4, un heb ymateb; Cwestiwn 23, tri heb ymateb.

**Cyfweliadau â derbynwyr grant a sefydliadau eraill**

2.20 Cynhaliwyd 18 o gyfweliadau gydag amrywiaeth o dderbynwyr grant a sefydliadau eraill (rhwng 12 Gorffennaf a 24 Hydref 2022). Mae'r canllawiau holi ar gyfer y cyfweliadau hyn yn Atodiad 2.

*Derbynwyr grant*

2.21 Bwriad cynnal y cyfweliadau gyda derbynwyr grant oedd trafod mewn mwy o fanylder y themâu a'r materion a oedd wedi eu cynnwys yn yr arolwg. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y sefydliad; sut yr oeddent yn cyfrannu i amcanion strategol *Cymraeg 2050*; monitro a deall effaith eu gweithgareddau; denu cynulleidfaoedd newydd; gweithio gyda phartneriaid, a'u trefniadau cyllid.

2.22 Cynhaliwyd wyth o gyfweliadau gyda derbynwyr grant. Roedd rhain yn cynnwys: Mentrau Iaith; sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion, a sefydliadau sy'n cynnal gweithgaredd cymunedol a diwylliannol. Roedd rhai ohonynt yn sefydliadau cenedlaethol, a rhai yn sefydliadau rhanbarthol. Defnyddiwyd y meini prawf canlynol i geisio sicrhau amrywiaeth o gyfranogwyr o blith y Mentrau Iaith:

- statws cyfreithiol;
- model gweithredu;
- gweithredu o fewn ffin Awdurdod Lleol;
- gweithredu mewn ardal llai na ffin Awdurdod Lleol; a
- lleoliad daearyddol yng Nghymru.

*Partneriaid cenedlaethol a rhanbarthol*

2.23 Cynhaliwyd saith o gyfweliadau gyda detholiad o sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r derbynwyr grant. Diben y cyfweliadau gyda phartneriaid oedd casglu tystiolaeth am ddulliau cydweithio a chynllunio gyda derbynwyr grant, sut mae'r partneriaid a derbynwyr grant yn mynd ati i ddeall effaith eu cydweithio, a sut mae'r cydweithio yn cyfrannu at amcanion strategol *Cymraeg 2050*.

2.24 O blith y saith sefydliad partner, cynhaliwyd tri chyfweliad gyda swyddogion o Awdurdodau Addysg Lleol i ddeall eu rôl o ran cydweithio gyda derbynwyr grant drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) a'r *Siarter Iaith*. Detholwyd yr AALlau er mwyn ceisio sicrhau cynrychiolaeth o ardaloedd consortia addysg rhanbarthol gwahanol ac ystod o ganrannau siaradwyr Cymraeg o fewn yr AALl yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011. Sampl fechan o AALl a ddetholwyd, ac nid yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r cyfweliadau hyn o anghenraid yn gynrychioliadol o sut mae pob AALl yn cydweithio gyda derbynwyr grant. Diben cynnal y cyfweliadau oedd ceisio cael cipolwg ar y math o gydweithio sydd yn digwydd rhwng derbynwyr grant ac AALl.

*Sefydliadau sy'n cefnogi'r trydydd sector drwy gyllid grant*

2.25 Cynhaliwyd tri chyfweliad gyda swyddogion a chynrychiolwyr sefydliadau sy'n gyllidwyr sefydliadau trydydd sector. Diben y cyfweliadau hyn oedd casglu tystiolaeth am nod a bwriad y cynlluniau grant ar gyfer y trydydd sector; sut roedd y cynlluniau grantiau yn cael eu gweithredu; dulliau o fonitro a deall effaith y gwaith sydd yn cael ei ariannu; dulliau gwerthuso neu hunanasesu; ac a oedd themâu trawsbynciol (llesiant, tlodi, cydraddoldeb, cynhwysiant, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg) yn rhai o ystyriaethau'r cynlluniau grantiau.

**Dadansoddi data'r arolwg a'r cyfweliadau**

2.26 Roedd data'r arolwg yn cynnwys data meintiol ac ansoddol. Cam cyntaf y dadansoddiad o'r data ansoddol oedd meithrin adnabyddiaeth drylwyr o atebion rhydd yr arolwg a'r cofnodion cyfweliadau drwy ddarllen a nodi materion a phynciau a adnabuwyd yn y data.

2.27 Yn ail, gan ddilyn camau dadansoddi thematig (Braun a Clarke 2006), datblygwyd cyfres o godau ar gyfer y data ansoddol mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil a'r materion a phynciau allweddol a nodwyd. Cafodd y data a gasglwyd drwy'r arolwg a'r cyfweliadau ei ddidoli a'i grwpio o dan y codau data cyfatebol gan aelodau'r tîm ar wahân i ddechrau ac yna gyda'i

gilydd, er mwyn sicrhau bod y tîm yn cytuno ar y themâu a welwyd yn y dystiolaeth.

2.28 Yn drydydd, crëwyd mapiau thematig yn deillio o’r codau a mireiniwyd ymhellach y codau a’r themâu yn y cam hwn. Yn y cam hwn hefyd bu’r tîm ymchwil yn cymharu’r themâu o’r arolwg a’r cyfweliadau gyda’r themâu a materion allweddol a amlygwyd yn y dystiolaeth ymchwil desg gan greu mapiau thematig cyfansawdd oedd yn arwain y gwaith o ’ddehongli ac adrodd ar y canfyddiadau.

**Dehongli a datblygu theori newid**

2.29 Nid oedd theori newid yn bodoli eisoes ar gyfer y Cynllun Grantiau. Un o amcanion yr adolygiad hwn oedd dehongli a datblygu theori newid ar gyfer y Cynllun Grantiau at y dyfodol. Diben yr elfen hon oedd archwilio ac amlygu:

- y newidiadau tymor hir y bwriedir i’r Cynllun Grantiau arwain tuag atynt;
- y trywyddau rhesymeg rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a deilliannau disgwyliedig y Cynllun; a’r
- rhagdybiaethau a’r risgiau cysylltiedig.

2.30 Wrth ddatblygu’r theori newid aseswyd:

- a oedd gweithgareddau’r Cynllun Grantiau presennol yn rhesymegol gadarn o ystyried amcanion y Cynllun;
- a oedd gweithgareddau nad oeddent yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion;
- a oedd deilliannau ychwanegol nad oeddent wedi eu rhagweld;
- i ba raddau roedd y Cynllun yn eistedd ar y cyd â pholisïau a rhaglenni eraill gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol; ac
- a oedd y polisïau a’r rhaglenni eraill hyn yn cefnogi neu yn creu rhwystrau i’r Cynllun.

2.31 Y sail ar gyfer dehongli’r theori newid oedd y gwaith ymchwil desg, dadansoddiad o ddogfennaeth y Cynllun Grantiau, dadansoddiad y tîm ymchwil o dystiolaeth y broses adolygu llenyddiaeth, a’r dystiolaeth a gasglwyd mewn tri gweithdy datblygu theori newid.

2.32 Cynhaliwyd tri gweithdy datblygu theori newid rhithiol trwy *Microsoft Teams*; un gyda chwech o swyddogion Llywodraeth Cymru a dau gyda derbynwyr grantiau. Gwahoddwyd yr holl dderbynwyr grantiau presennol a swyddog Mentrau Iaith Cymru i gynrychioli'r Papurau Bro i'r gweithdai hyn. Mynychodd 11 cynrychiolydd derbynnydd grant, saith mewn un gweithdy a phedwar yn y llall.

2.33 Datblygwyd drafft o'r theori newid yn ystod y gweithdy cyntaf gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a bu datblygu, profi a mireinio pellach yn ystod y ddau weithdy dilynol gyda derbynwyr grant. Ceir copi o'r canllaw a ddefnyddiwyd ar gyfer y gweithdai theori newid yn Atodiad 2. Dadansoddwyd cofnodion y gweithdai yn unol â chwestiynau'r adolygiad a themâu a materion allweddol ychwanegol a amlygwyd yn ystod trafodaethau'r gweithdai.

**Ystyriaethau moeseg a diogelu data**

2.34 Cwblhawyd yr adolygiad yn unol ag egwyddorion Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR - *Government Social Research*). Cwblhawyd rhestr wirio moeseg ar gychwyn yr adolygiad, ac adolygwyd y rhestr yn ystod yr astudiaeth.

2.35 Derbyniodd y cyfranogwyr hysbysiad preifatrwydd a thaflen wybodaeth am yr adolygiad, yn esbonio nod ac amcanion yr ymchwil, a'u cyfraniad hwy i'r adolygiad. Esboniwyd eu bod yn cyfrannu i'r astudiaeth o'u gwirfodd.

**Cyfyngiadau a heriau**

2.36 Mae rhai cyfyngiadau yn gysylltiedig â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr adolygiad sydd angen eu cadw mewn cof wrth ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad. Amlygwn y cyfyngiadau a'r heriau hyn isod.

2.37 Cynhaliwyd yr adolygiad llenyddiaeth yn unol â'r adnoddau a'r amser a oedd ar gael ar gyfer yr astudiaeth. Nid yw'r dystiolaeth sy'n cael ei thrafod o anghenraid yn cynrychioli darlun cyflawn o'r dystiolaeth sy'n bodoli mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil. Fodd bynnag, bwriedir iddi gynnig cyd-

destun defnyddiol ar gyfer y themâu a’r ystyriaethau sy’n cael eu trafod yn yr adolygiad hwn.

2.38 Roedd y dystiolaeth oedd ar gael yn Saesneg am raglenni hyrwyddo defnydd iaith drwy bartneriaethau cymunedol y tu hwnt i Gymru sydd wedi eu gwerthuso yn brin. Ni chafodd deunyddiau perthnasol a ysgrifennwyd mewn ieithoedd eraill eu cynnwys. Nid yw’r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn felly yn debygol o fod yn cynrychioli darlun cyflawn o’r dystiolaeth sy’n bodoli.

2.39 Nid oes eglurhad amlwg dros gyfradd ymateb isel i’r arolwg a oedd wedi ei dargedu’n benodol at dderbynwyr grant.

2.40 Mae’r adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth amrywiaeth o gyfranogwyr (swyddogion llywodraeth, derbynwyr grant, sefydliadau partner a swyddogion sefydliadau sydd yn cefnogi’r trydydd sector), ac mewn dogfennau ysgrifenedig. Mae’n debygol felly fod y dystiolaeth yn adlewyrchu gwahanol ddehongliadau o amcanion a dulliau gweithredu’r Cynllun Grantiau.

*Arolwg*

2.41 Diben yr arolwg oedd casglu tystiolaeth ffeithiol ac ansoddol. Ni fu’n briodol adrodd ar dystiolaeth feintiol yn ôl canrannau oherwydd mai bychan oedd nifer y cyfranogwyr a ymatebodd i’r arolwg, ond fe gyfeirir at beth tystiolaeth feintiol. Nid yw’r dystiolaeth a gafodd ei chynnig yn ymatebion yr arolwg yn gynrychioliadol, o anghenraid, o safbwyntiau y rhai na ddewisodd ymateb. Cafodd ymatebion testun rhydd eu gwirfoddoli gan ymatebwyr, ac nid yw’r dystiolaeth a gasglwyd drwy’r blychau testun rhydd o anghenraid yn cynnig darlun llawn o safbwyntiau’r derbynwyr grant a gyfrannodd at yr arolwg. Mae angen cadw mewn cof hefyd ei bod yn bosibl mai barn yr unigolion a gwblhaodd yr arolwg a geir yn yr ymatebion, yn hytrach na barn y sefydliadau a’r Papurau Bro yn eu cyfanrwydd. Serch hynny, mae’r dystiolaeth a gasglwyd yn cynnig gwybodaeth gan ystod o wahanol fathau o sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd yn dderbynwyr grant.

*Cyfweliadau*

2.42 O ganlyniad i'r adnodd oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn, nifer cymharol fechan o gyfweliadau a gynhaliwyd gyda derbynwyr grant, swyddogion Llywodraeth Cymru, partneriaid a dyranwyr grantiau trydydd sector. Tra y gwnaed ymgais i gynnwys cynrychiolaeth o wahanol fathau o sefydliadau ac ardaloedd ar draws Cymru, nid oes sicrwydd eu bod yn gynrychioliadol o bob derbynnydd grant a phartner sydd yn rhan o'r Cynllun Grantiau. Yn ogystal, y sefydliadau oedd yn dethol neu enwebu swyddog i gael eu cyfweld mewn cyfweliad. Mae'n bosibl nad yw'r dystiolaeth a gasglwyd gan y swyddogion yn cynrychioli barn y sefydliadau yn eu cyfanrwydd.

*Gweithdai datblygu theori newid*

2.43 Roedd mynychwyr y ddau weithdy datblygu theori newid a gynhaliwyd gyda derbynwyr grant wedi eu hunan-ddethol. Ni chafwyd cynrychiolaeth gan yr holl dderbynwyr grant yn y gweithdai ac felly mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi ei chyfyngu i safbwynt unigolion oedd yn gweithio i ddau fath o sefydliad yn unig. Serch hynny, cafwyd cynrychiolaeth gan sefydliadau oedd yn gweithredu mewn ardaloedd ar draws Cymru.

## 3. Cyd-destun polisi y Cynllun Grantiau

3.1 Mae'r adran hon yn gosod y Cynllun Grantiau presennol a'r angen am yr adolygiad yng nghyd-destun polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Ers ei sefydlu ym 1999, bu'r Cynulliad Cenedlaethol ac yna Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo sawl polisi a strategaeth sydd, un ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol, â'r nod o gefnogi'r Gymraeg o ran ei statws, ei siaradwyr a'r cymunedau hynny lle siaredir yr iaith (Jones a Lewis 2019). Yn yr adran hon, rhoddir sylw penodol i'r canlynol:

- *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr;*
- *Rhaglen ARFOR*;
- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* - o ran y Nodau Llesiant a'r Dulliau o Weithio;
- *Y Cynllun Trydydd Sector;*
- *Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg;*
- *Y Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig;*
- *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2022 (Dogfen ymgynghorol 2021: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru);*
- *Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg*.

Mae'r polisïau, strategaethau a chyhoeddiadau hyn yn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'n holistaidd ac ar draws sectorau gwahanol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r gorolwg a gyflwynir isod yn amlygu'r agweddau hynny sy'n gosod cyfeiriad i'r adolygiad o'r Cynllun Grantiau presennol. Mae hefyd yn amlygu rhai o'r elfennau a chysyniadau sy'n cyfrannu i'r theori newid ar gyfer y Cynllun Grantiau i'r dyfodol.

### *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* (2017-2050)

3.2 *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* (*Cymraeg 2050*) yw'r strategaeth gyfredol sy'n deillio o'r cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru gan *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i fabwysiadu strategaeth Cymru gyfan ar gyfer hyrwyddo a

hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Dyma'r strategaeth sy'n gosod fframwaith a chynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer cynllunio ieithyddol yng Nghymru.

3.3 Mae *Cymraeg 2050* yn cyflwyno gweledigaeth glir ar gyfer Cymru yn y flwyddyn 2050 'lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.' (Llywodraeth Cymru 2017: 4).

3.4 Mae'r strategaeth yn pwysleisio'r gydberthynas agos a pharhaus rhwng y tair thema sydd yn sail iddi sef: '(1) cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, (2) cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a (3) creu amodau ffafriol i'r Gymraeg - seilwaith a'r cyd-destun' (Llywodraeth Cymru 2017: 5).

3.5 Mae'r gweithgareddau sydd yn cael eu hariannu drwy'r Cynllun Grantiau yn canolbwyntio ar yr ail thema, 'Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.' Mae'r thema hon yn cynnwys y targed canlynol: 'Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050' (Llywodraeth Cymru 2017:11). Mae bwriad i dri nod gyfrannu at wireddu'r targed hwn, gydag un ohonynt (Nod 8) yn ymwneud â defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg: 'sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol' (Llywodraeth Cymru 2017: 48).

3.6 Mae *Cymraeg 2050* yn nodi pwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg i blant yn y cartref, a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg am y tro cyntaf drwy ddarpariaeth gofal plant neu addysg. Mae sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg, a'u hannog i weithredu ar y cyfleoedd hyn, yn elfen allweddol o'r strategaeth, boed hynny drwy weithgareddau wyneb yn wyneb neu drwy gyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, mae ymrwymiad i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr o bob lefel rhuglder, beth bynnag yw eu profiad o gaffael neu ddysgu'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cynyddu hyder a chynnig cynhaliaeth i siaradwyr newydd. Y grwpiau cymdeithasol a ieithyddol hyn yw'r prif dargedau ar gyfer yr ymyraethau a ariennir gan y Cynllun Grantiau.

3.7 Fel sydd wedi ei nodi yn *Cymraeg 2050,* mae cyfansoddiad cymunedau ar draws Cymru, a'r dehongliadau o beth sydd yn cael ei olygu wrth 'gymunedau', yn esblygu, ac mae'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol siaradwyr yn amrywiol a chymhleth. Mae globaleiddio a symudedd poblogaeth wedi arwain at newidiadau cymdeithasol. Er bod cymunedau sydd wedi eu diffinio gan ddaearyddiaeth a rhwydweithiau cymdeithasol a chyfathrebu wyneb yn wyneb yn parhau'n ganolog i ffordd pobl o fyw, mae datblygiadau ym maes technoleg wedi cynnig dulliau newydd i bobl weithio a chyfathrebu â'i gilydd ac mae'n faes a welodd ddatblygu cyflym iawn o ganlyniad i bandemig COVID-19.

3.8 Mae *Cymraeg 2050* yn nodi, gan fod ymwneud siaradwyr â'u cymunedau yn amrywio, nad yw hwyluso'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o anghenraid yn golygu trefnu digwyddiadau: 'Er bod [trefnu digwyddiadau] yn rhan o'r darlun, nid yw'n adlewyrchu'n llawn sut mae pobl yn byw eu bywydau. Mewn llawer o achosion nid yw pobl yn aelodau o glybiau neu'n mynychu gweithgareddau ffurfiol yn gyson, gan eu bod yn tueddu i fod yn rhy brysur neu fod ganddynt flaenoriaethau eraill. Mae'r unigolion hyn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar y stryd, mewn siopau ac wrth ddefnyddio gwasanaethau.' (Llywodraeth Cymru 2017: 56).

3.9 Mae *Cymraeg 2050* yn nodi ymhellach yr angen i 'ystyried pob ardal yng Nghymru ar sail ei chyfansoddiad ieithyddol' (Llywodraeth Cymru 2017: 57), a chynllunio er sicrhau cydbwysedd addas mewn ardaloedd 'rhwng digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol, creu cyd-destunau lle mae'n naturiol defnyddio'r Gymraeg, a chymryd camau i normaleiddio'r iaith' (ibid.).

3.10 Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod pwysigrwydd y cyswllt rhwng yr iaith a'r economi. Mae'n cynnwys 'cymuned a'r economi' fel 'amodau ffafriol' sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd ei nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi fod yr economi yn hanfodol er mwyn 'creu'r amodau cymdeithasol priodol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny' (2017: 59). Yn ogystal, nodir bod y 'pwys a roddir ar y Gymraeg' yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel 'sgil gwerthfawr mewn datblygiadau mawr, a chyfleoedd i ddefnyddio'r sgiliau hyn' yn gallu dylanwadu ar ffactorau economaidd (ibid.).

3.11 Fel rhan o’r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ail gam i’w *Raglen ARFOR*. Prif amcan *Rhaglen ARFOR* (cyfnodau 1 a 2) yw cefnogi cymunedau yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i ffynnu drwy ymyriadau economaidd a fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio’r Gymraeg yn ddyddiol (Llywodraeth Cymru 2022d). Mae ail wedd ARFOR yn cynnig cyllideb o £11 miliwn hyd at ddiwedd Mawrth 2025 ac yn ffynhonnell grant arall sydd ar agor i sefydliadau nad ydynt, o reidrwydd, yn cael eu cyllido gan y Cynllun Grantiau presennol.

3.12 Mae *Cymraeg 2050* hefyd yn datgan y nod i alluogi cymunedau i weithredu drostynt eu hunain i gefnogi hyfywedd y Gymraeg. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen datblygu arweinwyr blaengar sy’n deall ‘hanfodion cynllunio ieithyddol’ ac sy’n ‘gweithredu fel cymhellwyr annibynnol’ (Llywodraeth Cymru 2017: 59).

3.13 Agwedd bwysig arall ar y Strategaeth yw’r angen i gynllunio’n fwriadus ac i werthuso effeithiolrwydd ymyriadau. Mae *Cymraeg 2050* yn nodi, ‘[e]r mwyn gwireddu amcanion y strategaeth bydd angen sail dystiolaeth gadarn, ac ymrwymiad i werthuso effeithiolrwydd y rhaglenni a’r ymyriadau a gaiff eu rhoi ar waith oddi tani’ (Llywodraeth Cymru 2017: 77). Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith ymchwil a gwerthuso ‘i gynnig arweiniad ar gyfer casglu tystiolaeth a data, asesu cynnydd a gwerthuso effaith’ gweithrediad *Cymraeg 2050* (Llywodraeth Cymru 2022a:5).

3.14 Mae’r weledigaeth ar gyfer cynllunio ieithyddol sy’n cael ei chyflwyno yn *Cymraeg 2050* ac sydd wedi ei chrynhoi uchod yn amlygu agweddau sy’n cael sylw yn yr adolygiad o’r Cynllun Grantiau presennol, sef:

- galluogi cymunedau i weithredu drostynt eu hunain i gefnogi hyfywedd y Gymraeg;
- datblygu arweinwyr blaengar sy’n deall ‘hanfodion cynllunio ieithyddol’ ac sy’n ‘gweithredu fel cymhellwyr annibynnol’;
- i ba raddau y mae derbynwyr grant yn cynllunio’n fwriadus a gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

3.15 Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i werthoedd datblygiad cynaliadwy ers cychwyn datganoli yn 1999 (Jones a Ross 2016) a chafwyd hwb ychwanegol a phwysig i'r cyfeiriad hwnnw yn 2015 wrth basio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* (*Deddf Llesiant)*. Amcan y Ddeddf yw hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sydd i fod yn sylfaen ar gyfer gweithredoedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Un o saith nod llesiant y Ddeddf yw i greu, erbyn 2050, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' (Llywodraeth Cymru 2015a: 3). Trosir y nod hwn i sicrhau ffyniant y Gymraeg yn ddau ddangosydd cenedlaethol. Mae dangosydd cenedlaethol 36 yn canolbwyntio ar ganran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, tra bod dangosydd cenedlaethol 37 yn cyfeirio at nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2022a). Mae'r ddau ddangosydd hyn yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu ffocws *Cymraeg 2050* ar allu ieithyddol a defnydd iaith.

3.16 Mae'r *Ddeddf Llesiant* yn pwysleisio'r angen i ddatblygu dulliau newydd o weithio o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru:

- 'Hirdymor: Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- Atal: Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- Integreiddio: Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- Cydweithio: Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- Cynnwys: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu' (Llywodraeth Cymru 2015a: 7).

3.17 Beth, felly, yw goblygiadau'r dulliau newydd hyn o weithio o ran hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg? Er enghraifft, sut mae cynllunio i hyrwyddo'r

defnydd o'r Gymraeg dros yr hir dymor? Sut mae cynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys partneriaid ac integreiddio nod llesiant y Gymraeg gyda nodau perthnasol eraill? Mae'r gwerthusiad proses o'r Cynllun Grantiau a'r theori newid ar gyfer y Cynllun i'r dyfodol yn rhoi ystyriaeth bellach i'r cwestiynau hyn.

**Cynllun y Trydydd Sector (2014)**

3.18 Mae *Cynllun y Trydydd Sector* (2014) yn gynllun statudol sy'n ''amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn' bwriadu hybu buddiannau sefydliadau gwirfoddol (Llywodraeth Cymru 2014b: 3). Mae'r Cynllun yn nodi bod y trydydd sector 'yn hanfodol i oroesiad a thwf y Gymraeg fel iaith gymunedol gan ei fod yn creu cyfleoedd i bobl wirfoddoli, ac mae'n darparu gwasanaethau gwirfoddol yn Gymraeg, yn ogystal â dathlu'r iaith a'r traddodiadau sydd ynghlwm wrthi' (Llywodraeth Cymru 2014b: 10).

3.19 Mae'r Cynllun a'i atodiad, *Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector,* yn amlinellu'r prif egwyddorion sy'n sail i'r berthynas cyd-weithredol sydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector a'r egwyddorion sy'n sail i gynllun ariannu'r Trydydd Sector gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i bob un o adrannau Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r Cod Ymarfer hwn (ibid.: 23). Golyga hyn fod rhaid i weithrediad y Cynllun Grantiau gydymffurfio gyda'r *Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector*.

**Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

3.20 Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Addysg Lleol (AALl) baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA). Mae cynlluniau gweithredu'r CSGA wedi eu seilio ar gyfres o ddeilliannau sydd yn cyd fynd gyda meysydd polisi *Cymraeg 2050*. Mae Deilliant 5 *Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg* (Llywodraeth Cymru 2021b) yn cyfeirio at 'mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol' (Llywodraeth Cymru 2021b:14). Mae'r ystyriaethau cynllunio ar gyfer sicrhau y deilliant hwn yn cynnwys:

- mapio'r ddarpariaeth gyfredol sydd ar gael i blant ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth a thu allan i'r ysgol drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau ieuenctid a sefydliadau; a
- trafod gyda chonsortia rhanbarthol am y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc drwy fframwaith y *Siarter Iaith* neu raglenni tebyg.

3.21 Mae canllaw statudol ar gyfer y CSGA yn nodi gyda phwy y dylai AALl gydweithio er mwyn sicrhau fod gweithrediad y CSGA mor effeithiol â phosib. Un o agweddau'r adolygiad hwn oedd casglu tystiolaeth am sut mae derbynwyr grant yn cyd-weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Addysg Lleol, darparwyr addysg a sefydliadau eraill i hyrwyddo a hwyluso defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.

**Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig**

3.22 Nod y *Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig*, sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chyflwyno mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yw cynyddu defnydd anffurfiol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol (Llywodraeth Cymru 2020b). Un o argymhellion y *Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig* (Llywodraeth Cymru 2020b) oedd y 'dylai Llywodraeth Cymru sicrhau aliniad rhwng amcanion y fframwaith Siarter Iaith cenedlaethol a nodau ac amcanion sefydliadau cymunedol sy'n cefnogi'r Gymraeg a ariennir gan Lywodraeth Cymru' (Argymhelliad 10, Llywodraeth Cymru 2020b: 114). Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n derbyn cyllid drwy'r Cynllun Grantiau hwn. Un o fwriadau'r adolygiad oedd casglu tystiolaeth am weithgaredd y derbynwyr grant presennol mewn perthynas â'r *Siarter Iaith*.

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022)**

3.23 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ymgynghorol o'r *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* yn 2021; teitl y Cynllun bryd hynny oedd *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru.* Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, newidiwyd teitl y ddogfen a chyhoeddwyd *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* ar ei ffurf bresennol yn 2022 (Llywodraeth Cymru 2022b).

Mae'r Cynllun yn cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Edrychodd yr adolygiad ar sut roedd derbynwyr grant yn gweithredu yn gynhwysol ac yn creu cyfleoedd i bobl o wahanol gefndiroedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* yn cynnwys dros ddau gant o gamau gweithredu. Wedi'u cynnwys yn y Cynllun mae saith cam gweithredu yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg. Noda'r Cynllun: Mae gennym weledigaeth ehangol a chynhwysol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn iaith sy'n perthyn inni gyd, ac mae'n ffordd o uno pobl o gefndiroedd gwahanol' (Llywodraeth Cymru 2022b: 43). Roedd oddeutu 10,000 o'r rhai a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011 yn dod o gymunedau ethnig lleiafrifol (ibid:43).[4] Mae'r *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* yn nodi dyhead am weld y nifer hwn yn cynyddu, ac yn datgan y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith cymunedau ethnig lleiafrifol. Mae un o gamau gweithredu'r Cynllun mewn perthynas â'r Gymraeg yn ymwneud â sefydliadau sy'n cael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys yr angen i Lywodraeth Cymru bennu targedau a disgwyliadau ar gyfer dulliau gweithredu gwrth-hiliol, ac i ddatblygu cynllun gweithredu i wella cynrychiolaeth o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yng ngweithlu sefydliadau sy'n cael cyllid grant. Bwriedir i hyn arwain at:

- '[f]wy o brosiectau iaith Gymraeg wedi'u cyflwyno i bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru;
- mwy o unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru yn mwynhau gweithgareddau a digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg'. (Llywodraeth Cymru 2022b: 54)

[4] Bu cynnydd yn nifer a chanran y bobl tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg o leiafrifoedd ethnig rhwng 2011 a 2021, gan godi o bron i 11,000 o bobl yn 2011 i ychydig dros 16,000 o bobl yn 2021. Y Gymraeg yn ôl nodweddion y boblogaeth Cyfrifiad 2021

### Mentrau Iaith

3.24 Yn 2013, cynhaliodd Llywodraeth Cymru *Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe* (Llywodraeth Cymru 2014a). Bwriad yr adolygiad oedd archwilio'r dulliau a oedd yn cael eu defnyddio ar y pryd gan y sefydliadau hyn i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Talodd yr adolygiad sylw penodol i effeithiolrwydd strwythurau'r sefydliadau, y potensial ar gyfer datblygu rôl y Mentrau ymhellach, a threfniadau cyllido Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd yr adroddiad argymhellion yn cwmpasu amrediad o feysydd yn gysylltiedig â chynllunio'r ddarpariaeth ar sail dealltwriaeth fanwl o anghenion ardaloedd; partneriaethau effeithiol a strategol; hyfforddiant, a strwythurau cyllido. Yn ei ymateb i'r argymhellion, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fwriad i gefnogi'r holl fentrau iaith i barhau i ddatblygu a safoni eu gwaith ar draws Cymru; cynllunio ar sail deilliannau ieithyddol; darparu hyfforddiant ac adnoddau i gynorthwyo'r mentrau i gyflawni hyn,ac ymestyn y cylch cyllido (Llywodraeth Cymru 2014c).

### Effeithiau COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg

3.25 Cafodd pandemig COVID-19 effaith annisgwyl a sylweddol ar allu mudiadau cymunedol i weithredu yn y modd arferol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg er mwyn archwilio effaith pandemig COVID-19 ar waith mudiadau cymunedol Cymraeg a goblygiadau hynny ar gyfer cyflawni amcanion *Cymraeg 2050* (Llywodraeth Cymru 2020a). Dangosodd yr arolwg bod y cyfnod clo cyntaf yn 2020 wedi cael effaith ar waith mudiadau, gyda 68 y cant o'r rhai a ymatebodd yn nodi nad oeddent wedi cynnal gweithgareddau o gwbl ers dechrau'r cyfnod clo (Llywodraeth Cymru 2020a: 23). Nododd 16 y cant o'r rhai a ymatebodd eu bod wedi addasu eu gweithgareddau fel y gellid eu cynnal ar-lein, a dywedodd saith y cant eu bod wedi atal eu gweithgarwch ar ddechrau'r cyfnod clo, ond eu bod wedi ailddechrau ers hynny (Llywodraeth Cymru 2020a).

3.26 Y Mentrau Iaith oedd fwyaf tebygol o fod wedi aros yn weithredol yn ystod y cyfnod clo, gyda'r mwyafrif ohonynt yn addasu eu gweithgareddau i'w cynnal

ar-lein neu'n trefnu gweithgareddau newydd ar-lein. Roedd tua hanner y grwpiau dysgu, Papurau Bro a Chlybiau Ffermwyr Ifanc a ymatebodd hefyd wedi trefnu gweithgareddau ar-lein (Llywodraeth Cymru 2020a: 28). Addasodd rhai mudiadau eu gweithgareddau gan geisio ymateb yn uniongyrchol i'r heriau a gododd yng nghyd-destun y pandemig, er enghraifft drwy gefnogi unigolion bregus a busnesau lleol. Roedd cynnal gweithgareddau yn rhithiol wedi galluogi rhai sefydliadau i gynyddu'r niferoedd a fu'n cymryd rhan ynddynt ac i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd (Llywodraeth Cymru 2020a: 29). Yn ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad *Effaith COVID-19 ar waith grwpiau cymunedol Cymraeg*, amlygodd argymhellion Is-grŵp Cynyddu Defnydd o'r Gymraeg gwestiwn ehangach ynghylch yr angen i sefydliadau gwirfoddol i feddwl yn fwy strategol am eu cyfraniad i hyrwyddo'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg '(Llywodraeth Cymru 2021d).

## 4. ‘Cymuned’, ‘grymuso cymunedol’ a gweithredu mewn partneriaeth

4.1 Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn cydnabod yr angen i gynllunio ieithyddol yng Nghymru ymateb i heriau newid cymdeithasol yn sgil globaleiddio, symudedd poblogaeth a datblygiadau technolegol. Mae’n cydnabod bod cyfansoddiad cymunedau ar draws Cymru, a’r dehongliadau o beth sydd yn cael ei olygu wrth ‘gymunedau’, yn esblygu. Mae hefyd yn gosod nod i alluogi cymunedau i weithredu drostynt eu hunain i gefnogi hyfywedd y Gymraeg.

4.2 Mae’r ffordd o weithio sy’n cael ei hannog gan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol* yn rhoi bri ar ‘rymuso cymunedol’ a ‘gweithredu mewn partneriaeth’. Caiff egwyddorion grymuso cymunedol eu hadlewyrchu mewn nifer o’r ymrwymiadau yn *Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad* (Llywodraeth Cymru 2021e) ac yn y *Datganiad Ysgrifenedig – Polisi Cymunedau* (Llywodraeth Cymru 2022c) sy’n nodi’r bwriad i:

> ‘[d]datblygu ffyrdd newydd, cydgynhyrchiol o weithio gyda’n cymunedau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod egwyddorion grymuso cymunedol sydd eisoes yn rhan annatod o’n deddfwriaeth sylfaenol yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gyson i brosesau ymgysylltu lleol effeithiol. [...] Rydym hefyd am wrando ar ein cymunedau a dysgu ganddynt, gan fanteisio ar eu gwybodaeth leol a’u profiad gwerthfawr. Ar yr un pryd, rydym am barchu’r strwythurau lleol a rhanbarthol sydd ar waith yn llawn.’ (Llywodraeth Cymru 2022c:1)

4.3 Bwriad yr adran hon yw archwilio’r cysyniadau ‘cymuned’, ‘grymuso cymunedol’ a ‘diwylliant o weithredu mewn partneriaeth’ ar gyfer datblygu theori newid i’r Cynllun Grantiau i’r dyfodol. Mae’n cyfrannu at ddatblygu’r dealltwriaeth o’r cysyniadau hyn trwy adolygu’r llenyddiaeth academaidd. Mae’r adran hon hefyd yn adrodd ar y dystiolaeth a gwybodaeth a gasglwyd am raglenni a dulliau hyrwyddo defnydd iaith drwy bartneriaethau cymunedol y tu hwnt i Gymru.

**‘Cymuned’, tiriogaeth a defnydd iaith**

4.4 Mae ‘cymuned’ yn gysyniad sydd wedi hawlio lle blaenllaw mewn trafodaethau ym meysydd anthropoleg, daearyddiaeth, cymdeithaseg a chymdeithaseg iaith. Y dehongliad mwyaf traddodiadol a’r mwyaf cyfarwydd i’r mwyafrif yw’r dehongliad o ‘cymuned’ fel cysyniad sy’n cyfleu ardal ddaearyddol benodol sy’n gymharol fach o ran graddfa neu faint, ac sy’n meddu ar ffiniau cydnabyddedig (e.e. Rees 1950; Davies a Rees 1960).

4.5 Dehongliad amgen a mwy diweddar o natur cymuned yw’r syniad o ‘gymuned diddordeb’ (Mayo 2000). Yn yr achos hwn, nid yw’r gymuned yn cael ei dehongli fel endid ddaearyddol benodol, ond yn hytrach fel grŵp o bobl sy’n cael eu dwyn ynghyd ar sail buddiannau neu ddiddordebau cyffredin (Lawthom a Whelan 2012). Mae’r mathau hyn o gymuned yn endidau ‘mwy anweledig’ a ‘llai amlwg’ na’r rhai daearyddol, gan eu bod yn tynnu ynghyd ac yn cysylltu unigolion sydd, o bosibl, wedi’u gwasgaru ar draws ardal ddaearyddol eang (Lawthom a Whelan 2012: 16).

4.6 Nid dim ond diddordebau penodol all fod yn sail i gymunedau diddordeb; gallant ddatblygu hefyd yng nghyd destun profiadau bywyd cyffredin, yn ddibynnol ar gyfnod person mewn bywyd, er enghraifft, pan yn fyfyrwyr neu yn rieni (Lawthom a Whelan (2012: 16) neu ar sail hunaniaethau penodol megis ethnigrwydd, gender, daliadau crefyddol neu wleidyddol.

4.7 Nodwedd allweddol arall mewn perthynas â chymunedau diddordeb yw natur wirfoddol y ffurfiau cymdeithasol hyn, ynghyd â natur cymharol fwriadus y rhyngweithio y maent yn ei gefnogi. Mae cyfranogi mewn cymuned diddordeb yn deillio o barodrwydd ar ran yr unigolyn i ymgysylltu ac, o bosibl, i deithio er mwyn cyfarfod ag aelodau eraill mewn lleoliadau penodol ar adegau dynodedig. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â’r darlun o ryngweithio mwy digymell, ar hap sy’n cael ei gysylltu â’r model o gymunedau lleol traddodiadol sy’n seiliedig ar ardal ddaearyddol benodol (Glyn 2010; Mayo 2000).

*Cysylltu cymuned a defnydd iaith*

4.8 Mae gwaith ymchwil diweddar wedi ystyried y berthynas rhwng y dehongliadau amgen o natur cymuned a dealltwriaethau gwahanol o sut y mae pobl yn defnyddio iaith o ddydd i ddydd.

4.9 Bu'r pwyslais ar y dehongliad daearyddol traddodiadol o gymuned yn nodwedd amlwg o drafodaethau ynglŷn â defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru (Glyn 2010, Jones a Lewis 2019, Jones 2021). O'r safbwynt hwn, y duedd yw tybio bod rhyngweithio cymdeithasol ac, yn sgil hynny, defnydd iaith, yn digwydd yn bennaf yng nghyd destun cyfarfyddiadau ar hap o fewn gofod daearyddol cymharol fach y gymuned leol. Felly, os yw unigolyn yn digwydd byw mewn ardal lle bo canran uchel o'i gyd-drigolion yn digwydd siarad Cymraeg, y rhagdybiaeth yw y bydd canran uchel o'i sgyrsiau dyddiol hefyd yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg (Jones a Lewis 2019: 210). Mae *Cymraeg 2050* yn datgan: 'Mewn rhai cymunedau bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn codi yn hollol naturiol am mai'r Gymraeg yw iaith bywyd bob dydd' (Llywodraeth Cymru 2017: 48).

4.10 O ganlyniad, amcan allweddol yn yr ymgais i geisio atal dirywiad y Gymraeg fu cynnal y nifer o ardaloedd lle mae'r iaith yn parhau i feddu ar y statws hwn. Bu tuedd hefyd i dybio bod modd i'r Gymraeg barhau i gael ei defnyddio fel 'iaith feunyddiol' neu 'iaith gymunedol' (Llywodraeth Cymru 2012b: 8, 25) cyhyd ag y bo dros 70 y cant neu ragor o'r bobl sy'n byw o fewn ffiniau'r gymuned yn parhau i siarad yr iaith.

4.11 Mae'r arwyddocâd a briodolwyd i'r trothwy 70 y cant i'w weld mewn ystod o gyhoeddiadau swyddogol sy'n trafod y Gymraeg. Er enghraifft, mae'r nifer o gymunedau ar draws Cymru sy'n parhau i fod uwchlaw'r trothwy hwn yn thema sy'n derbyn sylw penodol yn y ddau adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg (2016, 2020), '[y]styrir cymunedau lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn ieithyddol arwyddocaol [...] Fe'u hystyrir yn arwyddocaol oherwydd y tebygolrwydd y bydd y defnydd o'r Gymraeg yn uchel yn y cymunedau hynny.' (Comisiynydd y Gymraeg 2016: 54).

4.12 Dros y blynyddoedd, rhoddwyd pwyslais ar y trothwy 70 y cant yn strategaethau iaith swyddogol Llywodraeth Cymru hefyd. Er enghraifft,

nododd *Iaith Fyw: Iaith Byw*: ‘[b]u gostyngiad yn nifer y cymunedau lle’r oedd dros 70 y cant o’r boblogaeth yn medru’r Gymraeg i 54 yng Nghyfrifiad 2001 o’i gymharu â 92 ym 1991. Dadleuwyd ers tro bod angen dwysedd o siaradwyr ar y lefel honno er mwyn i’r Gymraeg fod yn iaith feunyddiol o fewn y cymunedau hynny.’ (Llywodraeth Cymru 2012b: 8).

4.13 Mae ymgyrchwyr iaith hefyd wedi pwysleisio arwyddocâd y trothwy 70 y cant a’r angen i geisio cynnal y nifer o ardaloedd sydd yn uwch na’r trothwy hwn. Dyma’r ardaloedd a ddiffinnir fel ‘cymunedau Cymraeg’ (Cymdeithas yr Iaith 2018). Un eglurhad sydd wedi’i gynnig dros y pwyslais ar y trothwy 70 y cant yw mai dyma’r lefel lle mae tebygolrwydd cyfartal y bydd sgwrs ar hap rhwng dau unigolyn yn medru digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.14 Dadleuodd Jones (2007) y gellir cyfrifo’r tebygolrwydd o ddau siaradwr Cymraeg yn cwrdd ar hap fel: $p = x^2$ - lle x yw’r gyfran o’r boblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg. Felly, yn ôl y model hwn, pan mae $x = 0.7$, y tebygolrwydd y byddai dau sy’n gallu siarad Cymraeg yn cwrdd ar hap yw 0.49 ($0.7 \times 0.7 = 0.49$). O ganlyniad, ‘[o]s yw 70 y cant o’r boblogaeth mewn ardal benodol yn siarad Cymraeg yna bydd tebygolrwydd o bron 1 mewn 2 y bydd sgwrs ar hap rhwng dau berson gwahanol yn medru digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg’ (Jones 2007: 24).

4.15 Mae’r persbectif sy’n trin y gymuned ddaearyddol leol fel y ffocws mwyaf priodol ar gyfer deall a dehongli arferion defnydd iaith yn sail i gryn dipyn o’r llenyddiaeth academaidd ym maes shifft iaith ac adfywio iaith (Lewis a McLeod 2021). Ceir un o’r datganiadau mwyaf arwyddocaol a dylanwadol o’r safbwynt hwn yng nghyfrol enwog Joshua Fishman, *Reversing Language Shift* (RLS) (1991). Thema gyson yng ngwaith Fishman oedd yr angen i’r sawl sy’n ceisio sicrhau adfywiad iaith i flaenoriaethu ymyraethau a fyddai’n cynnal defnydd anffurfiol ‘wyneb yn wyneb’ o’r iaith darged o fewn ‘cymunedau lleol’ (Fishman 1991: 4). Mewn ardaloedd lle mae siaradwyr yr iaith darged yn y lleiafrif, roedd Fishman yn annog gweithredu i hwyluso defnydd iaith o fewn cymdogaethau neu rhwydweithiau penodol trwy ‘process of planned concentration in particular neighbourhoods’ (ibid.: 92). Yn ôl Fishman, ‘[e]very pro-RLS movement must strive to provide physical

breathing-space for its constituency, a demographically concentrated space where Xish can be on its own turf, predominant and unharassed' (ibid.: 58).

4.16 Mae ymchwil arall wedi tynnu sylw at y rhyngweithio cymdeithasol sy'n digwydd yn bennaf trwy gyfres o gymunedau diddordeb gwahanol, yn hytrach nag o fewn un gymuned diriogaethol ffiniedig. Mae'r ymchwil hwn yn tynnu sylw at y ffaith y byddwn o dydd i ddydd yn symud trwy ystod o ofodau neu beuoedd gwahanol – rhai yn agos i adref, eraill yn bellach i ffwrdd – ac y bydd pob un o'r cyd-destunau hyn – rhai'n ymwneud â gwaith ac eraill yn ymwneud â hamdden – wedi'u nodweddu gan amgylchiadau sosioieithyddol penodol lle gall arferion defnyddio iaith benodol amrywio.

*Oes ôl-diriogaethol?*

4.17 Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cryn drafod ar draws y gwyddorau cymdeithasol ynghylch i ba raddau y bu dirywiad yn arwyddocâd ardal ddaearyddol fel ffactor sy'n dylanwadu ar wahanol agweddau ar fywyd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol.

4.18 Y sbardun i'r trafodaethau hyn fu ymwybyddiaeth gynyddol o effaith dylanwadau fel y twf mewn mudo rhyngwladol, y defnydd cynyddol o geir sydd wedi arwain at newidiadau mewn arferion teithio i'r gwaith, a datblygiadau technolegol pellgyrhaeddol sydd wedi ysgogi symudiad tuag at fyd mwy symudol a rhyng-gysylltiedig (Jones a Lewis 2019). O ganlyniad i hyn, mae goblygiadau sylweddol i'r modd y mae pobl yn byw o ddydd i ddydd ac yn ymgysylltu ag eraill, boed yn broffesiynol neu'n gymdeithasol.

4.19 Wrth ddilyn taith ddyddiol unigolion, gan ystyried eu symudiadau a'u rhyngweithiadau gwahanol, gwelir mai pur anaml y bydd eu cyfarfyddiadau wedi'u clymu i un gymuned diriogaethol leol (Jones 2021). Yn hytrach, mae bywyd dydd i ddydd unigolyn yn debygol o gynnwys ystod amrywiol o brofiadau a chyfarfyddiadau sy'n deillio o symud trwy ystod o sefyllfaoedd neu ofodau gwahanol lle bydd yn rhyngweithio ag ystod o unigolion neu grwpiau.

*Goblygiadau i gynllunwyr iaith*

4.20 Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod arwyddocâd y trawsnewid cymdeithasol a welwyd ac arwyddocâd hyn ar gyfer cynllunio iaith. Er enghraifft, yn yr adran sy'n gosod sail gysyniadol *Cymraeg 2050* fe nodir:

> 'Nid oes gennym ddarlun manwl o sut bydd pobl yn byw eu bywydau erbyn 2050, ond y tebygolrwydd yw y bydd y datblygiadau rydym wedi eu gweld dros y degawdau diwethaf yn parhau i drawsnewid ein bywydau bob dydd. Gwelwn sut mae globaleiddio, symudedd, a dehongliadau mwy amrywiol o gysyniadau megis yr uned deuluol a 'chymuned' wedi arwain at newidiadau pellgyrhaeddol. Gwelwn hefyd sut mae datblygiadau ym maes technoleg yn cynnig dulliau newydd o gyflawni ein gwaith a chyfathrebu â'n gilydd. Ar yr un pryd, nid yw'r newidiadau hyn wedi disodli'n llwyr bwysigrwydd cymunedau sydd wedi eu diffinio gan ddaearyddiaeth, rhwydweithiau cymdeithasol sy'n seiliedig ar gyfathrebu wyneb yn wyneb, a'r aelwyd yn ganolbwynt i fywyd teuluol.' (Llywodraeth Cymru 2017:15).

4.21 Y goblygiadau ymarferol i'r sawl sy'n gweithio ym maes cynllunio iaith yw'r angen i osgoi gweithio mewn modd lle caiff y gymuned ddaearyddol ei mabwysiadu o'r cychwyn cyntaf fel y ffrâm briodol ar gyfer deall defnydd iaith a hefyd y raddfa briodol ar gyfer ymyraethau sydd â'r nod o ehangu'r defnydd hwnnw. Mae'r ymchwil a gafodd ei adolygu yn yr adran hon yn awgrymu y dylid anelu i gynllunio mewn modd sy'n blaenoriaethu'r broses o sut mae siaradwyr iaith benodol yn byw eu bywyd o ddydd i dydd, a thrwy hyn, adeiladu dealltwriaeth o'r rhwydweithiau a'r gofodau sy'n meddu ar arwyddocâd ac sy'n dylanwadu ar sut a phryd y maent yn defnyddio gwahanol ieithoedd.

**Grymuso cymunedol ac annog diwylliant o weithredu mewn partneriaeth**

4.22 Datblygodd 'grymuso' cymunedol i fod yn gysyniad sydd wedi hawlio lle blaenllaw mewn trafodaethau ynghylch sut y dylid trefnu llywodraethiant, a sut y dylai polisïau cyhoeddus gael eu datblygu a'u gweithredu.

4.23 Hanfod y syniad o rymuso cymunedol yw'r dyhead i bobl neu gymunedau arddel mesur o reolaeth dros gyfeiriad eu bywydau (Sefydliad Iechyd y Byd

2020), i fod yn fwy hunangynhaliol, medru gwneud mwy drostynt eu hunain, a chaniatáu iddynt gymryd penderfyniadau gweithredol sy'n effeithio ar natur eu cymunedau (Audit Scotland 2019: 4).

4.24 Mae diwylliant o weithredu mewn partneriaeth yn ganolog i rymuso cymunedol. Mae grymuso cymunedol yn broses gydweithredol sy'n tynnu ynghyd ystod o actorion – boed yn gyrff neu sefydliadau ffurfiol o'r sector cyhoeddus, sector preifat neu'r trydydd sector, neu'n gasgliad anffurfiol o unigolion (Llywodraeth yr Alban 2009: 2).

4.25 Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn dadlau bod grymuso cymunedol yn galw am gymryd camau i 'ailddosbarthu grym a dylanwad'. Mae hynny'n golygu bod angen i gyrff cyhoeddus, busnesau a sefydliadau gwirfoddol gynllunio a chreu atebion ar y cyd â chymunedau lleol' (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2018: 8).

4.26 Mae grymuso cymunedol yn tueddu i ganolbwyntio'n bennaf ar y syniad traddodiadol o gymunedau daearyddol (Adamson a Bromiley 2013, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2018). Ond ceir cydnabyddiaeth hefyd o bwysigrwydd cymunedau sy'n rhannu diddordebau, pryderon neu hunaniaethau cyffredin (Sefydliad Iechyd y Byd 2020).

*Datblygiadau polisi perthnasol yn y DU*

4.27 Mae grymuso cymunedol wedi bod yn thema amlwg mewn datblygiadau polisi ar draws y Deyrnas Unedig ers dechrau'r ugeinfed ganrif ar hugain (Adamson a Bromiley 2013). Yn yr Alban, mae grymuso cymunedol wedi bod yn thema flaenllaw mewn trafodaethau ynghylch cyfeiriad polisi cyhoeddus. Un o'r egwyddorion allweddol a sefydlwyd gan adroddiad Comisiwn Christie (Llywodraeth yr Alban 2011) ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus y wlad ar gyfer y dyfodol oedd y dylai gwasanaethau cyhoeddus gael eu diwygio mewn modd a fydd yn grymuso'r unigolion a'r cymunedau sy'n eu defnyddio trwy eu cynnwys yn y broses o gynllunio a threfnu'r gwasanaethau hynny.

4.28 Yng Nghymru, mae agenda grymuso cymunedol wedi bod yn amlwg ar draws ystod y feysydd polisi yn ystod y cyfnod ôl-ddatganoledig. Bu'n

nodwedd arbennig o flaenllaw o raglenni polisi Llywodraeth Cymru ym maes dileu tlodi a difreintedd, yn arbennig y cymal o'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a fu'n weithredol rhwng 2001 a 2012 (Adamson a Bromiley 2008). Bu'n thema bwysig mewn meysydd eraill hefyd, megis diwygio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019) a datblygu asedau cymunedol er budd cymunedau (Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd 2022). Yn arwyddocaol yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, mae grymuso cymunedol hefyd wedi bod yn gysyniad sy'n sail i drafodaethau ynghylch sut i drefnu ymyraethau i hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Bu hyn ar ei fwyaf amlwg mewn perthynas â'r Mentrau Iaith (Glyn 2010).

**Rhoi grymuso cymunedol ar waith**

4.29 Yn 2019, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru broses gyfranogol, gyda sefydliadau cymunedol a phartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, i ddatblygu cyfres o egwyddorion y dylai gweithwyr yn y sector iechyd eu harddel i sicrhau ymgysylltu effeithiol gyda chymunedau sy'n hybu grymuso ystyrlon. Mae'r ddogfen *Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned er mwyn Grymuso* (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019) yn amlinellu wyth o egwyddorion allweddol. Mae'r testun sydd ag arwyddocâd i'r adolygiad hwn wedi ei danlinellu.

> **Egwyddor 1:** 'Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned <u>yn broses barhaus, hirdymor [...] dylai gael ei ymgorffori yn ein ffordd o weithio</u>, fel ei fod yn rhywbeth sy'n rhan awtomatig o arferion bob dydd' (2019: 4).
>
> **Egwyddor 2:** 'Dylai'r broses gynnwys <u>sefydlu perthnasoedd cadarn, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, sy'n cael eu meithrin drwy greu mannau i bawb gyfranogi mewn modd cyfartal</u>' (2019: 5)
>
> **Egwyddor 3:** 'Dylid cydnabod nad yw pŵer yn gyfartal a bod angen dysgu ildio pŵer [...]. Yn y lle cyntaf mae'r egwyddor hon yn cyfeirio at <u>y pŵer sydd gan weithwyr proffesiynol, gan gynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus a thrydydd sector, dros unigolion a chymunedau</u>. Er y byddai llawer yn dadlau y gellid defnyddio pŵer o'r fath mewn ffordd bositif i ysgogi newid cymdeithasol, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y <u>'pŵer' sydd</u>

gan weithwyr proffesiynol a sefydliadau yn rhwystr sylfaenol i rymuso unigolion a chymunedau yn systematig' (2019: 6).

**Egwyddor 4:** 'Dylid cydnabod a gwerthfawrogi'r hyn sydd gan y gymuned i'w gynnig ac adeiladu ar ei chryfderau [...] mae angen ystyried yr adnoddau, yr asedau a'r perthnasoedd sydd ar gael o fewn y gymuned, gan werthfawrogi'r gwerth a ddaw yn eu sgil. Dylai gweithio gyda chryfderau, strwythurau a rhwydweithiau cyfredol, a helpu i wneud y gorau o'u potensial, ddigwydd cyn ystyried unrhyw gamau meithrin gallu' (2019: 7).

**Egwyddor 5:** Mae'r defnydd o derminoleg yn holl bwysig; mae disgrifiadau o gymunedau yn medru creu stigma, tanseilio pŵer a bod yn groes i'r ffordd mae'r gymuned yn gweld ei hun [...] Gall fod stigma a chywilydd yn gysylltiedig â geiriau yr ydym yn eu defnyddio yn aml [...] i ddisgrifio cymunedau, fel 'difreintiedig', 'wedi dadrymuso' ac 'amddifad' [...] Gall hyn gael effaith negyddol ar rymuso' (2019: 8).

**Egwyddor 6:** 'Dylid cydnabod a gwerthfawrogi pob math o wybodaeth mewn modd gyfartal a dysgu gyda'n gilydd ac oddi wrth ein gilydd [...[ Mae gwahanol fathau o wybodaeth yn angenrheidiol i ddeall ac archwilio gwahanol agweddau sy'n bwysig i'n gwaith. Tra'n cydnabod bod gwybodaeth academaidd a gwybodaeth sy'n seiliedig ar brofiad a ddaw o'r gymuned yn wahanol, mae'n bwysig cydnabod bod y ddau yn hanfodol, ac y dylid eu trin â gwerth cyfartal' (2019: 9).

**Egwyddor 7:** 'Dylid cydnabod a gwerthfawrogi gweithwyr rheng flaen yn y gymuned [...] Mae'r egwyddor hon yn amlygu pwysigrwydd y rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol â chymunedau ac ar eu rhan wrth hwyluso cysylltiadau rhwng y gymuned a sefydliadau neu asiantaethau partner. Gall unigolion allweddol o'r fath hefyd greu rhwydweithiau cymunedol ffurfiol neu anffurfiol gwerthfawr. Gallant ddarparu llwybr i'r gymuned, yn seiliedig ar eu mewnwelediad i sut mae pethau'n gweithredu yno, sy'n osgoi creu seilweithiau gwahanol neu newydd' (2019: 10).

**Egwyddor 8:** 'Yn aml, mae angen newidiadau oddi mewn i asiantaethau ac nid yn y cymunedau eu hunain. Dylid bod yn agored i ddysgu newydd ac yn ddigon dewr i gyfaddef nad oes gennym yr holl atebion [...] Mae'r

egwyddor hon yn ymwneud ag annog y rhai sy'n gweithio gyda chymunedau [...] i edrych ar yr arferion ymgysylltu cymunedol sydd wedi eu sefydlu o fewn eu sefydliad ac i fyfyrio ar y rhan y gallan nhw, yr asiantaeth, ei chwarae wrth greu problemau [...] <u>[mae] sefydliadau yn aml yn defnyddio eu harbenigedd i ddod o hyd i atebion i'r hyn y maen nhw'n eu hystyried yn broblemau mewn cymunedau heb siarad ag aelodau'r gymuned</u>. Gall hyn fod yn heriol i gymunedau (2019: 11).

4.30 Mewn ymateb i benderfyniad Llywodraeth Cymru yn 2017 i ddirwyn y rhaglen *Cymunedau'n Gyntaf* i ben yn raddol erbyn Mawrth 2018 a symud yn raddol at 'ddull newydd o greu cymunedau cryf', cyhoeddwyd *Grymuso Cymunedau* (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2018) ar sail cydweithio agos gydag Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau Cymru, rhwydwaith Talwrn a thrafodaethau gydag ystod o gyrff a rhwydweithiau trydydd sector yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn cyflwyno chwech o egwyddorion cyffredinol y dylid eu harddel ar gyfer 'creu cymunedau cryf'. Mae'r testun sydd ag arwyddocâd i'r adolygiad hwn wedi ei danlinellu.

**1 Cydnabod pwysigrwydd eglurder o ran iaith a chanlyniadau:** 'Mae iaith yn bwysig. Bydd gwahanol sectorau'n defnyddio terminoleg a chysyniadau mewn gwahanol ffyrdd a bydd cymunedau'n eu dehongli'n wahanol; ni ddylid cymryd yn ganiataol bod pawb yn deall popeth yn yr un ffordd […] Pa dermau bynnag a ddefnyddiwn, mae angen i'r cysyniadau sylfaenol fod yn glir ac yn gyson.' (2018: 6).

**2 Deall sut y gall lle fod yn allweddol i rymuso:** 'Roedd consensws y <u>dylai lle fod yn un o elfennau diffiniol dulliau gweithredu newydd y llywodraeth o safbwynt creu cymunedau cryf wedi'u grymuso</u>. Er hynny, nid dyma ddylai fod yr unig elfen' (2018: 12).

**3 Mabwysiadu dulliau wedi'u seilio ar Ddatblygu Cymunedol sy'n Seiliedig ar Asedau: '**Pwysleisiodd pobl fanteision gweithredu [mewn modd] sy'n caniatáu i gymunedau ddefnyddio eu hasedau allweddol ac arfer rheolaeth neu ddylanwad dros y ffordd y cânt eu defnyddio. <u>Gall yr asedau hyn fod yn rhai amgylcheddol, ffisegol, diwylliannol neu gymdeithasol</u> […] Dylai fod rhagdybiaeth o blaid perchnogaeth gymunedol ar yr asedau hynny sy'n bwysig i gymunedau ac y bernir bod iddynt

botensial dichonadwy. Ychydig o ddarpariaeth sydd, fel yn yr Alban a Lloegr, i gymunedau i fynegi awydd i sicrhau perchnogaeth gymunedol ar asedau a datblygu modd o sicrhau hynny. Gan mai cymysg yw'r profiadau o drosglwyddo asedau yng Nghymru, mae lle i ystyried darpariaeth ychwanegol o ran deddfwriaeth a pholisïau i gryfhau'r hawl i berchnogaeth gymunedol' (2018: 15).

**4 Cydnabod gwerth cyfalaf cymdeithasol:** 'P'un a yw cyfalaf cymdeithasol wedi dirywio neu wedi cymryd ffurf newydd, mae'n amlwg fod digonedd ohono mewn nifer fawr o gymunedau yng Nghymru o hyd, ac mae'n aml yn organig, yn lleol iawn ac yn ei yrru ei hun [...] Mae angen i'r wladwriaeth gydnabod nid yn unig swyddogaeth a gwerth cyfalaf cymdeithasol, ond hefyd fod yn rhaid iddi beidio â'i 'goloneiddio' nac ymyrryd ag ef. Ni ddylai chwaith geisio'i ffurfioli â fframweithiau perfformiad a chanllawiau. Mae yna ddadl mai dyna y mae cam olaf Cymunedau yn Gyntaf wedi'i wneud: defnyddio sefydliadau cymunedol i gyflawni canlyniadau'r llywodraeth ar lefel leol, neu lywio unigolion tuag at fabwysiadu ymddygiadau wedi'u cymeradwyo gan y llywodraeth' (2018: 17-18).

**5 Gwerthfawrogi sefydliadau sydd wedi'u hangori yn y gymuned:** Mae'r egwyddor hwn yn pwysleisio arwyddocâd sefydliadau sydd wir wedi'u hangori yn y gymuned o'u cymharu ag adnoddau 'cymunedol' sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus. Er enghraifft: 'Mae hybiau awdurdodau lleol yn tueddu i fod yn gyfleusterau, fel arfer mewn hen lyfrgelloedd neu'n gysylltiedig â nhw, sy'n cynnwys gwasanaethau wedi'u cydleoli. Er eu bod yn werthfawr i unigolion sydd am ddefnyddio adnoddau TG, neu gael cyngor neu wybodaeth, ychydig a wnânt i rymuso cymunedau oherwydd nad y cymunedau sy'n berchen arnynt. Mae perchnogaeth gymunedol ac arweinyddiaeth gymunedol yn hanfodol er mwyn grymuso cymunedau. Mae'r rhan y gall sefydliadau angori cymunedol ei chwarae wedi cael cydnabyddiaeth gynyddol dros y degawd diwethaf' (2018: 20).

**6 Bod yn glir beth mae llwyddiant yn ei olygu:** ' […] ar lefel leol, mae'n rhaid i bobl mewn cymunedau ddiffinio'r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu iddynt hwy. Os na fydd hynny'n digwydd, bydd cymunedau'n parhau i fod

yn oddefol i'r newidiadau sy'n digwydd iddynt. Ni fydd ganddynt berchnogaeth ac mae hynny'n elfen allweddol er mwyn llwyddo. Clywsom am amrywiaeth gyfoethog y gweithgarwch sydd wedi arwain at gymunedau cryfach sydd wedi'u grymuso. Yn rhy aml o lawer, defnyddir dangosyddion ar gyfer cymunedau sy'n gysylltiedig â materion sy'n bwysig i'r wladwriaeth ond nad oes dim cysylltiad rhyngddynt a phethau sy'n bwysig i gymunedau. Mae goblygiadau i gyllidwyr yn hynny o beth o ran sicrhau bod eu cyllid a'r fframweithiau monitro cysylltiedig yn ymateb i ddyheadau cymunedau' (2018: 23).

### Pa mor ystyrlon yw'r cysyniad o rymuso cymunedol?

4.31 Mae'r rhai hynny sydd wedi trafod cysyniad grymuso cymunedol o safbwynt mwy beirniadol wedi rhybuddio am yr angen i fod yn effro i'r perygl y gall cysyniadau megis 'grymuso' a 'chymuned' gael eu defnyddio fel dim mwy nag offerynnau rhethregol sydd â'r nod o roi gwedd gynhwysol neu flaengar i raglenni polisi (Cochrane yn Atkinson a Cope 1997).

4.32 Ystyriodd yr adolygiad hwn i ba raddau mae'r Cynllun Grantiau a'i weithrediad yn cyfrannu at rymuso cymunedau ac i gynllunio eu hymatebion eu hunain i gynyddu'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg yn lleol.

*Ffactorau sy'n medru rhwystro grymuso cymunedol ystyrlon*

4.33 Amlygodd astudiaeth o bum mlynedd gyntaf y rhaglen *Cymunedau'n Gyntaf* (Adamson a Bromiley 2008) nodweddion sy'n hanfodol ar gyfer grymuso cymunedol effeithiol ac felly maent gwerth eu hystyried yma:

- Mae'r adolygiad yn nodi bod parodrwydd a gallu aelodau'r gymuned i gymryd rhan yn allweddol i unrhyw ymgais i ddatblygu partneriaeth waith leol. Tra bod aelodau'r gymuned yn debygol o feddu ar sgiliau perthnasol mae'n bosibl y byddant angen cymorth i ddatblygu sgiliau penodol sy'n allweddol i brif ffocws y bartneriaeth (2008: ix)
- Mae'r adolygiad yn casglu ei bod yn angenrheidiol fod yr hyn sy'n ddisgwyliedig o'r bartneriaeth leol a'i haelodau yn cael ei ddiffinio a'i amlinellu'n glir o'r cychwyn, er mwyn sicrhau eglurder i aelodau'r gymuned a chynrychiolwyr asiantaethau cyhoeddus fel ei gilydd (2008: x).

- Mae'r adolygiad yn pwysleisio bod angen cydnabod y bydd partneriaethau neu fforymau lleol yn aml yn gweithredu ochr yn ochr â strwythurau eraill, mwy traddodiadol, ar gyfer mynegi safbwyntiau neu flaenoriaethau cymunedol, e.e. y broses ddemocrataidd leol. O ganlyniad, dylai unrhyw fforymau newydd sy'n cael eu sefydlu i hybu grymuso cymunedol sicrhau eu bod yn datblygu mewn modd sy'n caniatáu cydlynu rhyngddynt a llwybrau eraill i leisio barn y gymuned (2008: x)
- Mae'r adolygiad yn casglu bod grymuso cymunedol yn galw am roi sylw manwl i safbwyntiau a blaenoriaethau lleol, ond y bydd galw am gydbwyso hyn â'r angen i ystyried amcanion neu flaenoriaethau polisi rhanbarthol neu genedlaethol. Ni fydd y ddwy elfen yma o anghenraid yn cyd-redeg yn esmwyth, ac mae'n bosibl y bydd yr angen i roi ystyriaeth i'r ail ohonynt weithiau'n tynnu'n groes i resymeg grymuso cymunedol (2008: xiv).

4.34 Er bod grymuso cymunedol wedi ei gyflawni, mae Adamson a Bromiley yn dod i'r casgliad fod ddiffyg hyblygrwydd a diffyg parodrwydd i weithio'n wahanol ar ran y sector statudol:

> 'The research overall suggests that Communities First has promoted community empowerment and active involvement of local residents […] However, the statutory sector has largely failed to respond to the community agenda and there is little evidence of community influence over budgets and service delivery, and no evidence of bending mainstream services to reflect the partnership process' (Adamson a Bromiley 2008: xv).

Cwblhawyd gwerthusiad proses o gymal dilynol Cymunedau'n Gyntaf, ar ôl i ffocws a chynllun y rhaglen gael eu diwygio yn 2012, ar ran Llywodraeth Cymru yn 2014 (Llywodraeth Cymru 2015b).

**Rhaglenni a dulliau hyrwyddo defnydd iaith drwy bartneriaethau cymunedol y tu hwnt i Gymru**

4.35 Mae'r adran hon yn adrodd ar y dystiolaeth a gasglwyd wrth ymchwilio i raglenni a dulliau hyrwyddo defnydd iaith drwy bartneriaethau cymunedol y tu hwnt i Gymru.

4.36 Yn ôl ymchwil ryngwladol, bu cynnydd ers dechrau'r ganrif hon yn y 'cynllunio a arweinir gan y gymuned' ('community led planning') (Meijer 2018) mewn ymateb i'r prosesau trefoli a globaleiddio sy'n digwydd ar raddfa byd-eang (Boonstra 2016; Meijer 2018). Yn y llenyddiaeth ymchwil, mae cynllunio a arweinir gan y gymuned yn cael ei adnabod fel 'arloesi cymdeithasol' ('social innovation') sef, gweithredu cymunedol sy'n llunio rheolau a chysylltiadau cymdeithasol newydd i ddiwallu anghenion lleol (Bock 2012; Moulaert et al. 2005). Mae enghreifftiau o arloesi cymdeithasol yn ailddiffinio rôl bosibl dinasyddion mewn cymdeithas, yn ogystal â'u gallu i wella eu hamgylchedd byw yn seiliedig ar anghenion lleol. Mae sefydliadau rhyngwladol, megis yr OECD (2017) a'r Comisiwn Ewropeaidd (2013) yn cymeradwyo manteision arloesi cymdeithasol, wrth gefnogi gallu dinasyddion i addasu i gyd-destunau a thueddiadau cymdeithasol newidiol.

*Tystiolaeth am hyrwyddo defnydd iaith drwy bartneriaethau cymunedol*

4.37 Tra bod adroddiadau ymchwil a llenyddiaeth lwyd yn cyfeirio at 'gynllunio a arweinir gan y gymuned' ac 'arloesi cymdeithasol' mewn cyd-destunau rygwladol, prin oedd yr enghreifftiau y bu i'r adolygiad hwn eu hadnabod mewn perthynas â hyrwyddo defnydd iaith frodorol neu leiafrifol.

4.38 Amlygodd y cam cyntaf o chwiliadau am wefannau, adroddiadau blynyddol, gwerthusiadau diwedd prosiect a chyhoeddiadau academaidd bod llawer o dystiolaeth am weithgareddau i hyrwyddo defnydd iaith yn gysylltiedig â chelfyddydau diwylliannol (ffilm, theatr, cerddoriaeth, gwyliau, llenyddiaeth a threftadaeth ddiwylliannol), prosiectau (megis arddangosfeydd a gweithdai, addysg a gweithgareddau addysgol i blant), ac adnoddau ar gyfer dysgu iaith ar gyfer oedolion.

4.39 Adnabuwyd deg prosiect mewn chwe chymuned ieithyddol a allai fod yn cynnig enghreifftiau o hyrwyddo defnydd iaith drwy bartneriaethau cymunedol. Y rhesymeg ar gyfer dethol y prosiectau hyn oedd eu bod yn sefydliadau neu weithgareddau sy'n hyrwyddo defnydd iaith leiafrifol yn y gymuned, ac wedi eu lleoli mewn cyd-destunau ieithyddol amrywiol yn Ewrop, Canada a Seland Newydd. Yr ieithoedd oedd:

- Gaeleg yr Alban, Yr Alban
- Galisieg, Galisia
- Gwyddeleg, Iwerddon
- Inuktitut, Canada
- Manaweg, Ynys Manaw
- Māori, Aotearoa-Seland Newydd

4.40 Casglwyd tystiolaeth am raglenni a phrosiectau sy'n defnyddio'r gweithgareddau canlynol i hyrwyddo defnydd iaith leiafrifol yn y gymuned:

- **canolfannau cymunedol**: pedair canolfan gymunedol sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith leiafrifol/brodorol; dwy ganolfan ar Ynysoedd Gorllewinol Yr Alban (Taigh Dhonnchaidh a Grinneabhat) a dwy enghraifft o rwydweithiau o ganolfannau yn Aotearoa (Oranga Marae) a Galisia (Semante); [5]
- **gwyliau chwaraeon**: Spors Gàidhlig, menter gymdeithasol sy'n gweithio ledled yr Alban yn creu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio a dysgu am yr Aeleg a 'Nurrait Jeunes Karibus'('ceirw ifainc') sy'n creu partneriaethau gydag athrawon a phobl hŷn yn y 14 cymuned Nunavik yng ngogledd Quebec i hwyluso'r defnydd o Inuktitut gan bobl ifanc; [6]
- **gwyliau diwylliannol** (cerddoriaeth a llenyddiaeth), sef dwy ŵyl yn yr Iwerddon (Féile na Gaelaí a Youth Odyssey to the Isle of Lewis) ac un ŵyl yn Ynys Manaw (Cooish).[7]

---

[5] Taigh Dhonnchaidh; Grinneabhat; Oranga Marae; Semente Vigo
[6] Spòrs Gàidhlig; Nurrait Jeunes Karibus
[7] Féile na Gealaí; Youth Odyssey to the Isle of Lewis; Cooish 2021

4.41 O gasglu gwybodaeth bellach am y sefydliadau a'r gweithgareddau hyn, ni chanfuwyd enghreifftiau o raglenni a dulliau hyrwyddo defnydd iaith drwy bartneriaethau cymunedol sy'n cynnig enghreifftiau i'w hefelychu gan y Cynllun Grantiau neu i ddysgu ohonynt. Y mwyaf diddorol, o bosibl, o ystyried y pwyslais a roddir ar rôl arweiniol ac allweddol aelodau'r gymuned a'r ffaith bod y prosiect yn cael ei arwain gan werthoedd a bydolwg diwylliannol penodol, yw'r canolfannau Oranga Marae.

4.42 Ystyrir canolfannau Oranga Marae fel lleoedd sy'n amddiffyn ac yn hyrwyddo'r ddiwylliant draddodiadol Māori yn Aotearoa.[8] Mae Marae yn unigryw i ddiwylliannau Ynysoedd y Môr Tawel, ond gellir eu disgrifio fel canolfannau cymunedol sydd yn cynnwys mwy nag un adeilad mewn ardal. Maent yn ofodau cymdeithasol lle gellir cymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn yr iaith frodorol. Caiff cynghorydd ei benodi i weithio ochr yn ochr â'r Marae i gyflawni nodau Oranga Marae. Mae angen i'r Marae greu cynllun datblygu Marae i amlinellu nodau datblygu a nodi faint o fuddsoddiad sydd ei angen. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu gweledigaeth y Marae, y sefyllfa bresennol a'r camau gweithredu arfaethedig. Y Marae sy'n rheoli'r broses hon ac mae Pwyllgor Oranga Marae yn bennaf am weld bod y whānau (teulu estynedig) neu'r hapū (grŵp o deuluoedd estynedig) wedi cydweithio i gynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy eu Marae, ac y byddant yn cefnogi'r cynllun i wneud iddo ddigwydd. Pan fydd Cynllun Datblygu Marae wedi'i gymeradwyo gan whānau, hapū ac ymddiriedolwyr, gall y Marae ofyn am arian i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun.

*Dulliau monitro, gwerthuso a deall effaith*

4.43 O'r prosiectau a adolygwyd, Oranga Marae oedd yr unig un lle cafwyd tystiolaeth o ddata (cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol) yn cael ei ddefnyddio i werthuso effaith y prosiect. Y prosiect hwn hefyd oedd yr unig un lle cafwyd tystiolaeth ei fod wedi ei seilio ar gam datblygu theori newid. Mae'r gwerthusiad o'r cynllun yn cyfeirio at sut mae Marae wedi cynorthwyo i ddod ag aelodau o'r gymuned at ei gilydd (Te Puni Kōkiri et al. 2020). Mae

[8] Oranga Marae; Oranga Marae: Programme Evaluation

Oranga Marae wedi cyhoeddi lefelau gwariant, nifer y Marae a nifer y lleoliadau a gefnogwyd yn ogystal â chrynodeb o'r data ansoddol a sylwadau gan ddefnyddwyr o chwe achos enghreifftiol (Te Puni Kōkiri et al. 2020).

4.44 Yn yr adroddiad gwerthuso nodwyd bod nodweddion llwyddiant y rhaglen yn cynnwys:

- arweinyddiaeth ddiwylliannol ragorol;
- sgiliau rheoli prosiect cadarn;
- sgiliau proffesiynol perthnasol (e.e. cyfrifo, cyllidebu, llywodraethu) a thechnegol (e.e. peirianneg, penseiri ac adeiladu);
- ymrwymiad diwyro i weledigaeth, cenhadaeth a strategaeth y Marae; a
- miloedd o oriau o gyfraniadau gwirfoddol.

## 5. Cynllunio bwriadus a deall effaith

5.1 Mae cynllunio bwriadus a deall effaith ymyraethau penodol yn egwyddor allweddol mewn datblygu polisi, ac yn fater sydd wedi ei godi mewn nifer o adolygiadau a gwerthusiadau o strategaethau Llywodraeth Cymru. Un o amcanion yr adolygiad hwn oedd adolygu'r llenyddiaeth am rymuso cymunedol gan roi sylw i fodelau sy'n meithrin gallu cymunedau a buddiolwyr i fesur canlyniadau ac effaith eu gweithgarwch. Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno canfyddiadau sy'n seiliedig ar adolygiad o'r lenyddiaeth academaidd a'r lenyddiaeth lwyd am ddatblygu cymunedol a mesur effaith ymyriadau polisi a gweithgarwch cymunedol. Ar sail ein hadolygiad, cyflwynwn enghreifftiau o fodelau sy'n meithrin gallu cymunedau a buddiolwyr i fesur canlyniadau ac effaith eu gweithgarwch.

**Modelau sy'n meithrin gallu cymunedau a buddiolwyr i fesur canlyniadau ac effaith eu gweithgarwch**

5.2 Ceir canllawiau a modelau niferus ar gyfer mesur canlyniadau ac effaith gweithgarwch cymunedau (e.e. Kusek a Rist 2004, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2017, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru 2019). Mae'r canllawiau a modelau hyn yn cyfuno casglu tystiolaeth ansoddol a meintiol gyda phwyslais ar gyrchddull cydweithredol i fesur canlyniadau a deall effaith gweithgarwch.

*Dangosyddion CREAM a SPICED*

5.3 Addasiad o egwyddorion CAMPUS (SMART) yw egwyddorion y canllaw CREAM (gweler Tabl 5.1). Mae dilyn egwyddorion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Pwrpasol, Uchelgeisiol a Synhwyrol) ar gyfer gosod targedau a phennu dangosyddion yn rhoi bri ar ddata meintiol yn bennaf. Cafodd egwyddorion CREAM eu llunio i fod yn addas ar gyfer pennu dangosyddion meintiol ac ansoddol, fel ei gilydd. Un o egwyddorion CREAM yw bod y dangosydd sy'n cael ei bennu yn 'ddigonol i ateb y gofyn o ran asesu perfformiad' (Tabl 5.1). Mewn sefyllfaoedd cymhleth, mae egwyddorion CREAM yn cydnabod nad yw'n hawdd darlunio realiti sefyllfa yn

ei gyfanrwydd ac felly rhaid derbyn dangosyddion sy'n ddigonol ('adequate'), hynny yw, mae'r dangosydd yn ddigon da neu yn dderbyniol o dan yr amgylchiadau. Mae monitro a mesur cynnydd o ran defnydd o'r Gymraeg yn gallu bod yn gymhleth, ac mae'n gallu bod yn anodd priodoli newid mewn ymddygiad i un ymyrraeth neu ffactor yn unig. Mewn sefyllfa o'r fath, mae derbyn yr egwyddor bod rhaid dibynnu ar ddangosyddion 'digonol' yn egwyddor bwysig.

**Tabl 5.1: Dangosyddion CREAM**

| Dangosyddion CREAM | |
|---|---|
| **C**lear | Penodol, manwl a diamwys |
| **R**elevant | Perthnasol i'r amcanion a/neu ganlyniadau dymunol |
| **E**conomic | I'w cywain o fewn cost resymol o ran amser ac arian |
| **A**dequate | Digonol i ateb y gofyn o ran asesu perfformiad |
| **M**onitorable | Cymwys ar gyfer cynnal asesiad annibynnol + dros amser |

Ffynonellau: Addaswyd o Schiavo-Campo (1999); Kusek a Rist (2004)

5.4 Mae egwyddorion SPICED yn canolbwyntio ar y defnydd a wneir o ddangosyddion yn hytrach na'r broses o'u datblygu (gweler Tabl 5.2). Mae ymagwedd SPICED yn fwy addas ar gyfer sefyllfaoedd lle mae'r rhanddeiliaid a chyfranogwyr eisiau deall a dysgu am y newid sy'n cael ei ddymuno. Cryfder y dull SPICED yw ei fod yn pwysleisio'r angen i ymwneud â'r gymuned lle yr arfaethir gweld newid. Am y rheswm hwn mae'r dull SPICED yn addas ar gyfer deall effaith gweithgareddau cymunedol a datblygu cymunedol. Mae egwyddorion SPICED yn pwysleisio'r angen i gydnabod profiad y rhanddeiliaid neu gyfranogwyr a'u barn a'u mewnwelediad i'r hyn sy'n digwydd. Gellir dadansoddi barn pobl ynghyd â'u hanesion anecdotaidd a'u defnyddio fel tystiolaeth wrth brofi'r dangosyddion. Gyda SPICED gellir hefyd ddiffinio cyrhaeddiad a mesur llwyddiant o fewn cymuned ddaearyddol neu gymuned diddordeb gan gymharu a chroeswirio er mwyn profi dilysrwydd y canlyniadau.

**Tabl 5.2: Dangosyddion SPICED**

| Dangosyddion SPICED | |
|---|---|
| **S**ubjective | Goddrychol: Pwysigrwydd data goddrychol sy'n ystyried safbwynt a phrofiad arbennig defnyddwyr/cyfranogwyr a darparwyr gwasanaethau neu gweithgareddau unigol |
| **P**articipatory | Cyfranogol: Datblygu dangosyddion gyda'r rhanddeiliaid sydd yn y sefyllfa orau i'w asesu |
| **I**nterpreted and communicable | Dehongli a chymharu: Bydd rhaid diffinio union ystyr pob dangosydd gan y gall amrywio o un cyd-destun i'r llall |
| **C**ross-checked and compared | Croeswirio a chymharu: Gwirio dilysrwydd trwy groesgyfeirio gyda dulliau eraill o gasglu tystiolaeth o ffynonellau gwahanol |
| **E**mpowering | Arfogi: Dylai'r broses o osod ac asesu dangosyddion arfogi a galluogi unigolion a grwpiau o bobl i ystyried yn feirniadol natur sefyllfa sy'n newid |
| **D**iverse and disaggregated | Dadelfennol: Dylid gwneud ymdrech i gael dangosyddion sy'n caniatáu casglu data dadelfenedig ar sail nifer o gategorïau e.e. gender, oedran, ardal, sector |

Ffynonellau: Addaswyd o Roche (1999); Better Evaluation (2011)

5.5 Arwyddocâd y dull SPICED o ran meithrin gallu cymunedau a buddiolwyr i fesur canlyniadau ac effaith eu gweithgarwch yw ei fod yn cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o adnabod y dangosyddion ac o wirio'r canlyniadau. Mae casglu tystiolaeth ansoddol gan aelodau cymuned, cyfranogwyr digwyddiad neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn gyfraniad pwysig i'r broses o ddehongli arwyddocâd unrhyw ddangosyddion meintiol a bennir. Mae dull SPICED yn pwysleisio pwysigrwydd cael cydbwysedd cywir rhwng dangosyddion meintiol ac ansoddol, gyda'r data ansoddol yn cynnig cyd-destun, eglurhad manwl ac ystyr ar gyfer yr hyn sy'n cael ei fesur yn feintiol.

*Dull y Newid Mwyaf Arwyddocaol*

5.6 Mae'r Dull Newid Mwyaf Arwyddocaol yn ddull o fesur traweffaith ymyriadau a phrosiectau trwy ofyn i unigolion i asesu prif effaith prosiect neu ymyriad arnynt:

> 'The most significant change (MSC) technique is a form of participatory monitoring and evaluation […] Essentially the process involves the collection of significant change (SC) stories […] and the systematic selection of the most significant of these stories by panels of stakeholders or staff […]. When the technique is implemented successfully, whole teams of people begin to focus their attention on program impact.' (Davies a Dart 2005: 8).

5.7 Gellir cymhwyso'r dull i'w ddefnyddio fel ffordd o asesu effaith ymyriad neu brosiect sy'n ceisio hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Gellid holi cwestiwn fel a ganlyn: 'dros y flwyddyn ddiwethaf, beth yw'r newid mwyaf arwyddocaol sydd wedi digwydd i chi o ran eich defnydd iaith ar sail eich ymwneud â chorff X?' Yn hyn o beth, mae'r dull yn seiliedig ar broses o gasglu straeon gan rhanddeiliaid wrth iddynt werthuso eu hymwneud â sefydliad neu ymyriad penodol.

5.8 Ar ôl casglu cyfres o straeon amrywiol, mae gofyn i swyddogion neu wirfoddolwyr yn y sefydliad sydd wedi trefnu'r ymyriad neu brosiect i drin a thrafod – ac wedyn dewis – pa un yw'r newid mwyaf arwyddocaol o blith yr holl newidiadau arwyddocaol. Yn ogystal â rhoi adborth i swyddogion ynghylch prif effeithiau eu hymyriadau, mae'r trafodaethau hyn yn ffordd o alluogi sefydliad neu fudiad i werthuso, cyfiawnhau a chwestiynu eu gwaith.

5.9 Tra bod y mwyafrif o'r data a gynhyrchir gan y dull yn ansoddol, mae modd i swyddogion i feintioli'r data, gan gynnwys nodi nifer yr ymatebion a gyfeiriodd at newidiadau arwyddocaol penodol.

*Gweithredu'n Lleol*

5.10 Mae *Gweithredu'n Lleol* (Llywodraeth Cymru 2012a) yn fframwaith ar gyfer hwyluso cynllunio iaith micro o fewn cymuned ddaearyddol. Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod bod cynaladwyedd ar lefel cymuned neu, ar raddfa lai,

gymdogaeth, i raddau helaeth iawn, yn nwylo gweithredwyr a ‘phencampwyr’ lleol (2012a: 3). Pecyn adnoddau yw *Gweithredu’n Lleol* ar gyfer ‘ysgogi gweithgaredd cydlynus o fewn cymdogaethau Cymraeg er mwyn ceisio gosod yr amodau cymdeithasol gorau posibl er ffyniant y Gymraeg yn lleol’ (2012a: 5). Mae’r pecyn adnoddau’n hwyluso proses sy’n cynnwys y camau canlynol:

- sefydlu grŵp gweithredu lleol;
- cynnal ymchwil perthnasol i natur y gymdogaeth;
- cynnal asesiad o’r defnydd a wneir o’r Gymraeg yn lleol;
- adnabod camau gweithredu;
- clustnodi adnoddau a phennu cyfrifoldebau;
- rhoi’r cynllun ar waith;
- monitro a gwerthuso cynnydd.

*Theori newid a model rhesymeg*

5.11 Mae datblygu modelau rhesymeg a theorïau newid yn ddau ddull o gynllunio bwriadus sydd wedi cael eu defnyddio i gefnogi cynllunio ieithyddol. Mae rhai esiamplau o ddatblygu model rhesymeg neu theori newid yn bodoli eisoes yng nghyd-destun ymyriadau ieithyddol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, datblygwyd cyfres o fodelau rhesymeg fel ffordd o ddadansoddi effaith ymyriadau yn chwe maes strategol *Iaith Fyw: Iaith Byw*, gan gynnwys model rhesymeg ar gyfer defnydd iaith yn y gymuned (Llywodraeth Cymru 2013: 38-41). Datblygwyd theori newid fel rhan o werthusiadau *Cymraeg i Blant* (Llywodraeth Cymru 2019) a’r *Siarter Iaith* (Llywodraeth Cymru 2020b). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru theori newid lefel uchel i fynegi’r berthynas rhwng prif elfennau *Cymraeg 2050* (Llywodraeth Cymru 2022a). Bwriedir i’r theori newid hon fod yn sail i ddatblygu ‘theori neu theorïau newid manylach a mwy cynhwysfawr wrth i raglen ymchwil a gwerthuso’r strategaeth gael ei datblygu ymhellach’ (ibid.:20).

5.12 Mae theorïau newid a modelau rhesymeg yn ceisio datblygu dealltwriaeth theoretig a rhesymegol o effaith byr a hir dymor ymyriad penodol. Y prif

wahaniaeth rhwng y ddau ddull yw bod model rhesymeg yn nodi dilyniant rhesymegol sy'n gysylltiedig ag ymyriad penodol, 'os wnawn ni a, fe wnaiff b ddigwydd', tra bod theori newid yn pwysleisio, yn ogystal, y mecanweithiau sy'n cysylltu'r camau y tu mewn i'r model (Llywodraeth Cymru 2020b).

5.13 Mae nifer gynyddol o elusennau a mudiadau cymunedol yn defnyddio theorïau newid, a'u cyllidwyr yn disgwyl eu gweld (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2018). Mae arweiniad ar sut i fynd ati i ddatblygu theori newid yn un o'r adnoddau hygyrch gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar fesur, deall a gwella effaith.


*Asesu Gwerthusadwyedd (AG)*

5.14 Mae 'Asesu Gwerthusadwyedd' (Evaluability Assessment) yn ddull systematig ar gyfer cynllunio prosiectau gwerthuso sy'n addas ar gyfer rhaglenni a buddsoddiadau sylweddol. Mae'n ddull sy'n dod ag ymchwilwyr a rhanddeiliaid eraill (e.e. llunwyr polisi, cyllidwyr, asiantaethau, mudiadau a buddiolwyr) ynghyd i:

- ddiffinio amcanion ymyrraeth,
- sut y bwriedir cyflawni'r amcanion,
- datblygu theori newid,
- derbyn cyngor ynghylch a oes modd gwerthuso am gost rhesymol a pha ddulliau y dylid eu defnyddio (Craig a Campbell 2015, a gweler Ffigur 5.1).

5.15 Mae cynnal AG yn golygu cael mewnbwn arbenigol i arwain y broses o gynllunio gwerthusiad, barnu ansawdd y dystiolaeth y gellid ei gasglu, ac arfogi'r sawl sydd yn gwerthuso i ddeall cyfyngiadau yn ogystal â photensial y dystiolaeth.

**Ffigur 5.1 Model Asesu Gwerthusadwyedd (Evaluability Assessment)**




Ffynhonnell: wedi ei addasu i'r Gymraeg o Craig a Campbell (2015)

5.16 Yn ogystal â chreu sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid gwerthuso a sut i fynd ati i werthuso cyn gwario adnoddau, mae AG yn gallu gwella'r broses o drosi ymchwil yn ymarfer trwy sicrhau bod gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr a buddiolwyr yn cyd-weithio o'r dechrau i ddatblygu ac arfarnu'r opsiynau gwerthuso (Brunner et al. 2017). Mae AG yn fodel a ddefnyddir ar gyfer prosiectau datblygu ac ymyraethau polisi ar draws ystod eang o feysydd polisi (ibid.:4). Tra nad yw AG yn ddull sy'n ymarferol i'w weithredu gan dderbynwyr grant unigol, mae'n cynnig model i'w addasu ar gyfer datblygu ddull cyd-weithredol rhwng Llywodraeth Cymru, y cyrff y mae'n ei ariannu trwy'r Cynllun Grantiau a buddiolwyr i adolygu gyda'i gilydd sut orau i fesur effaith ymyraethau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn perthynas â nodau ac amcanion *Cymraeg 2050*.

# 6. Gwerthusiad proses o'r Cynllun Grantiau presennol

6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad proses o weithrediad y Cynllun Grantiau presennol. Roedd elfen hon yr adolygiad yn cynnwys:

- archwilio sut mae'r Cynllun Grantiau presennol yn cael ei weithredu;
- adolygu effeithiolrwydd ac addasrwydd gweithdrefnau'r Cynllun; ac
- archwilio sut mae amcanion y Cynllun Grantiau yn cael eu dehongli a'u gwireddu gan Lywodraeth Cymru a chan dderbynwyr grant drwy gydol y cylch cyllido.

6.2 Mae'r adran hon hefyd yn adrodd ar ganfyddiadau mewn perthynas ag archwilio a yw'r Cynllun Grantiau yn cynnig cyfleoedd priodol i grwpiau a sefydliadau nad ydynt wedi derbyn cyllid drwy'r Cynllun yn y gorffennol (neu nad ydynt yn derbyn cyllid ar hyn o bryd), i dderbyn cefnogaeth ariannol yn y dyfodol. Yn ogystal mae'r adran yn  archwilio meysydd sydd yn ymwneud ag elfennau cyllidol y Cynllun.

6.3 Mae'r canfyddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn yr adran hon yn seiliedig ar y dystiolaeth ganlynol:

- arolwg a chyfweliadau gyda derbynwyr grant presennol;
- cyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, partneriaid sydd yn cydweithio gyda'r derbynwyr grant presennol, a swyddogion a chynrychiolwyr sefydliadau eraill sydd yn cefnogi'r trydydd sector drwy gyllid grant;
- ymchwil pen desg yn archwilio dogfennaeth y Cynllun Grantiau, sef:
    - *Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg 2021 – 2022: Canllaw i Dderbynwyr Grant;*
    - *Canllaw Adrodd Grant Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg 2021-2022: Gwybodaeth i Dderbynwyr Grant;*
    - *Mesur Canlyniadau: Fersiwn 1* (pecyn a ddatblygwyd ar y cyd rhwng Mentrau Iaith Cymru a Llywodraeth Cymru);
    - Templed *Llythyr Grant Safonol (2021).*

6.4 Er mwyn gwarchod anhysbysrwydd cyfranogwyr nid yw'r adran hon yn manylu ar brosiectau penodol y cyfeiriwyd atynt yn yr arolwg ac mewn cyfweliadau.

**Gweithrediad y Cynllun Grantiau**

6.5 Mae'r adran hon yn adrodd ar yr agweddau canlynol:

- pwrpas y Cynllun Grantiau;
- meini prawf cymhwyso ar gyfer derbyn cyllid grant;
- gofynion a disgwyliadau'r Cynllun Grantiau ar ymgeiswyr;
- materion penodol sy'n berthnasol i'r Papurau Bro;
- ymgysylltu a chyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a derbynwyr grant;
- ymateb a chefnogaeth i sefyllfaoedd yn sgil COVID-19.

*Pwrpas y Cynllun Grantiau*

6.6 Mae'r *Canllaw i Dderbynwyr Grant 2021-22* yn datgan yn eglur mai pwrpas penodol y Cynllun Grantiau yw darparu cyllid ar gyfer ariannu gweithgareddau sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a, thrwy hynny, gyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion strategaeth *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*. Mae testun agoriadol y Canllaw yn nodi:

> 'Pwrpas y cynllun grant hwn yw i gefnogi nodau ac amcanion ein strategaeth *Cymraeg 2050*: Miliwn o siaradwyr. Dylai'r nod hwn fod yn ganolog i unrhyw brosiect a ariennir drwy'r cynllun grant.
>
> Mae'r cynllun yn darparu cyllid craidd i gynorthwyo sefydliadau i ddatblygu amrywiaeth o weithgareddau ac ymgyrchoedd i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar draws cymunedau Cymru' (Llywodraeth Cymru 2021c: 3).

*Meini prawf cymhwyso ar gyfer cyllid grant*

6.7 Mae'r Canllaw yn nodi bod mudiadau trydydd sector, cwmnïau sector preifat a sefydliadau cyhoeddus yn gymwys i geisio am y grant. Caniateir hefyd i fudiadau gyflwyno 'ceisiadau unigol neu bartneriaeth, i weithredu yn

genedlaethol, yn rhanbarthol (mwy nac un sir) neu ar lefel sirol' (Llywodraeth Cymru 2021c: 2). I fod yn gymwys i ymgeisio am gyllid, rhaid i gyrff fod 'wedi derbyn cyllid grant o'r gronfa hon yn ystod 2020-21' (ibid.:5). Mae'r Cynllun Grantiau presennol, felly, yn gyfyngedig i'r mudiadau hynny.

*Y derbynwyr grant presennol (2021 – 2022)*

6.8 Mae'r derbynwyr grant presennol (gweler Tabl 6.1) wedi bod yn derbyn y grant hwn ers 2015/16 pan wnaed ceisiadau llawn ddiwethaf i Lywodraeth Cymru. Ers 2016, mae'r Cynllun Grantiau wedi gweithredu ar sail ariannu un flwyddyn ar y tro, ac mae'r derbynwyr grant wedi bod yn cyflwyno targedau yn flynyddol i Lywodraeth Cymru.

**Tabl 6.1: Sefydliadau sydd yn cael eu hariannu drwy'r Cynllun Grantiau a'r swm a ddyrannwyd yn 2021-22**

| **Mudiad/Sefydliad** | **Swm a ddyrannwyd** |
|---|---|
| | **2021 – 2022** |
| Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru* | £124,719 |
| Cymdeithas Eisteddfodau Cymru | £46,036 |
| Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru | £50,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol Cymru | £603,000 |
| Merched y Wawr | £110,000 |
| Mentrau Iaith Cymru | £160,000 |
| Urdd Gobaith Cymru | £852,184 |
| Cronfa Papurau Bro (Mentrau Iaith Cymru)** | £97,810 |
| Cered | £120,626 |
| Hunaniaith | £192,890 |
| *Hunaniaith - (£116,890)* | |
| *Hunaniaith - Nantlle 2020 (£3,000)* | |
| *Hunaniaith - Menter Iaith Bangor (£50,000)* | |
| *Hunaniaith - Gwallgofiaid (£23,000)* | |
| Menter Iaith Abertawe | £102,145 |
| Menter Iaith Blaenau Gwent Torfaen a Mynwy | £118,332 |
| Menter Iaith Bro Ogwr | £60,000 |
| Menter Iaith Caerdydd a'r Fro | £206,736 |

| Mudiad/Sefydliad | Swm a ddyrannwyd |
|---|---|
| Menter Iaith Caerffili | £95,552 |
| Menter Iaith Casnewydd | £60,000 |
| Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot | £115,415 |
| *Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot - Cynllun Aman Tawe (£38,000)* | |
| Menter Iaith Conwy | £105,570 |
| Menter Iaith Dinbych | £81,583 |
| Menter Iaith Merthyr | £60,000 |
| Menter Iaith Môn | £133,060 |
| Menter Iaith Powys | £132,591 |
| *Menter Iaith Powys - Maldwyn (£72,591)* | |
| *Menter Iaith Powys - Brycheiniog a Maesyfed (£60,000)* | |
| Menter Iaith Rhondda Cynon Taf | £107,768 |
| Menter Iaith Sir Benfro | £90,279 |
| Mentrau Iaith Fflint a Wrecsam | £132,043 |
| Mentrau Iaith Sir Gâr | £319,505 |
| *Mentrau Iaith Sir Gâr - Menter Dinefwr (£93,0000)* | |
| *Mentrau Iaith Sir Gâr - Menter Dinefwr Cynllun Aman Tawe (£38,000)* | |
| *Mentrau Iaith Sir Gâr - Menter Gorllewin Sir Gâr (£72,688)* | |
| *Mentrau Iaith Sir Gâr - Menter Iaith Gwendraeth ac Elli (£115,817)* | |
| **Cyfanswm** | **£4,277,844** |

Ffynhonnell: Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

*cyllid ar gyfer Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru ynghyd â 12 Ffederasiwn CFfI Sirol.

**Sefydliad Cenedlaethol yw Mentrau Iaith Cymru (MIC) sy'n cefnogi'r rhwydwaith o Fentrau Iaith ar draws Cymru. Mae Papurau Bro yn derbyn cyllid Llywodraeth Cymru drwy Gronfa Papurau Bro a weinyddir ar eu rhan gan Mentrau Iaith Cymru.

6.9 Mae Tabl 6.2 yn dangos sut y cafodd grantiau eu dyrannu ers blwyddyn ariannol 2013-14. Mae'r symiau yn y tabl yn nodi cyfansymiau cyllid ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

**Tabl 6.2: Dyraniadau Grant Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg 2013-21**

| Blwyddyn ariannol | Cyfanswm Cyllid | Nifer sefydliadau a Phapurau Bro yn derbyn cyllid grant |
|---|---|---|
| 2013-14 | £3,557,347 | 47 sefydliad a 50 Papur Bro |
| 2014-15 | £3,557,347 | 47 sefydliad a 50 Papur Bro |
| 2015-16 | £4,209,000 | 47 sefydliad a 50 Papur Bro |
| 2016-17 | £4,065,491 | 42 sefydliad a 52 Papur Bro |
| 2017-18 | £4,157,049 | 42 sefydliad a 52 Papur Bro |
| 2018-19 | £4,157,049 | 42 sefydliad a 52 Papur Bro |
| 2019-20 | £4,327,844 | 42 sefydliad a 52 Papur Bro |
| 2020-21 | £4,327,844 | 42 sefydliad a 52 Papur Bro |
| 2021-22 | £4,277,844 | 42 sefydliad a 52 Papur Bro |

*Costau cymwys*

6.10 Mae'r gronfa grant yn gallu cyfrannu hyd at 70 y cant tuag at gostau cymwys, sef costau craidd cyffredinol i sefydliadau i barhau i weithredu cynlluniau amrywiol ac/neu i ddatblygu gweithgareddau newydd. Mae'r cynllun yn darparu cyllid ar gyfer costau craidd, cyflogau a chyllid phrosiect.

6.11 Disgwylir bod derbynwyr grant yn sicrhau cyllid cyfatebol i gyd fynd gyda dibenion y Cynllun Grantiau. Disgwylir iddynt gynnwys manylion am gyllid cyfatebol yn eu rhaglenni gwaith ynghyd â'r gyllideb arfaethedig y maent yn ei chyflwyno.

6.12 Nid yw'r Cynllun Grantiau yn dyfarnu cyllid i ymgeiswyr sydd â chronfeydd rhydd sylweddol, heblaw bod yr ymgeisydd yn cyfrannu rhan sylweddol o'r cronfeydd rhydd i ariannu costau neu brosiectau sy'n cyfrannu'n benodol tuag at ddibenion y cais ac sy'n berthnasol i nodau ac amcanion *Cymraeg 2050*. Ni fydd y Cynllun Grantiau yn dyfarnu cyllid i gyrff nad ydynt yn ariannol iach.

**Gofynion a disgwyliadau'r Cynllun Grantiau**

6.13 Anogir y mudiadau sydd yn gwneud cais i gael eu hariannu fod yn uchelgeisiol a dyfeisgar:

> 'Mae ymateb i'r her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol. Mae angen gwthio'r ffiniau a chymryd camau uchelgeisiol fel bod mwy o bobl yn dysgu a defnyddio'r Gymraeg' (Llywodraeth Cymru 2021c:4)

6.14 Mae'r *Canllaw i Dderbynwyr Grant 2021-22* yn manylu ar y themâu strategol, y targedau a'r nodau y disgwylir i'r mudiadau sy'n ymgeisio am gyllid gynllunio i gyfrannu tuag atynt (Tabl 6.3). Mae'r Canllaw yn cyfeirio at y rhaglenni gwaith mae'r Llywodraeth yn eu cyhoeddi pob pum mlynedd ar gyfer arweiniad pellach. Disgwylir i ymgeiswyr grant gyflwyno 'ceisiadau sy'n ymateb i anghenion a heriau ieithyddol y cymunedau a wasanaethir' (Llywodraeth 2021c: 6).

**Tabl 6.3: Themâu strategol, targedau a nodau Cymraeg 2050**

| | |
|---|---|
| **Thema 1 - Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**<br>**Targed:** Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050 | |
| **Nodau**<br>i. **Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu:** rhoi'r cychwyn gorau yn yr iaith i'n plant drwy gynyddu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref.<br>ii. **Y blynyddoedd cynnar:** ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.<br>iii. **Addysg statudol:** creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus. | iv. **Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau:** cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:<br>• y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi<br>• cynnydd yn y ddarpariaeth. |

**Thema 2 – Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

**Targed:** Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

**Nodau**

i. **Y gweithle:** cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.

ii. **Gwasanaethau:** cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

iii. **Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg**: sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd a chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

**Thema 3 - Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

**Nodau**

i. **Cymuned a'r economi:** cefnogi seilwaith economaidd gymdeithasol cymunedau Cymraeg.

ii. **Diwylliant a'r cyfryngau:** sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.

iii. **Cymru a'r byd ehangach:** sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.

iv. **Technoleg ddigidol:** sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w

v. **Seilwaith ieithyddol:** sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu'r strategaeth.

vi. **Cynllunio ieithyddol:** sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.

vii. **Gwerthuso ac ymchwil:** parhau i adeiladu ar y dystiolaeth am y Gymraeg a'i siaradwyr fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd ein

| | |
|---|---|
| gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol. | hymyriadau a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2021c: 4-6)

6.15 Mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno cynllun gwaith sy'n cynnwys:

- 'themâu strategol *Cymraeg 2050* y bwriedir weithredu [sic] ynddo;
- canlyniadau y [sic] disgwylir ar gyfer y Gymraeg yn sgil y rhaglen waith;
- allbynnau (neu dargedau) wedi eu nodi ar ffurf CAMPUS;
- dangosyddion perfformiad' (Llywodraeth Cymru 2021a: 6).

6.16 Mae gofyn hefyd i dderbynwyr grant weithredu dull addas i fonitro gweithrediad y rhaglen waith. Gofynnir iddynt gyfeirio at y *Pecyn Mesur Canlyniadau* (Mentrau Iaith Cymru a Llywodraeth Cymru, dim dyddiad) am gyngor ac arweiniad ar ddulliau o fesur canlyniadau ac asesu effaith yr hyn a gyflawnwyd. Disgwylir i dderbynwyr grant neilltuo cyfran addas o'r gyllideb ar gyfer yr elfennau mesur cyrhaeddiad a gwerthuso.

6.17 Yn yr arolwg, gofynnwyd i'r derbynwyr grant heblaw'r Papurau Bro nodi ymateb i ddatganiadau am y *Canllaw i Dderbynwyr Grant.* Ar y cyfan, roedd y derbynwyr grant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y meini prawf cymhwysedd a chyllid ar gyfer derbyn grant wedi eu datgan yn eglur yn y *Canllaw i Dderbynwyr Grant* ac roeddent, ar y cyfan, yn fodlon gydag eglurder a chynnwys y Canllaw. Ar y cyfan, roedd y derbynwyr grant a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth ar sut i dderbyn arian grant, a bod y canllawiau ynglŷn â derbyn grant yn hawdd eu deall.

**Materion penodol i'r Papurau Bro**

6.18 Yn yr arolwg, roedd mwyafrif y Papurau Bro a ymatebodd yn teimlo fod y trefniadau presennol o dderbyn grant Llywodraeth Cymru drwy Fentrau Iaith Cymru yn addas. Cafwyd sawl sylw am bwysigrwydd derbyn y grant i bapurau, ac na fyddai rhai papurau yn gallu parhau heb gefnogaeth y grant. Nododd nifer o ymatebwyr mai'r peth pwysicaf oedd bod y grant yn cael ei

ddyfarnu, er bod siom hefyd nad oedd cynnydd wedi bod yn y grant ers 2012, tra bod costau cynhyrchu wedi codi'n flynyddol.

6.19 Y prif ddefnydd roedd Papurau Bro yn ei wneud o'r cyllid yr oeddynt yn ei dderbyn drwy'r grant oedd ar gyfer cyfrannau at gostau argraffu. Roedd y costau hyn wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd bod cost papur wedi cynyddu. Roedd y Papurau Bro hefyd yn defnyddio'r cyllid grant ar gyfer prynu meddalwedd cyfrifiadurol, offer ffotograffiaeth, costau postio a dosbarthu a thaliadau bancio sydd wedi cynyddu oherwydd cynnydd ffioedd bancio i elusennau a sefydliadau gwirfoddol.

6.20 Adroddodd tua dau draean o ymatebwyr y Papurau Bro i'r arolwg fod cylchrediad y Papur Bro wedi lleihau yn ystod y chwe mlynedd diwethaf; roedd cylchrediad tua traean o'r papurau wedi aros yn sefydlog ac roedd nifer fach (dau bapur) wedi llwyddo i gynyddu eu cylchrediad. Un o'r dulliau oedd yn cael eu defnyddio i gynyddu cylchrediad oedd cynnig tanysgrifiadau drwy'r rhyngrwyd a defnyddio gwefan Bro 360. Roedd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gylchrediad rhai papurau gan arwain at lai o werthiant. Rheswm arall a gynigiwyd dros ostyngiad mewn cylchrediad oedd bod Papurau Bro yn boblogaidd iawn ymysg pobl hŷn, 'ac felly mae'r cylchrediad yn mynd i lawr wrth iddynt ein gadael.' Roedd barn fod pobl iau yn darllen Papurau Bro ond eu bod yn llai tebygol o'u prynu'n rheolaidd.

6.21 Roedd gan dri chwarter y Papurau Bro gynlluniau ar gyfer denu darllenwyr newydd. Rhai o'r dulliau hyn oedd:

- cynnal ymgyrchoedd codi cylchrediad o bryd i'w gilydd;
- hyrwyddo'r ddarpariaeth ddigidol;
- cyhoeddi yn electronig yn rheolaidd;
- ceisio denu darllenwyr drwy Facebook a Twitter;
- hysbysebu trwy gynnal stondinau mewn gwyliau;
- cydweithio ag ysgolion, llyfrgelloedd a choleg.

6.22 Roedd rhai Papurau Bro yn draddodiadol wedi bod yn dosbarthu drwy rwydwaith o ddosbarthwyr, ond roedd hyn yn newid gyda mwy o werthu drwy

siopau lleol. I rai Papurau Bro, roedd hynny yn 'gweithio', ac roedd gwell ymwybyddiaeth o fodolaeth y papur yn lleol.

**Ymgysylltu a chyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a derbynwyr grant**

6.23 Gan fod Mentrau Iaith Cymru yn gyfrifol am ddosbarthu cyllid i'r Papurau Bro ar ran Llywodraeth Cymru, nid oedd ymgysylltu uniongyrchol rhyngddynt a swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ôl y dystiolaeth o'r arolwg, roedd y derbynwyr grant eraill yn werthfawrogol o'r cysylltiad rhyngddynt a swyddogion Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod 'swyddogion grant y Llywodraeth yn deall ein hamcanion a phwysigrwydd/cyd-destun gweithio er budd y Gymraeg.' Dywedodd y derbynwyr grant bod cyllidwyr eraill yn pwysleisio meysydd megis trechu tlodi, llesiant ac ati yn hytrach na phwysleisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Cyfeiriodd nifer o'r derbynwyr grant at gefnogaeth a chyfathrebu da gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a nodwyd bod gwybodaeth glir yn cael ei rhoi am beth sydd yn angenrheidiol o ran gofynion y Cynllun. Mewn cyfweliadau, nododd derbynwyr grant bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn barod i wrando, cynorthwyo ac arwain. Yn ôl y swyddogion Llywodraeth a gyfwelwyd, drwy negeseuon e-bost roedd cysylltu'n digwydd yn bennaf yn ystod cyfnod pandemig COVID-19. Roedd cyfarfodydd rhithiol wedi eu cynnal gyda derbynwyr grant yn 2021. Adroddodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod yn cyfarfod y Mentrau Iaith yn rhanbarthol yn rheolaidd hefyd.

6.24 Yn y cyfweliadau gyda derbynwyr grant, mynegodd rhai anfodlonrwydd ynghylch diffyg adborth gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd eraill at dderbyn adborth cadarnhaol a oedd yn cynnig arweiniad iddynt. Roedd rhai derbynwyr grant yn teimlo y byddai mwy o gyswllt rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau yn ddefnyddiol. Dywedodd rhai derbynwyr grant y byddai'n fanteisiol petai swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymweld â'r cymunedau lle mae'r derbynwyr grant yn gweithio ynddynt er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal. Roedd derbynwyr grant yn cydnabod bod modd cysylltu gyda swyddogion i dderbyn cyngor ac esboniad pan fo angen: 'gallwn ni godi'r ffôn a gofyn i'r swyddog egluro [...] mae nhw'n ddigon agored o ran gwirio manylion penodol.'

### Cefnogaeth i ymateb i sefyllfaoedd yn sgil COVID-19

6.25 Yn yr arolwg, gofynnwyd i'r derbynwyr grant a Phapurau Bro a gawsant unrhyw gefnogaeth i ymateb i sefyllfaoedd yn sgil COVID-19. Nododd ychydig llai na hanner cyfanswm y derbynwyr grant a'r Papurau Bro a gwblhaodd yr arolwg eu bod wedi derbyn cefnogaeth yn sgil COVID-19. Gan fwyaf, roedd y gefnogaeth a gafodd y derbynwyr grant a'r Papurau Bro yn gefnogaeth ariannol. Roedd rhai derbynwyr grant wedi derbyn cymorth er mwyn newid trefniadau o ganlyniad i orfod gohirio digwyddiadau. Derbyniodd derbynwyr grant gefnogaeth ariannol o sawl ffynhonnell gan gynnwys cyllid o Gynllun Arbed Swyddi, Cymorth Busnes Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cyngor Gwirfoddol lleol, Cronfa Cadernid Economaidd, Cronfa Cadernid Canolfannau Addysg Awyr Agored, Cronfa Cadernid Chwaraeon, Ardoll Trethi Busnes, Cronfa Cadernid Celfyddydau. Defnyddiodd derbynwyr grant yr arian ar gyfer gwarchod neu ail gyflogi gweithlu yn bennaf.

6.26 Adroddodd rhai derbynwyr grant eu bod wedi derbyn arian ar gyfer cynyddu nifer aelodau staff wrth ddod allan o gyfnodau clo pandemig COVID-19 yn dilyn gorfod lleihau nifer yr aelodau staff craidd yn ystod y pandemig. Cafodd rhai derbynwyr grant gefnogaeth i ddiogelu staff y sefydliad er mwyn osgoi colli arbenigedd hyd y bo modd, ac i sicrhau bod y derbynwyr grant yn goroesi'r cyfnod. Serch hynny, roedd rhai derbynwyr grant wedi wynebu cyfnodau heriol ac wedi gorfod diswyddo staff.

6.27 Yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru, buont yn hyblyg o ran caniatáu defnydd amgen o gyllid y grant yn ystod y pandemig, er mwyn ceisio cefnogi'r derbynwyr grant. Roedd cyllid y Cynllun Grantiau wedi ei ddosbarthu cyn gynted â phosibl ar gyfer 2020, ac, ar y cyd gyda'r derbynwyr grant addasodd y Llywodraeth dargedau'r derbynwyr grant oherwydd y cyfyngiadau, er mwyn hwyluso gallu gweithio'n ddigidol. Arweiniodd hynny at gynnal gweithgareddau mewn dulliau gwahanol gan ddefnyddio technoleg gan rai derbynwyr grant. Dywedodd oddeutu traean o'r Papurau Bro a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi methu argraffu copïau caled am rai misoedd. Llwyddwyd i gyhoeddi fersiynau digidol gan eraill a pharhaodd y nawdd gan Lywodraeth Cymru drwy'r cyfnod. Roedd y dulliau digidol yn

cynnwys dosbarthu drwy negeseuon e-bost, defnyddio gwefan Bro 360 a gwefannau Mentrau Iaith.

6.28 Adroddodd ymatebwyr yr arolwg gan gynnwys y Papurau Bro bod sawl gwers wedi ei dysgu yn ystod pandemig COVID-19. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn cynnwys: sut i gynnal gweithgareddau ar-lein a phwysigrwydd gallu ailgyfeirio gweithgareddau, digwyddiadau a gweithrediadau eraill i blatfformau amgen. Roedd technoleg wedi bod o gymorth i gynnal gweithgareddau, er nad oedd pawb yn gallu defnyddio technoleg, ac o ganlyniad, yn ôl rhai derbynwyr grant a Phapurau Bro, roedd rhai pobl yn cael eu heithrio o weithgareddau cymunedol ar-lein. Bu’n bosibl i dderbynwyr grant gynnal rhai gweithgareddau ar-lein, ond roedd angen pwyso a mesur yn rheolaidd a chadw at bolisïau o ran cyfathrebu, gwarchod data, diogelu plant a phobl fregus.

6.29 I rai o’r derbynwyr grant a ymatebodd i’r arolwg roedd y pandemig wedi amlygu pwysigrwydd cynnal gweithgareddau i blant a phobl ifanc sydd heb gyfleoedd i siarad Cymraeg gartref, a bod gan rieni di-Gymraeg bryder am eu gallu i gefnogi plant sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

6.30 Roedd rhai Papurau Bro a ymatebodd i’r arolwg wedi sylweddoli bod modd cyhoeddi rhifynnau Papurau Bro electronig, a bod modd mireinio trefniadau i weithio’n llwyr ar-lein a gwneud defnydd llawnach o gyfrifiaduron er mwyn paratoi, cysodi a chynllunio Papur Bro. Nid oeddynt yn defnyddio’r dulliau hyn cyn y pandemig.

**Trefniadau cytuno ar raglenni gwaith a monitro cynnydd a pherfformiad**

6.31 Mae’r adran hon yn adrodd ar yr agweddau canlynol o weithrediad y Cynllun Grantiau:

- cytuno ar raglenni gwaith: meini prawf a rhesymeg pennu amcanion a thargedau;
- monitro cynnydd a pherfformiad yn erbyn yr amcanion a bennwyd;
- data a thystiolaeth sy’n cael eu casglu a’u dadansoddi ar wahanol gamau’r cylch cyllido a chloriannu cyflawniad.

*Cytuno ar raglenni gwaith: meini prawf a rhesymeg pennu amcanion a thargedau*

6.32 Yn ôl sylwadau'r derbynwyr grant o'r arolwg a'r cyfweliadau, ynghyd â chyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, caiff rhaglenni gwaith blynyddol eu cytuno mewn cydweithrediad gyda swyddog grantiau Llywodraeth Cymru. Mae'r meini prawf a'r rhesymeg sydd yn cael eu defnyddio gan dderbynwyr grant i bennu amcanion a thargedau eu rhaglenni gwaith yn cyd-fynd â themâu strategol a thargedau *Cymraeg 2050* yn ôl nifer o'r derbynwyr grant a swyddogion Llywodraeth a gyfwelwyd. O blith y derbynwyr grant a ymatebodd i'r arolwg, nododd rhai fod eu cynlluniau gwaith hefyd yn cefnogi ac yn cyfrannu at Strategaeth Pum Mlynedd Hybu'r Gymraeg, a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg eu Hawdurdodau Lleol.

6.33 Nododd nifer o dderbynwyr grant yn yr arolwg a'r cyfweliadau bod eu targedau a'u cynlluniau wedi eu creu ar sail gofynion lleol, yn ogystal â thargedau cenedlaethol. Dywedodd rhai derbynwyr grant a ymatebodd eu bod yn pennu amcanion a thargedau ar sail tystiolaeth ac ymchwil. Roedd rhai o'r derbynwyr grant hyn yn seilio eu rhaglenni gwaith ar broffil iaith sy'n cynnwys ystadegau a data allweddol am sefyllfa'r Gymraeg yn lleol ynghyd â gwaith ymchwil ac ymgynghori pellach.

6.34 Ni chafwyd tystiolaeth am yr un graddau o gynllunio strategol ar sail ymchwil na phennu targedau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn achos y Papurau Bro. Yn ôl ymatebion yr arolwg, y rhesymeg wrth wraidd gweithgareddau Papurau Bro oedd darparu papur Cymraeg i'r gymuned leol; glynu wrth y rheidrwydd i baratoi yr holl ddeunydd a hysbysebion y papur yn Gymraeg; a chynnal eu holl weithgareddau ysgrifennu, golygu, cyfarfodydd pwyllgorau, digwyddiadau cymunedol megis boreau coffi yn Gymraeg.

*Monitro cynnydd a pherfformiad yn erbyn yr amcanion a bennwyd*

6.35 Yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru, roedd trefn yn ei lle ar gyfer monitro cynnydd a pherfformiad yn erbyn y targedau a chanlyniadau oedd wedi eu cytuno gyda phob sefydliad yn unol â'r *Llythyr Cynnig Grant*. Cyn derbyn y *Llythyr Cynnig Grant* bydd ymgeiswyr wedi cyflwyno Proffiliau Gwariant, Rhaglenni Gwaith (targedau) a Dangosyddion Perfformiad, Cynllun Corfforaethol cyfredol, cyfansoddiad, a chyfrifon llawn diweddaraf. Manylir ar y gofynion hyn yn y *Canllaw Adrodd Grant Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg* (Llywodraeth Cymru 2021a).

6.36 Mae'r *Canllaw Adrodd* yn gofyn i dderbynwyr grant gyflwyno 'Adroddiad Gwerthuso Blynyddol [...] i ddangos y gwahaniaeth a wnaed o ganlyniad i gefnogaeth y grant a'r gwersi a ddysgwyd' (Llywodraeth Cymru 2021a: 15). Yn ogystal, mae 'disgwyl i bob sefydliad hefyd gyflwyno astudiaethau achos yn amlinellu effaith eu gweithgarwch ar unigolion, grwpiau o bobl neu sefydliad' (ibid.:15). Noda'r Canllaw yr angen i gyflwyno Adroddiad Ariannol Blynyddol sy'n manylu ar '[g]yfrifon a rhagolygon gwariant y grant, gan nodi unrhyw amrywiadau a ragwelir o'r amcangyfrifon a gyflwynwyd' (ibid.:15).

6.37 Adroddodd Llywodraeth Cymru bod y ffurflen cyflwyno targedau wedi ei haddasu ar gyfer blwyddyn 2021-22 o'i chymharu â ffurflenni blaenorol i ddangos sut mae gweithgareddau a gynhelir gan dderbynwyr grant yn cyfateb i nodau *Cymraeg 2050*. Yn yr adroddiadau cynnydd a gyflwynir i'r Llywodraeth, mae gofyn i dderbynwyr grant gyflwyno tystiolaeth sy'n adrodd ar ganlyniadau 'gweithgarwch/ymyrraeth, sef y newidiadau a brofwyd gan unigolion e.e. cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg/agwedd tuag at y Gymraeg' (Llywodraeth Cymru 2021a: 4). Gofynnir i'r derbynwyr grant fesur newidiadau i 'ddefnydd, hyder, gallu, agweddau ac ymwybyddiaeth' a brofwyd gan 'unigolion, grwpiau o bobl neu fudiadau' (Llywodraeth Cymru 2021a: 3-4), yn ogystal ag adrodd yn feintiol ar y nifer a'r math o weithgareddau a drefnwyd a nifer y mynychwyr i ddigwyddiadau.

6.38 Mae'r pecyn *Mesur Canlyniadau*, a ddatblygwyd ar y cyd rhwng Mentrau Iaith Cymru a Llywodraeth Cymru, yn rhoi arweiniad ar ddulliau addas i'w defnyddio 'i fesur canlyniadau sydd o fudd i'r Gymraeg drwy gynnal gweithgareddau a/neu brosiectau o fewn meysydd strategol Strategaeth y

Gymraeg' (tud. 3). Datblygwyd y ddogfen ar gyfer y Mentrau Iaith mewn perthynas â chyfrannu i nod a chanlyniadau *Iaith Fyw: Iaith Byw* ac mae'n cyfeirio at y Fframwaith Gwerthuso (Llywodraeth Cymru 2013) ar gyfer y strategaeth honno. Mae'r ddogfen yn egluro pam fod angen mesur canlyniadau ac yn cynnig arweiniad ar y nodau, canlyniadau a'r dangosyddion a oedd o dan pob maes strategol *Iaith Fyw*. Mae'r ddogfen yn rhestru enghreifftiau o bethau y gellid eu mesur (e.e. newidiadau i ddefnydd, hyder, gallu, agweddau, cyfleoedd ac ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd) mewn perthynas â phob maes strategol. Mae'n cyflwyno enghreifftiau o ddulliau meintiol ac ansoddol o fesur canlyniadau. Mae hefyd yn cynnig arweiniad manwl ar y broses o gynllunio tuag at fesur canlyniadau ynghyd â rhannu cynghorion 'arfer da' o ran egwyddorion a chanllawiau ar gyfer sicrhau bod y prosesau a ddefnyddir i fesur canlyniadau yn effeithiol, addas a defnyddiol. Nid yw'r pecyn wedi ei addasu i adlewyrchu nodau ac amcanion penodol *Cymraeg 2050*.

6.39 Dangosodd tystiolaeth cyfweliadau gyda swyddogion y Llywodraeth a derbynwyr grant ei bod yn angenrheidiol i dderbynwyr grant (ond nid y Papurau Bro) fynychu isafswm o un cyfarfod monitro blynyddol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i adolygu cynnydd. Yn ogystal, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd cynnydd gyda derbynwyr grant, yn unol â gofynion mudiadau a sefydliadau unigol.

6.40 Yn yr atebion i'r arolwg roedd peth gwahaniaeth barn ymhlith y derbynwyr grant ynghylch eglurder ac addasrwydd y gofynion casglu data a gyflwynir yn y *Canllaw Adrodd i Dderbynwyr Grant* (Llywodraeth Cymru 2021a).[9] Roedd 13 o'r 20 o dderbynwyr grant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y gofynion o ran adrodd ar gynnydd y gweithgareddau a ariennir drwy'r Cynllun Grantiau yn addas ar gyfer lefel y cyllid; bod y rhesymeg dros adrodd ar gynnydd a pherfformiad yn erbyn yr amcanion sydd wedi eu pennu yn eglur; a bod y broses adrodd ar gynnydd y gweithgareddau a ariennir drwy'r Cynllun Grantiau wedi ei diffinio'n glir yn y canllaw. Roedd wyth o'r 20 o dderbynwyr

[9] Ni holwyd y Papurau Bro am ofynion casglu data.

grant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y gofynion o ran casglu a dadansoddi data ar wahanol gamau'r cylch cyllido yn rhesymol.

6.41 Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd o'r arolwg a'r cyfweliadau gyda derbynwyr grant, roedd nifer ohonynt o'r farn bod y gofyniad i gasglu data meintiol ar gyfer pob gweithgaredd a digwyddiad a gynhelir ganddynt a gwerthuso effaith eu gweithgareddau yn cymryd llawer o'u hamser. Roedd rhai derbynwyr grant yn cwestiynu gwerth casglu rhai mathau o ddata. I'r derbynwyr grant hyn, roedd pwrpas i gasglu data a oedd yn eu cynorthwyo i gynllunio eu rhaglenni gwaith ac i ymateb i ofynion lleol. Roeddent o'r farn, fodd bynnag, bod gormod o bwyslais ar adrodd ar dargedau a gofynion data'r Llywodraeth, yn enwedig os nad oedd y rhain yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau lleol.

*Data a thystiolaeth sy'n cael eu casglu a'u dadansoddi ar wahanol gamau'r cylch cyllido, a chloriannu cyflawniad*

6.42 Mae'r *Canllaw Adrodd ar y Cynllun Grantiau* (Llywodraeth Cymru 2021a) yn nodi ei bod yn angenrheidiol i dderbynwyr grant 'fesur cyfraniad cynnal y prosiectau a'r gweithgareddau i'r nodau a geisir, sef cynyddu'r nifer y [sic] siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i'r iaith Gymraeg ar draws cymunedau Cymru' (2021a: 2).

6.43 Dywedodd mwyafrif y derbynwyr grant a Phapurau Bro a ymatebodd i'r arolwg fod ganddynt drefniadau i ddeall ac adolygu sut mae gweithgareddau yn gwneud gwahaniaeth o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Dywedodd rhai o'r derbynwyr grant eu bod yn dilyn awgrymiadau'r pecyn *Mesur Canlyniadau.*

6.44 Mewn ymatebion i'r arolwg, cyfeiriodd derbynwyr grant a'r Papurau Bro at ddulliau o gasglu data a thystiolaeth amrywiol oedd yn cynnwys: cofnodi data meintiol megis nifer y gweithgareddau oedd wedi eu cynnal, a nifer y buddiolwyr oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau; cofnodi cynnydd mewn defnydd o'r Gymraeg; casglu tystiolaeth am newid agwedd neu newid mewn arferion iaith ymhlith buddiolwyr trwy holiadur neu gyfweliad. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu tystiolaeth hefyd yn cynnwys cynnal

arolygon, cynnal grwpiau ffocws a chyfweliadau anffurfiol; casglu ‘adroddiadau lleol ar lawr gwlad’; gwaith pen-desg i gasglu ‘gwybodaeth feintiol ac edrych am newid yn y niferoedd’; ‘cadw golwg ar gylchrediad, defnydd a phoblogrwydd cyfrifon Facebook a Trydar’; cadw cofnod o nifer y buddiolwyr sydd yn dysgu’r Gymraeg; a ‘siarad ag athrawon a phartneriaid i dderbyn adborth ar y newid yn nefnydd iaith plant a phobl ifanc’.

6.45 Yn gyffredinol, mynegodd y derbynwyr grant a gyfrannodd i’r cyfweliadau a’r arolwg groeso i’r angen i baratoi astudiaethau achos yn ôl gofynion y Cynllun Grantiau, gan ddweud eu bod yn gyfle i ddangos y math o gyflawniad mae gweithgareddau’r derbynwyr grant yn eu creu a’r effaith y maent yn eu cael ar unigolion. Yn ôl y derbynwyr grant hyn, roedd yr astudiaethau yn ddefnyddiol i ddangos i’w staff beth oedd y gwahaniaeth roedden nhw’n ei wneud i ddefnydd o’r Gymraeg ac ar gyfer eu defnyddio mewn adroddiadau, cyflwyniadau neu gyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau.

6.46 Dangosodd ymatebion i’r arolwg a’r cyfweliadau bod ymwybyddiaeth ymhlith rhai derbynwyr grant o heriau casglu tystiolaeth dibynadwy ar gyfer cloriannu effaith prosiectau a gweithgareddau. Nododd rhai eu bod wedi profi anawsterau casglu tystiolaeth ynghylch cofnodi newid mewn defnydd iaith, oherwydd bod ‘pobl yn mynd a dod o ran eu defnydd o’r Gymraeg’ ac ‘oherwydd hyd y cylch cyllido [un blwyddyn ar y tro] roedd yn anodd dangos newidiadau dros gyfnod byr’.

6.47 Nododd rhai derbynwyr grant a ymatebodd i’r arolwg eu bod yn defnyddio’r data a’r dystiolaeth yr oeddynt yn eu casglu i gyfrannu at y broses o gynllunio eu rhaglenni gwaith, a chreu targedau a oedd yn bwydo i mewn i brosesau adolygu cynnydd. Mewn cyfweliadau, cyfeiriodd rhai derbynwyr grant at bwysigrwydd monitro a gwirio yn ystod cyfnod prosiect ‘i edrych ac ail-gynllunio os oedd angen’, neu ‘newid trywydd ar ôl gweld beth mae’r data yn ei ddweud’. Dywedodd rhai derbynwyr grant eu bod yn edrych ar y rhesymau pam nad oedd prosiect wedi llwyddo, ac os oedd y rhesymau yn rhai dilys, er enghraifft bod angen ‘rhagor o amser neu adnodd pellach’.

6.48 Dywedodd rhai derbynwyr grant a ymatebodd i’r arolwg eu bod yn defnyddio’r data a’r dystiolaeth oedd yn cael eu casglu i adrodd i gyllidwyr eraill yn ogystal ag adrodd i Lywodraeth Cymru. Roedd y data hefyd wedi

cael ei ddefnyddio gan rai ohonynt fel rhan o Adroddiadau Blynyddol derbynwyr grant, ac wedi cael ei gynnwys mewn Strategaeth Hybu'r Gymraeg awdurdodau lleol.

6.49 Er i dderbynwyr grant ddatgan eu bod yn defnyddio dulliau casglu data, tystiolaeth ac adborth amrywiol, roedd llai o dystiolaeth o ymwybyddiaeth o ddulliau hunanwerthuso. Prin oedd y derbynwyr grant oedd wedi defnyddio dulliau gwerthuso megis theori newid a Dull y Newid Mwyaf Arwyddocaol i ddatblygu a mesur effaith eu gweithgareddau.

**Cynllunio a gweithio mewn partneriaeth**

6.50 Mae'r adran hon yn adrodd ar yr agweddau canlynol:

- gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i gyflawni gweithgareddau sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;
- cydweithio rhwng y derbynwyr grant ag Awdurdodau Addysg Lleol mewn perthynas â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Siarter Iaith;
- cydweithio gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol;
- denu cynulleidfaoedd newydd;
- cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig (a nodweddion cysylltiedig) mewn gweithgareddau.

*Gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i gyflawni gweithgareddau sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg*

6.51 Mae'r wybodaeth sydd yn cael ei chyflwyno yn yr adran hon yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd o'r arolwg a chyfweliadau gyda derbynwyr grant, ynghyd â chyfweliadau gyda saith o sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n gweithio mewn partneriaeth â nhw.

6.52 Dywedodd mwyafrif y derbynwyr grant a Phapurau Bro a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn cydweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill ar gynlluniau a gweithgareddau amrywiol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Ceir rhestr o enghreifftiau o bartneriaid a mudiadau a gafodd eu henwi gan y derbynwyr grant yn yr arolwg yn Nhabl 6.4.

**Tabl 6.4: Enghreifftiau o bartneriaid a sefydliadau sy'n cydweithio gyda derbynwyr grant**

| | |
|---|---|
| Awdurdodau Lleol | Llywodraeth Cymru |
| Prifysgolion | Dechrau'n Deg |
| Byrddau Iechyd | Menter a Busnes |
| Colegau Addysg Bellach | Clybiau Plant Cymru |
| Capeli | Y Groes Goch |
| Cytûn | Stonewall |
| Cynghorau Tref a Chymuned | Fforwm Papurau Bro |
| Busnesau Lleol | Bro 360 |
| Cartrefi Gofal | Cyngor Llyfrau |
| Cynghorau Gweithredu Lleol | Llenyddiaeth Cymru |
| Ysgolion | Mudiad Meithrin/ Cymraeg i Blant |
| Partneriaid Trydydd Sector | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| Athrawon Ymgynghorol | Darparwyr Cymraeg i Oedolion lleol |
| Partneriaethau Awyr Agored | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| Partneriaethau Rhyngwladol | Theatr Genedlaethol Cymru |
| Anabledd Cymru | Mentrau Cymunedol |
| Cyrff Chwaraeon amrywiol | Sioeau Amaethyddol |
| Fforwm Iaith leol | |
| S4C | |
| Radio Cymru | |

6.53 Yn ôl ymatebion i'r arolwg a thystiolaeth a gasglwyd yn y cyfweliadau, roedd gweithio agos rhwng derbynwyr grant a phartneriaid eraill yn allweddol i ymdrechion y naill ochr a'r llall i weithredu i gyflawni nod ac amcanion *Cymraeg 2050*. Adroddodd partneriaid a derbynwyr grant mewn cyfweliadau

fod y cydweithio rhyngddynt yn galluogi'r derbynwyr grant a'u partneriaid fel ei gilydd i gyflawni rhagor na fyddai'n bosibl heb y cydweithio, ar lefel strategol ac ar lefel weithredol.

6.54 Yn yr arolwg ac yn y cyfweliadau cafwyd enghreifftiau niferus o dderbynwyr grant a phartneriaid yn cefnogi gwaith ei gilydd er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yn cynnwys:

- cyd-drefnu gweithgareddau a digwyddiadau lleol;
- sefydlu clybiau cyfrwng Cymraeg amrywiol;
- lledaenu a rhannu gwybodaeth am weithgareddau gan ddarparwyr eraill;
- cyd-drefnu a hyrwyddo gweithgareddau, digwyddiadau, a chyfleoedd cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg;
- trefnu ymgyrchoedd marchnata i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a chefnogaeth ar gyfer rhieni a phlant i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol;
- cynhyrchu adnoddau a threfnu gweithgareddau i gefnogi cynlluniau *Siarter Iaith* ysgolion megis clybiau celf a chrefft, clybiau chwaraeon, clybiau codio neu ffotograffiaeth a threfnu gwyliau lleol;
- cyd-ddarparu, cyd-ariannu, a chynnig cymorth mewn da gyda phartneriaid;
- datblygu hyfforddiant ar y cyd;
- dylanwadu ar bolisi er lles y Gymraeg; a
- chyfrannu i waith ymchwil.

6.55 Adroddodd rhai derbynwyr grant eu bod wedi sefydlu partneriaethau strategol cryf gyda sefydliadau ble roedd cynllunio a chyd-weithio cydlynus rhyngddynt. Gyda phartneriaid oedd yn gweithio ym maes y Gymraeg, roedd tystiolaeth o'r cyfweliadau yn dangos bod y gweithgareddau neu digwyddiadau yr oeddynt yn cydweithio arnynt gyda'r derbynwyr grant 'wedi eu halinio'n benodol gydag amcanion *Cymraeg 2050*'.

6.56 Cafwyd enghreifftiau o gyd-weithio rhwng partneriaid a derbynwyr grant i ganfod bylchau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ystod o feysydd, a llunio strategaethau a gweithgareddau perthnasol i gwrdd â'r angen. Roedd

cydweithio mewn partneriaeth gydag eraill hefyd yn fodd i geisio cyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn ôl sylwadau partneriaid a derbynwyr grant mewn cyfweliadau.

6.57 Adroddodd rhai derbynwyr grant a phartneriaid fod y cydweithio yn gweithio orau pan oeddent yn 'cynnal trafodaethau cyson' ac yn 'cyd-drafod a rhannu syniadau er mwyn gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon' ac 'osgoi dyblygu gwaith' mewn perthynas â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ôl partneriaid. Roedd cyfleoedd i gydweithio'n codi o drafodaethau cyson rhwng partneriaid a'r derbynwyr grant. Roedd cynnal perthynas gyda phartneriaid a sefydlu trefn i sicrhau cyd-ddealltwriaeth yn elfennau pwysig i gydweithio'n effeithiol.

6.58 Roedd cytundeb cydweithio yn bodoli rhwng partneriaid a rhai derbynwyr grant presennol, ac roedd memorandwm o ddealltwriaeth yn ei le rhwng un partner ac un o'r derbynwyr grant er mwyn sefydlu beth yn union oedd natur y berthynas rhyngddynt.

6.59 Dangosodd y dystiolaeth o gyfweliadau gyda derbynwyr grant a phartneriaid fod ambell i enghraifft o gydweithio llai llwyddiannus o ganlyniad i ddiffyg cynllunio a gweithredu cydlynus, diffyg ymddiriedaeth, diffyg dealltwriaeth o union rôl ac arbenigeddau y naill a'r llall, neu ddiffyg gweithio mewn partneriaeth cyfartal, 'os yw un yn cymryd a'r llall yn rhoi, dyw e ddim yn gweithio'.

*Cydweithio gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol*

6.60 Yn yr arolwg, gofynnwyd i'r derbynwyr grant a oeddent yn cydweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn cydweithio gyda'r CGS lleol mewn rhyw ffordd, ond roedd natur a hyd a lled y cydweithio yn amrywio o un derbynnydd grant i'r llall ac o ardal i ardal. Roedd enghreifftiau o gydweithio yn cynnwys cynnal cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol, cydlynu elfennau Cymraeg i ddigwyddiadau i deuluoedd, gweithredu ar brosiect gwirfoddolwyr, gwaith cymunedol gan edrych ar effeithiau Dementia ac Alzheimers yng nghyd-destun y Gymraeg. Nododd rhai derbynwyr grant eu bod wedi profi anawsterau o ran cydweithio gyda rhai o'r CGSau o

ganlyniad i'r hyn roeddent yn ei weld fel cyndynrwydd rhai o'r CGSau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

*Denu cynulleidfaoedd newydd*

6.61 Dywedodd llawer o'r derbynwyr grant a ymatebodd i'r arolwg ac a gafodd eu cyfweld eu bod yn cynllunio'n fwriadus i annog cyfranogwyr newydd i gymryd rhan yn y gweithgareddau roeddynt yn eu trefnu. Roedd y dulliau yn amrywio o sefydliad i sefydliad ac yn cynnwys:

- rhwydweithio'n eang a datblygu cysylltiadau gyda grwpiau cymunedol a thrydydd sector lleol;
- cynnal ymgyrchoedd marchnata amrywiol er mwyn cyrraedd pobl newydd a'u hannog i ymwneud â'r Gymraeg;
- mabwysiadu strategaeth farchnata sy'n cydnabod yr angen i dargedu grwpiau demograffeg gwahanol;
- hysbysebu digwyddiadau yn eang gan ddefnyddio ddulliau a phlatfformau amrywiol;
- bod yn weithgar yn eu cymunedau lleol a denu cyfranogwyr newydd trwy gysylltiadau personol;
- datblygu ac atgyfnerthu systemau rhwydweithio a chyfathrebu yn lleol;
- gosod targedau i gyrraedd cyfranogwyr nad oeddynt fel arfer yn ymwneud â sefydliad;
- cynlluniau i annog cyfranogwyr presennol i recriwtio rhagor o aelodau;
- cynnig gweithgareddau am bris gostyngol i grwpiau penodol; a
- chyflwyno gweithgareddau newydd.

6.62 O blith y rhai a gyfrannodd i'r arolwg a'r cyfweliadau, roedd mwyafrif y derbynwyr grant yn gwneud defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter, nid yn unig fel cyfrwng marchnata ond fel dull cofnodi ymatebion i weithgareddau yn ogystal. Yn ôl un derbynnydd grant roedd 'grwpiau Facebook [...] yn gymuned ynddyn nhw eu hunain, yn fwy pwerus ac yn cyrraedd mwy o bobl na ni'n rhoi o ar ein dalen ni ein hunain yn unig.'

6.63 Dangosodd y dystiolaeth o'r arolwg a'r cyfweliadau fod llawer o'r gwaith denu cynulleidfaoedd newydd yn waith creu partneriaethau gyda grwpiau, mudiadau a chymdeithasau sy'n cynrychioli buddiolwyr penodol.

*Cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig (a nodweddion cysylltiedig) mewn gweithgareddau*

6.64 Yn yr arolwg, holwyd derbynwyr grant beth yr oeddent yn ei wneud er mwyn cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig (a nodweddion cysylltiedig) yn eu gweithgareddau. Cafwyd ystod o atebion yn amrywio o beidio gwneud unrhyw drefniadau i enghreifftiau o drefniadau penodol. Nododd rhai sefydliadau a Phapurau Bro fod y gweithgareddau roeddent yn eu cynnig yn agored i bawb, ac nad oedd angen gweithredu penodol. Ymhlith enghreifftiau o weithredu penodol roedd:

- gwaith ymgysylltu gyda chymunedau gwahanol;
- polisïau clir o ran cyfle cyfartal;
- sicrhau cynrychiolaeth yn y perfformwyr, artistiaid, ac arweinwyr gweithgareddau sy'n cael eu darparu;
- meithrin sgiliau technoleg aelodau sy'n hŷn trwy gynnig sesiynau un wrth un;
- sicrhau darpariaeth addas yn y gweithgareddau ar gyfer aelodau gydag anableddau;
- gweithio'n agos gyda'r gymuned LHDTC+ a dangos cefnogaeth yn ystod wythnos 'Pride';
- cefnogi pobl â nam ar y clyw;
- cynnal gweithgareddau sy'n estyn gwahoddiad i bawb - defnyddio arddull iaith sy'n pwysleisio bod y Gymraeg yn perthyn i ni gyd;
- cynnal rhaglen o weithgareddau a sesiynau cefnogi i ffoaduriaid;
- gweithio gyda cheiswyr lloches a dod â gwahanol ddiwylliannau ynghyd;
- monitro data ynghylch hil, oed, anabledd, rhywedd fel bod syniad o faint o bobl sy'n mynychu digwyddiadau;
- cynnal sesiynau ymwybyddiaeth am ragfarn ddiarwybod i staff sefydliadau;

- sefydliadau wedi eu dynodi fel rhai Dementia Gyfeillgar;
- defnyddio delweddau marchnata a hyrwyddo sy’n cynnwys pobl ag anableddau ac o gefndiroedd ethnig amrywiol.

**Cyfrannu i weledigaeth ac amcanion *Cymraeg 2050* a meysydd polisi cysylltiedig**

6.65 Mae’r adran hon yn rhoi sylw i’r agweddau canlynol:

- cyfraniad y Cynllun Grantiau i weledigaeth ac amcanion *Cymraeg 2050*;
- cyfrannu tuag at nodau a dulliau o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol;
- cyfrannu tuag at weledigaeth ac amcanion Strategaethau Hybu’r Gymraeg Awdurdodau Lleol a’r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

*Cyfraniad y Cynllun Grantiau i weledigaeth ac amcanion Cymraeg 2050*

6.66 Dangosodd ymatebion yr arolwg a’r cyfweliadau gyda derbynwyr grant a chyfweliadau gyda swyddogion y Llywodraeth fod cyfraniad y Cynllun Grantiau i weledigaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru yn eglur iddynt.

6.67 I fwyafrif y derbynwyr grant a gyfrannodd i’r adolygiad, cefnogi amcanion *Cymraeg 2050* oedd y nod, gan greu cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol ac anffurfiol, ac, yn arbennig, hyrwyddo gwaith cymunedol yn y Gymraeg. Cyfeiriwyd at wireddu blaenoriaethau strategaeth *Cymraeg 2050* i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Dywedwyd bod yr amcanion wedi’u rhannu’n themâu yn ymwneud â chynyddu’r nifer sy’n gallu siarad Cymraeg, cynyddu defnydd o’r Gymraeg (ac yn benodol dyblu defnydd dyddiol) a gwella/datblygu seilwaith y Gymraeg. Nododd derbynwyr grant eu bod yn defnyddio’r cyllid i gynnal eu hunain fel mudiad ac i ariannu gweithgareddau penodol i hyrwyddo’r Gymraeg ymhlith y teulu, plant a phobl ifanc, a’r gymuned, yn unol â’r targedau a gytunwyd gyda swyddogion y Llywodraeth. Dywedodd nifer o dderbynwyr grant eu bod yn gweithio’n lleol mewn partneriaeth â mudiadau, sefydliadau ac endidau eraill i hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg, boed hynny

gyda ysgolion lleol, clybiau lleol a busnesau lleol, er enghraifft, i gyfrannu at amcanion *Cymraeg 2050*.

*Cyfrannu tuag at nodau a dulliau o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

6.68 Yn yr arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd eu sefydliad wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd at asesiad llesiant lleol yr ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) lle roeddynt yn gweithio. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr nad oeddynt wedi cyfrannu at asesiad llesiant lleol yr ardal BGC. Wrth ddehongli'r ymatebion hyn mae angen cadw mewn cof ei bod yn bosibl bod y Byrddau Gwasanaethau yn bwriadu gwahodd y sefydliadau i gyfrannu at y Cynlluniau, ond nad oedd hynny wedi digwydd eto. Mae'n bosibl hefyd nad yw sefydliadau yn ymwybodol o'r defnydd mae'r Byrddau Gwasanaethau wedi ei wneud o ddata/gwybodaeth a ddarparwyd gan y sefydliadau wrth baratoi eu hasesiadau. Nododd un ymatebydd y bu i'w fudiad 'gyfrannu'n helaeth at yr asesiad llesiant cyntaf ac yn fwy diweddar yr ail asesiad. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am sefyllfa'r Gymraeg yn lleol ac anghenion siaradwyr Cymraeg, buom yn hwyluso nifer o ddigwyddiadau ymgynghori lleol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ar draws holl themâu'r cynllun'.

6.69 O ran cyfrannu at y dulliau o weithio sy'n ganolog i'r Ddeddf Llesiant (hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys), roedd tystiolaeth helaeth fod y derbynwyr grant yn cydweithio â mudiadau, partneriaid ac endidau eraill yn lleol ac ar draws Cymru. Cynigiodd y rhan helaeth o'r cyfranogwyr enghreifftiau o weithio i gynnwys amrywiaeth o bobl yn eu gweithgareddau. Prin oedd y derbynwyr grant a soniodd am gyfrannu at brosiectau tymor hir neu ddechrau prosiectau ble roedd bwriad i drosglwyddo'r prosiect i ddwylo eraill i'w cynnal. Eglurodd rhai derbynwyr grant bod cynllunio hirdymor yn heriol oherwydd cyfyngder cyfnod cyllido blynyddol y Cynllun Grantiau. Roedd rhywfaint o gynllunio a gweithredu integredig ar waith gyda'r ychydig dderbynwyr grant oedd yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol neu wedi cael gwahoddiad i fynychu pwyllgor neu is-grŵp y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol.

*Cyfrannu tuag at weledigaeth ac amcanion Strategaethau Hybu'r Gymraeg Awdurdodau Lleol a'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol*

6.70 Yn yr arolwg gofynnwyd beth oedd natur cyfraniad derbynwyr grant i ddrafftio, gweithredu a monitro Strategaeth Hybu'r Gymraeg yr awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol lle roeddynt yn gweithio. Dywedodd mwyafrif y derbynwyr grant a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd at weledigaeth ac amcanion y Strategaethau Hybu 5 mlynedd a weithredir gan eu Awdurdodau Lleol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys ymateb i geisiadau gan ALl i'w cynorthwyo i ddrafftio, gweithredu a monitro Strategaeth Hybu'r Gymraeg, eistedd ar bwyllgor neu weithgor ymgynghorol, cynorthwyo gydag ymgynghoriadau cymunedol, bod yn aelodau o'r Fforwm Iaith Lleol a chyfrannu i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) yr awdurdod. Ni dderbyniwyd tystiolaeth am dderbynwyr grant yn cyfrannu i Strategaethau Hybu yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (er y dylid cadw mewn cof nad oes cyfle i bob derbynnydd grant gyfrannu i waith APC, gan nad ydynt i gyd yn gweithio o fewn ardal Parc Cenedlaethol).

6.71 Adroddodd rhai derbynwyr grant eu bod yn chwarae rôl flaenllaw trwy gadeirio cyfarfodydd CSGA Awdurdod Lleol, cydlynu neu'n arwain Fforymau Iaith Lleol a bod yn gyfrifol am weithredu elfennau o'r strategaeth a'i monitro fel corff hyd braich o'r Cyngor. Roedd rhai derbynwyr grant wedi datblygu nifer o brosiectau a darnau o waith sy'n cyfrannu at Strategaethau Iaith megis cynnal gweithdai cymunedol neu ymgynghori gyda'r gymuned ar gynnwys strategaeth ac yn cydweithio'n agos ag adrannau amrywiol yr Awdurdodau Lleol. Nododd rhai derbynwyr grant bod aelodau o'r Awdurdod Lleol a'r APC yn aelodau o'u byrddau rheoli.

**Ffynonellau cyllid amgen a gweithrediad y Cynllun Grantiau i'r dyfodol**

6.72 Mae'r adran hon yn adrodd ar yr agweddau canlynol:

- derbyn cyllid cyfatebol o ffynonellau eraill i gefnogi amcanion y Cynllun Grantiau;
- rôl y Cynllun Grantiau yng nghyd-destun ffrydiau cyllidol eraill Llywodraeth Cymru;
- cynlluniau grantiau sefydliadau sy'n cefnogi'r trydydd sector drwy gyllid grant.

6.73 Yn yr adran hon ystyriwn (i) i ba raddau mae'r cyllid a ddyrennir drwy'r Cynllun Grantiau yn gosod sylfaen i'r derbynwyr grant dderbyn cyllid o ffynonellau eraill i gefnogi amcanion y Cynllun a (ii) rôl y Cynllun Grantiau yng nghyd-destun ffrydiau cyllidol eraill Llywodraeth Cymru.

*Derbyn cyllid cyfatebol o ffynonellau eraill i gefnogi amcanion y Cynllun Grantiau*

6.74 Ni atebwyd y cwestiwn ynglŷn a ffynonellau cyllid eraill gan bob derbynnydd grant a ymatebodd i'r arolwg. Nododd mwyafrif y derbynwyr grant a ymatebodd eu bod yn derbyn cyllid o ffynonellau eraill i gefnogi amcanion y Cynllun Grantiau, er nad oedd hyn yn gyllid cyfatebol bob tro. Roedd enghreifftiau'n cynnwys derbyn cyllid cyfatebol o ffynonellau eraill yn achlysurol, e.e. grant Cronfa Adfer Ddiwylliannol trwy'r Cyngor Sir; grantiau Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol; grantiau o wahanol ffynonellau ar gyfer prosiectau tymor byr a phenodol; cyllid gan awdurdodau lleol a rhai o gynlluniau grantiau eraill Llywodraeth Cymru.

6.75 Nododd swyddogion nifer y derbynwyr grant fod cyllid y Cynllun Grantiau yn rhoi sail ar gyfer denu arian cyfatebol ac na fyddent yn gallu denu cyllid arall heb gyllid y grant. Yn ôl un swyddog, 'y cyllid sydd yn cyflogi staff i fedru ysgrifennu ceisiadau i ffynonellau eraill a chreu incwm' [...] 'heb yr arian sylfaen o'r Grant, yna byddai'n anodd bodoli.'

6.76 Nododd nifer o dderbynwyr grant fod prinder ffynonellau cyllid eraill ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ac mai ychydig o gynlluniau

grant eraill Llywodraeth Cymru oedd yn cynnig cyllid i datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar hyn o bryd.

*Rôl y Cynllun Grantiau yng nghyd-destun ffrydiau cyllidol eraill Llywodraeth Cymru*

6.77 Er mwyn deall rôl y Cynllun Grantiau yng nghyd-destun ffrydiau cyllidol eraill Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd cyfweliadau gyda Chanolfan Rhagoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru a rheolwyr grantiau sydd â chyfrifoldeb am rai o gynlluniau grant eraill y Llywodraeth. Diben y cyfweliadau gyda rheolwyr grantiau oedd dysgu mwy am gefndir y cynlluniau grant, sut maent yn cael eu gweithredu, trefniadau monitro, agweddau strategol ac unrhyw gyfleoedd maent yn eu cynnig i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Diben arall oedd deall a oedd nodweddion yn y cynlluniau grant a allai fod yn fuddiol i'w hystyried ar gyfer datblygu'r Cynllun Grantiau yn y dyfodol. Dim ond pedwar cynllun grantiau a gafodd eu hystyried ar gyfer yr elfen hon, ac ni chynhaliwyd archwiliad manwl o weithdrefnau'r cynlluniau hyn. Cynigiodd yr wybodaeth gipolwg o gynlluniau sy'n cael eu gweithredu mewn meysydd sy'n berthnasol i'r Cynllun Grantiau, ond dylid cadw mewn cof y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r modd y casglwyd yr wybodaeth hon.

<u>Canolfan Rhagoriaeth Grantiau</u>

6.78 Swyddogaeth graidd Canolfan Rhagoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru yw darparu cefnogaeth ac arweiniad i reolwyr cynlluniau grant Llywodraeth Cymru, ac nid oes ganddi ynddi'i hun rôl o ran rhoi grantiau. Mae gan y tîm gyfres gynhwysfawr o ganllawiau a thempledi, templed llythyr dyfarnu safonol a Safonau Gofynnol ar gyfer grantiau o bob math, i gynorthwyo rheolwyr grantiau i reoli eu cynlluniau yn effeithiol.

6.79 Rhaid i bob gynllun grant newydd sydd yn cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru fynd drwy banel sicrwydd grant. Mae'r panel yn darparu cyngor, her a sicrwydd i reolwyr grantiau wrth iddynt sefydlu eu cynlluniau grant. Mae gan aelodau'r panel gefndir mewn meysydd allweddol e.e. Archwilio, Rheoli Cymorthdaliadau y DU, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Gymraeg ac yn y blaen. Mae'r

panel yn adolygu cynlluniau newydd o bob sector, megis trydydd sector, y sector preifat, cyhoeddus ac yn y blaen, ac yn cwmpasu pob math o grant, yn cynnwys grantiau cyfalaf, refeniw, cyllid craidd a chyllid ariannu prosiect. Mae'r rhai sy'n mynychu'r panel hefyd yn cael y cyfle i weithio'n uniongyrchol gyda Phennaeth Tim Safonau'r Gymraeg, sy'n eistedd ar y panel sicrwydd grantiau, wrth iddynt ddatblygu eu cynllun.

6.80 Mae canllawiau ar weithredu'r gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg ar gael i reolwyr grant ac maent yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.

6.81 Yn dibynnu ar natur cynllun grant, gall gofyniad i gael gweithgaredd drwy gyfrwng y Gymraeg ymddangos yn y ddogfennaeth ymgeisio a'r canllawiau ar gyfer y cynllun. Mae hyn yn cefnogi ymgeiswyr i ddeall nodau'r cynllun ac wrth gwblhau'r cais.

6.82 Yn dilyn cais llwyddiannus, mae rheolwyr grantiau yn defnyddio llythyr safonol dyfarnu grant Llywodraeth Cymru i ddrafftio eu llythyr dyfarnu, ond mae ganddynt hefyd y cyfle i gynnwys unrhyw amodau penodol angenrheidiol sydd wedi eu teilwra ar gyfer y cynllun dan sylw, yn cynnwys mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r gofynion hyn yn gallu amrywio yn ddibynnol ar natur yr hyn sy'n cael ei gyllido.

6.83 Mae cyfres safonol o amodau yn nhempled *Llythyr Grant Safonol* y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau mewn perthynas â'r Gymraeg:

(a) Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant ac mae strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer tyfu a datblygu'r Gymraeg ymhellach.

(b) Pan fo'r Dibenion yn cynnwys darparu gwasanaethau yng Nghymru neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai y byddai'n afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny. Rhaid eu darparu mewn modd nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

(c) Pan fo darpariaeth gwasanaethau yn ffurfio rhan o’r Dibenion, rhaid ichi weithredu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac amcanion Cymru 2050. Yn ymarferol, bydd hynny’n cynnwys y canlynol:

i) Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei lunio, gan gynnwys deunydd digidol, yn ddwyieithog.

ii) Sicrhau bod unrhyw arwyddion yn ddwyieithog.

iii) Sicrhau y cynhelir unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi neu ddigwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog.

iv) Hyrwyddo a hwyluso’r Gymraeg yn weithredol (gan gynnwys darparu gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg) o fewn gweithgareddau a ariennir.

(d) I gael cyngor cyffredinol ynghylch darparu gwasanaethau’n ddwyieithog ac i gael gwybodaeth am sefydliadau a all eich helpu, cysylltwch â “Helo Blod”, sef gwasanaeth sy’n rhoi cyngor ar y Gymraeg, drwy ffonio 03000 258888 neu anfon eich ymholiad drwy e-bost i heloblod@llyw.cymru (Llywodraeth Cymru 2021f). (Mae'r Llythyr Grant Safonol wedi ei ddiweddaru ers 2021 ond nid yw'r amodau mewn perthynas â'r Gymraeg wedi newid ers 2020).

<u>Grant Cefnogi Trydydd Sector Cymru</u>

6.84 Casglwyd gwybodaeth sylfaenol ynghylch sut mae Grant Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn darparu cyllid craidd i fudiadau trydydd sector drwy bartneriaeth rhwng yr 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC/WCVA), sy’n dosbarthu’r grant iddynt. Ar adeg casglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn, roedd y bartneriaeth yn derbyn grant craidd yn flynyddol, ond roedd bwriad ymestyn y cyfnod ariannu i dair blynedd. Mae adroddiad ar y cynllun grant yn cael ei baratoi yn flynyddol ac mae gwybodaeth gan y CGSau yn cael ei fwydo i adroddiad cyfansawdd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Gallai fod yn fanteisiol archwilio’r model hwn mewn mwy o fanylder, i ganfod a oes agweddau ohono a allai fod yn ddefnyddiol i’w hystyried ar gyfer y Cynllun Grantiau newydd.

*Cynlluniau grantiau sefydliadau sy'n cefnogi'r trydydd sector drwy gyllid grant*

6.85 Cynhaliwyd tri chyfweliad gyda swyddogion a chynrychiolwyr sefydliadau sy'n cefnogi'r trydydd sector drwy gyllid grant, er mwyn deall a dysgu rhagor am gynlluniau grant eraill. Roedd y cyfweliadau hyn yn cwmpasu nod a bwriad y cynllun grant, sut mae'r grantiau yn cael eu gweinyddu a pha weithdrefnau sydd mewn lle i fonitro cynnydd ac effaith y cynlluniau a ariennir. Bwriad y cyfweliadau oedd deall a oedd nodweddion i'r cynlluniau grant a allai fod yn fuddiol i'w hystyried ar gyfer datblygu'r Cynllun Grantiau yn y dyfodol. Nid oedd yn fwriad i'r cyfweliadau hyn gynnig darlun cynhwysfawr o'r cynlluniau grant sydd ar gael i gefnogi'r trydydd sector yng Nghymru. Y bwriad, yn hytrach, oedd iddynt gynnig cipolwg ar sut mae cynlluniau grant eraill yn cael eu gweinyddu.

6.86 Amlygodd y cyfweliadau nifer o nodweddion sydd, ar sail yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn, yn wahanol i'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer y Cynllun Grantiau. Roedd rhain yn cynnwys:

- cynnal sgyrsiau rhagarweiniol gyda darpar ymgeiswyr grant er mwyn i) sicrhau bod y corff yn gymwys ar gyfer ceisio am y grant, a ii) gwirio bod y cais yn cyd fynd â nod ac amcanion y cynllun grant;
- cynnig arweiniad a hyfforddiant i ddarpar ymgeiswyr ar ysgrifennu ceisiadau grant;
- gosod disgwyliadau ar yr ymgeisydd i weithio gyda buddiolwyr i adnabod anghenion lleol a chynllunio'r cynllun, gan amlygu'r dulliau o gydweithio yn y cais ac wrth weithredu'r cynllun;
- cynnig proses ymgeisio am gyllid sy'n amrywio yn dibynnu ar faint y grant sef, darparu ffurflen gais ar y we ar gyfer grantiau bychain a gwahodd ymgeiswyr i gynnal sgwrs gyda swyddogion y gronfa cyn ymgeisio am grantiau mawr;
- darparu cefnogaeth i dderbynwyr grant i ddatblygu eu hunain o ran materion rheoleiddio, llywodraethiant a gweinyddiaeth;

- darparu arweiniad a chefnogaeth i bob derbynnydd grant ar ddulliau monitro a gwerthuso;
- annog derbynwyr grant i ddefnyddio asesiad cymheiriaid fel rhan o’r broses fonitro;
- gosod disgwyliadau hunan werthuso ar gyfer derbynwyr pob maint grant a chynnal gwerthusiad gan endid allanol ar gyfer grantiau mwy;
- darparu cyllid prosiectau mewn dau gam a gwerthuso cyfnod cyntaf prosiect i ddeall pa effaith mae’r prosiect wedi ei gael cyn rhannu cyllid pellach i barhau’r gwaith.

## 7. Datblygu Theori Newid ar gyfer y Gynllun Grantiau

7.1 Fel rhan o'r adolygiad, gofynnwyd am ddehongli a datblygu theori newid ar gyfer y Cynllun Grantiau. Diben yr elfen hon oedd archwilio ac amlygu:

- y newidiadau tymor hir y bwriedir i'r Cynllun Grantiau arwain tuag atynt;
- y trywydd rhesymeg rhwng mewnbynnau, allbynnau a deilliannau disgwyliedig y Cynllun Grantiau; a'r
- rhagdybiaethau a'r risgiau cysylltiedig.

7.2 Wrth ddatblygu'r theori newid roedd angen ystyried:

- a yw gweithgareddau'r Cynllun presennol yn rhesymegol gadarn o ystyried amcanion y Cynllun;
- a oes gweithgareddau nad ydynt yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion; ac
- a oes deilliannau ychwanegol nad oeddent wedi eu rhagweld.

7.3 Roedd yr elfen hon yn cynnwys archwilio sut mae'r Cynllun Grantiau yn eistedd ar y cyd â pholisïau a rhaglenni eraill gan Lywodraeth Cymru ac i ba raddau mae rhaglenni eraill yn cefnogi neu'n creu rhwystrau i'r Cynllun Grantiau.

7.4 Mae theori newid yn ddull sy'n esbonio sut y bwriedir i gynllun neu raglen gyflawni ei nodau a'i amcanion, trwy wneud cysylltiadau tybiedig rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau tymor hir y cynllun. Mae theori newid yn cynnig dull o fyfyrio ar y newidiadau cynnar a chanolig a allai ddeillio o'r cynllun, ynghyd â nodi'r elfennau sy'n dylanwadu arnynt mewn cyd-destunau amrywiol. Mae'r *Magenta Book*, canllaw Trysorlys Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar werthuso, yn nodi bod deall theori newid yn gofyn am:

- 'an understanding of how the intervention is expected to work in practice, e.g. the problem the intervention aims to address; the change it aims to bring about; the causal chain of events that are expected to bring about the change; the main actors; the groups expected to be impacted; and the expected conditions required for the intervention to succeed;

- exposing the assumptions upon which the intervention is based and the strength or weakness of the evidence supporting these assumptions; an examination of the wider context, such as other policy changes or changes in economic, social and environmental factors.'
(Trysorlys EM 2020: 24)

7.5 Y sail ar gyfer y dehongliad o'r theori newid oedd y gwaith ymchwil pen desg, dadansoddiad y tîm ymchwil o'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith maes, a'r dystiolaeth a gasglwyd mewn tri gweithdy theori newid – un gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a dau gyda derbynwyr grant presennol.

7.6 Yn ystod cyfnod bodolaeth y Cynllun Grantiau, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaethau *Iaith Pawb* (2003), *Iaith fyw: iaith byw* (2012b), a *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* (2017). Nod y Cynllun Grantiau yw cyfrannu at wireddu dau brif darged cyffredinol strategaeth *Cymraeg 2050,* sef:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

7.7 Mae'r Cynllun Grantiau yn cefnogi amrywiaeth o fudiadau a sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol anffurfiol ar draws Cymru. Mae'r cyrff sydd yn derbyn cefnogaeth y Cynllun Grantiau presennol yn cynnwys mudiadau a sefydliadau sy'n gweithredu ar sail cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn ymarferol, mae'r Cynllun Grantiau yn cynnig 'arian craidd a phrosiect' i gynorthwyo derbynwyr grant i ddatblygu ystod o weithgareddau, ymyraethau ac ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru. Mae angen i'r derbynwyr grant greu cynlluniau i fesur cyfraniad eu gweithgareddau i gyflawni nodau'r Cynllun Grantiau, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn targedau sydd wedi cael eu cytuno rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r derbynwyr grant.

7.8 Mae’r theori newid yn seiliedig ar gyfranogiad gan fudiadau a sefydliadau sydd yn datblygu gweithgareddau ac ymyraethau ar gyfer a chyda buddiolwyr. Mewn rhai achosion, mae buddiolwyr y derbynwyr grant yn grwpiau targed penodol. Ar gyfer derbynwyr grant eraill, mae’r gweithgareddau yn benagored i unrhyw un sydd yn dymuno defnyddio’r Gymraeg drwyddynt.

**Y newidiadau tymor hir y bwriedir i’r Cynllun Grantiau arwain tuag atynt**

7.9 Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn nodi: ‘yn draddodiadol rydym wedi meddwl am gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymunedol fel mater o ddarparu neu drefnu digwyddiadau’ (Llywodraeth Cymru 2017: 56). Fodd bynnag, nid yw mynychu digwyddiadau Cymraeg neu bod yn aelod o sefydliadau neu glybiau Cymraeg yn bosibl i bob siaradwr Cymraeg a phawb sydd eisiau siarad Cymraeg. Oherwydd hynny, mae angen cynllunio gweithgareddau a chyfleoedd er mwyn cynnwys cyd-destunau anffurfiol, a chyd-destunau daearyddol a rhithiol, ac ystyried pob ardal yng Nghymru ar sail ei chyfansoddiad ieithyddol. Mae angen cynllunio gweithgareddau a chyfleoedd er mwyn creu cydbwysedd priodol yn lleol rhwng digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol a chreu cyd-destunau lle mae’n naturiol i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, creu cyfleoedd i ddylanwadu ar arferion defnydd iaith, a grymuso cymunedau i weithredu drostynt eu hunain.

7.10 Caiff y newidiadau y bwriedir i’r Cynllun Grantiau arwain tuag atynt eu dylanwadu gan nifer o elfennau sy’n gysylltiedig â defnyddio’r Gymraeg. Mae’r elfennau hynny’n cynnwys creu cyfleoedd i gynulleidfaoedd mewn cyd-destunau amrywiol, a chynyddu hyder, agweddau cadarnhaol, arferion ac ymwybyddiaeth unigolion o ran defnyddio’r Gymraeg. Yn ogystal, mae angen rhoi pwyslais ar rymuso cymunedol ac ar aelodau cymunedau daearyddol, diddordeb a rhithiol yn gallu datblygu eu cynlluniau eu hunain i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn eu cymunedau.

### Rhagdybiaethau a risgiau cysylltiedig

7.11 Nod y Cynllun Grantiau yw cefnogi nodau strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050.* Ffocws y gweithgareddau sydd yn cael eu hariannu drwy'r Cynllun Grant yw Thema 2: 'Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg' a 'sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol' (Llywodraeth Cymru 2017: 48).

7.12 Y rhagdybiaeth sylfaenol yw bod darparu cyllid grant i amrywiaeth o fudiadau a sefydliadau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol ac anffurfiol ar draws Cymru yn gallu arwain at gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Creda'r derbynwyr grant a gyfrannodd i'r gweithdai theori newid eu bod yn dylanwadu yn gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd hwy.

7.13 Drwy'r cyllid grant mae mudiadau a sefydliadau yn cyflogi staff i drefnu a chynnal gweithgareddau, ymgyrchoedd ac ymyraethau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau lleol. Fel y gwelwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth yn Adran 4, bu grymuso cymunedol yn gysyniad sy'n sail i drafodaethau ynghylch sut i drefnu ymyraethau i hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a galluogi cymunedau i weithredu drostynt eu hunain i gefnogi hyfywedd y Gymraeg.

7.14 Hanfod y syniad o rymuso cymunedol yw'r dyhead i greu sefyllfaoedd neu gymunedau sydd â mesur o reolaeth dros gyfeiriad eu bywydau ac i fod yn fwy hunangynhaliol, medru gwneud mwy drostynt eu hunain, a chaniatáu iddynt gymryd penderfyniadau gweithredol sy'n effeithio ar natur eu cymunedau.

7.15 Roedd adolygiad (Adamson a Bromiley 2008) o flynyddoedd cyntaf rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a drafodwyd yn Adran 4 yn amlygu nodweddion sy'n hanfodol ar gyfer grymuso cymunedol effeithiol. Yn eu plith, nodwyd bod parodrwydd a gallu aelodau'r gymuned i gymryd rhan yn allweddol i unrhyw ymgais i ddatblygu partneriaeth waith leol. Tra bod aelodau'r gymuned yn debygol o feddu ar sgiliau perthnasol, mae'n bosibl y byddant angen cymorth i ddatblygu sgiliau penodol sy'n allweddol i brif ffocws y bartneriaeth waith.

7.16 Rhagdybir bod staff y derbynwyr grant yn deall anghenion eu cymunedau a'u buddiolwyr ac yn gallu cynllunio gweithgareddau priodol ar gyfer y cymunedau hyn ar sail adnabyddiaeth o anghenion buddiolwyr.

7.17 Rhagdybir bod ffurfio partneriaethau gyda mudiadau a/neu bartneriaid eraill yn gallu arwain at gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Un o'r risgiau a drafodwyd yn y gweithdai oedd bod llawer o gystadleuaeth am gyllid grant trydydd sector. Gall derbynwyr grant deimlo eu bod mewn cystadleuaeth am gyllid, yn hytrach na chydweithio â'i gilydd. Mynegodd cyfranogwyr y gweithdai bod cystadleuaeth rhwng derbynwyr grant a'i gilydd a phartneriaid yn creu ansicrwydd a gallai drwgdeimlad danseilio cynlluniau gwaith partneriaeth, yn hytrach na chefnogi cydweithio o fewn cyllid cyfyngedig. Nid oedd y derbynwyr grant a gyfrannodd i'r gweithdai yn awyddus i fod yn cystadlu yn erbyn mentrau cymunedol eraill; cydweithio a chefnogi ei gilydd i ddatblygu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg oedd yn bwysig o'u safbwynt nhw.

7.18 Rhagdybir bod trefnu gweithgareddau ac ymyraethau yn mynd i ddenu buddiolwyr i ddefnyddio'r Gymraeg neu ddefnyddio rhagor o Gymraeg. Mae angen i'r gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio fod yn greiddiol i'r nod o fodloni anghenion a disgwyliadau buddiolwyr, bod o ddiddordeb iddynt a'u cymell i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Yn y gweithdai, nododd rhai derbynwyr grant bod risg o geisio darparu gormod o weithgareddau gan fod hynny yn gallu tynnu ar amser staff i fedru gwerthuso eu gwaith yn llawn. Nododd y rhai hynny hefyd fod, o bosibl, gormod o dargedau a bod angen blaenoriaethu i weithio'n fwy dwys ac effeithiol. Serch hynny, nododd sawl derbynnydd grant bod angen cynnal digon o weithgareddau yn lleol er mwyn 'creu bwrlwm' a chanfyddiad o fywiogrwydd defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Mae'n ymddangos felly y gallai fod tensiwn rhwng yr angen i weithredu digon i greu hyfywedd ieithyddol yn lleol a'r angen i gynllunio'n fwriadus a gwerthuso digwyddiadau mewn ffordd ystyrlon o fewn yr adnodd staffio a chyllid cyfyngedig presennol.

7.19 Rhagdybir ei bod yn bosibl profi cynnydd mewn defnydd iaith o ganlyniad i effaith y gweithgareddau sy'n cael eu trefnu. Mae anawsterau sy'n gysylltiedig â sicrhau data dibynadwy am ddefnydd iaith fel y nodwyd yn yr

astudiaeth o lenyddiaeth yn Adran 5. Mae derbynwyr grant yn casglu data am y nifer sy'n mynychu eu digwyddiadau a gweithgareddau. Mae'r data meintiol hwn yn rhoi darlun o niferoedd sydd wedi mynychu cyfleoedd cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg a drefnwyd gyda nawdd y Cynllun Grantiau. Yn y gweithdai, trafodwyd ei bod yn anodd mesur a phrofi gwahaniaeth roedd gweithgareddau penodol yn eu gwneud dros gyfnod byr, oherwydd ei bod yn anodd gweld effaith gweithgareddau yn syth. Awgrymodd cyfranogwyr y gweithdai y byddai'n rhwyddach ceisio mesur effaith gweithgareddau dros gyfnod hwy o fewn cylch cyllido hwy. Roedd cynlluniau corfforaethol rhai derbynwyr grant yn para am bum mlynedd a oedd yn creu tensiynau gyda threfniadau cyllido'r Cynllun Grantiau presennol sydd yn para blwyddyn.

**Trywydd rhesymeg rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a deilliannau disgwyliedig y Cynllun Grantiau**

7.20 Mae'r theori newid wedi ei chyflwyno mewn dwy ran, sef theori newid ar gyfer y broses o weithredu'r Cynllun Grantiau (Ffigur 7.1) a theori newid sy'n ymdrin â chynyddu defnydd o'r Gymraeg drwy'r Cynllun (Ffigur 7.2).

*Theori newid ar gyfer proses gweithredu'r Cynllun Grantiau*

<u>Gweledigaeth</u>

7.21 Mae'r weledigaeth ar gyfer y broses o weithredu'r Cynllun Grantiau yn amlygu'r angen i sicrhau fod y gweithgareddau ac ymyraethau sydd yn rhan o'r Cynllun Grantiau yn cyd-fynd ag amcanion *Cymraeg 2050*, yn benodol Thema 2, cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Elfen ganolog i hyn yw cryfhau'r broses o gynllunio gweithgareddau, gosod targedau, a mesur a deall effaith gweithgareddau. Mae datblygu partneriaethau a chynulleidfaoedd newydd yn bwysig er mwyn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd â grymuso cymunedau i allu datblygu eu gweithgareddau eu hunain. Yn ehangach, mae'r weledigaeth yn cynnwys adnabod cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng nghynlluniau grant eraill Llywodraeth Cymru fel bod cyllid i hyrwyddo'r Gymraeg ar gael o ffynonellau ehangach na thrwy'r Cynllun Grantiau yn unig.

Mewnbynnau

7.22 Mewnbwn allweddol yw'r cyllid o'r Cynllun Grantiau sy'n rhoi cyfle i ddatblygu gweithgareddau o fewn cyfnod cyllido. Rhagwelir y bydd cyllid hefyd ar gael o gynlluniau grantiau eraill Llywodraeth Cymru a fydd yn fodd i ategu cyllid y Cynllun Grantiau.

7.23 Mae'r mewnbynnau yn cynnwys rhaglen barhaus o hyfforddiant ar lunio ceisiadau grant, cynllunio mewn modd cyd-weithredol ar sail anghenion buddiolwyr, dulliau gwerthuso a mesur effaith.

7.24 Mae dealltwriaeth o'r berthynas rhwng egwyddorion datblygu cymunedol a chynllunio iaith yn bwysig er mwyn arddel ymagwedd holistaidd at gynllunio ieithyddol a gallu arfogi cymunedau i weithredu drostynt eu hunain. Mae gwybodaeth y derbynwyr grant o natur ieithyddol y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt yn allweddol er mwyn gallu targedu gweithgareddau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, i adnabod a thargedu grwpiau penodol newydd i gyfranogi mewn gweithgareddau Cymraeg.

Allbynnau

7.25 Yr allbynnau ar gyfer y broses o weithredu'r Cynllun Grantiau fydd targedau a chynlluniau gwaith sy'n seiliedig ar themâu *Cymraeg 2050*. Drwy wella cynllunio a gwella ansawdd ceisiadau grant gellir cynllunio'n fanylach ac yn fwy tymor hir drwy dargedu anghenion lleol o fewn cymunedau gofodol a rhithiol. Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy gyfweliadau yn amlygu bod cyd-gynhyrchu rhwng cyllidwyr, derbynwyr grant a buddiolwyr yn gallu ennyn dealltwriaeth gadarnach o beth yw'r anghenion a beth y gellir ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae cynllunio manwl a gofalus yn darparu cyfleoedd i arbrofi ac i ddatblygu cynlluniau newydd ar gyfer cynulleidfaoedd newydd. Drwy gynllunio, a deall beth yw bwriad cynllunio a chynnal digwyddiadau ac ymyraethau, gellir cryfhau ansawdd deall effaith y gweithgareddau a'r ymyraethau sydd yn cael eu cynnal.

## Ffigur 7.1: Model theori newid ar gyfer gweithredu'r Cynllun Grantiau

| GWELEDIGAETH/ CYCHWYN | MEWNBYNNAU | ALLBYNNAU | DEILLIANNAU/ DANGOSYDDION | CANLYNIADAU |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynllun Grant hanesyddol heb ei adolygu ers ei sefydlu | 1. Cyllid wedi ei ddarparu trwy'r Cynllun Grant am gyfnod hwy na blwyddyn (3-6 mlynedd) | 1.Targedau a chynlluniau yn seiliedig ar themâu *Cymraeg 2050* | 1. Adnoddau wedi eu targedu'n effeithiol i ddarparu cyfleoedd i defnyddio'r Gymraeg | 1. Gwerthuso a mesur effaith gweithgareddau yn effeithiol. Llwyddo i ddenu, cadw a chynnig datblygiad gyrfa i staff |
| 2. Strategaeth Iaith genedlaethol wedi ei chyhoeddi yn ystod oes y Cynllun Grantiau | 2. Hyfforddiant ar gyfer llunio ceisiadau grant a chynllunio ar sail anghenion buddiolwyr | 2. Ceisiadau grant cryf yn seiliedig ar gynllunio tymor hir | 2. Deall defnyddioldeb defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth ar wahanol adegau | 2. Cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Gwell dealltwriaeth o beth yw llwyddiant a methiant |
| 3. Sicrhau bod y Cynllun Grantiau yn cyd-fynd ag *amcanion Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* (2017) | 3. Hyfforddiant dulliau gwerthuso a mesur effaith | 3. Deall effaith y gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio | 3. Eglurder ynghylch y dystiolaeth sydd ei hangen wrth adrodd ar effaith y gweithgareddau | 3. Gallu pwyso a mesur y berthynas rhwng arbrofi a datblygu darpariaeth newydd gyda'r angen i sicrhau cysondeb ar gyfer rhai grwpiau penodol |
| 4. Cryfhau cynllunio targedau a gweithgareddau | 4. Gwybodaeth a dealltwriaeth am natur cymunedau a'r proffil iaith lleol | 4. Targedau wedi eu cyd-gynhyrchu rhwng y cyllidwr, derbynwyr grant a buddiolwyr | 4. Gweithgareddau sy'n targedu'r anghenion mewn cymunedau gofodol a rhithiol | 4. Prosesau gwerthuso yn dylanwadu ar ddatblygu rhaglenni gwaith. Gallu esbonio cyfraniad gweithgareddau a dysgu o gamgymeriadau |
| 5. Grymuso cymunedau i weithredu drostynt eu hunain | 5. Dealltwriaeth o'r berthynas rhwng egwyddorion datblygu cymunedol a chynllunio iaith | 5. Cymunedau yn gallu datblygu a darparu eu gweithgareddau eu hunain | 5. Arweinwyr lleol sy'n gallu datblygu gweithgareddau | 5. Darparu ar gyfer anghenion cymunedau sydd yn newid |
| 6. Datblygu partneriaethau a chynulleidfaoedd newydd | 6. Cydweithio gyda grwpiau penodol newydd i gynnal neu gyfranogi mewn gweithgareddau Cymraeg | 6. Targedau gweithgareddau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn | 6. Cyfleoedd i arbrofi wedi eu datblygu | 6. Denu cynulleidfaoedd newydd a phobl anodd eu cyrraedd i ddefnyddio'r Gymraeg |
| 7. Adnabod cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn rhai o gynlluniau grantiau eraill Llywodraeth Cymru | 7. Cyllid o gynlluniau grant eraill Llywodraeth Cymru yn ategu cyllid y Cynllun Grantiau | 7. Hyrwyddo defnydd y Gymraeg trwy gynlluniau grant eraill Llywodraeth Cymru | 7. Rhagor o sefydliadau yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy gynlluniau grant eraill Llywodraeth Cymru | 7. Denu cyllid o ffynonellau grant eraill i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg |

7.26 Yn Adran 4, trafodwyd adeiladu dealltwriaeth o’r rhwydweithiau a’r gofodau sydd yn dylanwadu ar sut a phryd mae pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd. Byddai arfogi cymunedau i weithredu drostynt eu hunain trwy arddel ymagwedd cyd-weithredol ar gyfer adnabod ac ymateb i anghenion lleol yn gallu meithrin arweinwyr a chynllunwyr yn lleol. Tybiai cyfranogwyr y gweithdai y byddai sicrhau bod cynlluniau grant eraill yn ehangu’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destunau pellach yn gam ymlaen hefyd.

Deilliannau a chanlyniadau

7.27 Y deilliannau neu ddangosyddion a geisir drwy’r broses grantiau yw y bydd adnoddau wedi eu targedu yn effeithiol er mwyn darparu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg. Bydd dealltwriaeth o ddefnyddioldeb gwahanol fathau o dystiolaeth, ac eglurder ynghylch y dystiolaeth sydd ei hangen i ddeall ac adrodd ar effaith gweithgareddau. Deilliannau eraill yw gweithgareddau sy’n targedu anghenion mewn cymunedau gofodol a rhithiol ynghyd ag arweinwyr lleol sy’n gallu datblygu gweithgareddau. Bydd cyfleoedd i arbrofi wedi eu datblygu ar sail cydweithio gyda grwpiau penodol newydd ac ar sail tystiolaeth gadarn. Bydd rhagor o sefydliadau yn hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg drwy gynlluniau grantiau eraill Llywodraeth Cymru.

7.28 Y canlyniadau o weithredu’r Cynllun Grantiau fydd gallu gwerthuso a mesur effaith gweithgareddau yn effeithiol; llwyddo i ddenu, cadw, a chynnig datblygiad gyrfa i staff; cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg, a gwell dealltwriaeth o beth yw llwyddiant a methiant. Bydd prosesau gwerthuso yn dylanwadu ar ddatblygu rhaglenni gwaith derbynwyr grant. Yn ogystal, drwy’r prosesau gwerthuso bydd yn bosibl pwyso a mesur y berthynas rhwng arbrofi a datblygu darpariaeth newydd ar y naill law gyda’r angen i sicrhau cysondeb ar gyfer rhai grwpiau penodol ar y llall. Bydd derbynwyr grant yn defnyddio’r Cynllun Grantiau i ddarparu ar gyfer anghenion cymunedau sy’n newid a denu cynulleidfaoedd newydd sy’n cynnwys pobl anodd eu cyrraedd i ddefnyddio’r Gymraeg. Canlyniad arall y theori newid yw y bydd yn bosibl denu cyllid o ffynonellau grant eraill Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg.

*Theori newid ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg*

Gweledigaeth

7.29 Mae'r weledigaeth ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn amlygu'r angen i sicrhau fod y gweithgareddau ac ymyraethau sydd yn rhan o'r Cynllun Grantiau yn cyd-fynd ag amcanion *Cymraeg 2050.* Yn benodol, mae'r weledigaeth yn cynnwys cynyddu defnydd o'r Gymraeg drwy gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chynyddu nifer y bobl sydd yn ei defnyddio. Mae'r weledigaeth hefyd yn cynnwys cydlynu, marchnata a chyfathrebu ynghylch hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg; ac ymwneud â buddiolwyr drwy gyfrwng dulliau amrywiol ar sail eu hanghenion a gyda chyllid o'r Cynllun Grantiau ynghyd â ffynonellau cyllid eraill.

Mewnbynnau

7.30 Y mewnbynnau ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg yw'r amrywiaeth o weithgareddau ac ymyraethau sy'n rhoi cyfle i ragor o bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r mewnbynnau yn cynnwys targedu grwpiau penodol i gynnal gweithgareddau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, teuluoedd, pobl hŷn, siaradwyr newydd a grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli. Mae rhaglenni gwaith wedi eu cynllunio ar sail adnabod anghenion buddiolwyr gwahanol yn arwain at weithredu sydd wedi ei deilwra i'r anghenion hynny. Drwy ddeall beth yw bwriad cynllunio a chynnal digwyddiadau, gellir cynllunio gweithgareddau sy'n darparu cyfleoedd priodol ac addas ar gyfer cynulleidfaoedd penodol yn hytrach na chynnal digwyddiadau ar sail arfer neu 'draddodiad'. Mae cydlynu gyda sefydliadau eraill i rannu negeseuon clir am ddigwyddiadau Cymraeg a drefnir ganddynt yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael. Bydd gweithgareddau eraill nad ydynt yn cael eu cyllido trwy'r Cynllun Grantiau yn ychwanegu at ystod y gweithgarwch sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Allbynnau

7.31 Yr allbynnau a ddisgwylir yw gweithgareddau ac ymyraethau sy'n rhoi cyfleoedd i ragor o bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac sy'n cynyddu'r defnydd o'r

Gymraeg. Mae’r gweithgareddau, ymyraethau a digwyddiadau hyn yn creu cyfleoedd i grwpiau penodol amrywiol ddefnyddio’r Gymraeg a chynyddu eu defnydd o’r Gymraeg. Allbwn arall fydd plant, pobl ifanc ac oedolion sydd yn defnyddio’r Gymraeg lle nad oeddent yn gwneud hynny ynghynt. Trwy gydweithio gyda sefydliadau eraill sydd yn trefnu digwyddiadau Cymraeg, bydd rhannu gwybodaeth a negeseuon i hyrwyddo digwyddiadau yn golygu bod buddiolwyr yn ymwybodol o ddigwyddiadau cymdeithasol a chyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg, a bod trefniadau cydweithio effeithiol i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg.

Deilliannau a chanlyniadau

7.32 Y deilliannau neu’r dangosyddion llwyddiant ar gyfer cynyddu defnydd o’r Gymraeg yw bod rhagor o bobl yn cyfranogi mewn digwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg; bod cyfranogwyr yn cynnwys grwpiau penodol amrywiol a phobl sy’n anodd eu cyrraedd. Deilliant arall yw cynnydd mewn hyder a defnydd pobl o’r Gymraeg a bod gweithgareddau yn ymateb i anghenion buddiolwyr gan sicrhau mynediad di-rwystr i’r Gymraeg. Bydd y deilliannau hefyd yn cynnwys cynnydd yn y niferoedd sy’n cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, ynghyd â dealltwriaeth o effaith gweithgareddau a rhaglenni gwaith ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol mewn rhagor o gymunedau gofodol a rhithiol. Canlyniadau’r theori newid yw bod mwy o fuddiolwyr amrywiol yn defnyddio mwy o Gymraeg yn gymdeithasol mewn rhagor o gymunedau gofodol a rhithiol.

**Ffigur 7.2: Model theori newid ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg**

| GWELEDIGAETH | MEWNBYNNAU | ALLBYNNAU | DEILLIANNAU/ DANGOSYDDION | CANLYNIADAU |
|---|---|---|---|---|
| 1. Sicrhau bod y Cynllun Grantiau yn cyd-fynd ag amcanion *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* (2017) | 1. Amrywiaeth o weithgareddau sy'n rhoi cyfle i ragor o bobl ddefnyddio'r Gymraeg | 1. Gweithgareddau sy'n rhoi cyfleoedd i ragor o bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg | 1. Rhagor o bobl yn cyfranogi mewn digwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg | 1. Buddiolwyr yn defnyddio mwy o Gymraeg yn gymdeithasol a chymunedol |
| 2. Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg | 2. Cynnal gweithgareddau ar gyfer grwpiau penodol - plant a phobl ifanc/ teuluoedd/ pobl hŷn/ siaradwyr newydd/ grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli | 2. Cyfleoedd i grwpiau penodol amrywiol ddefnyddio'r Gymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg | 2. Llwyddo i gysylltu a chynnwys grwpiau penodol amrywiol a phobl sydd yn anodd eu cyrraedd | 2. Buddiolwyr yn defnyddio'r Gymraeg mewn rhagor o gymunedau gofodol a rhithiol |
| 3. Rhagor o bobl yn defnyddio'r Gymraeg | 3. Rhaglenni gwaith wedi eu cynllunio ar sail anghenion buddiolwyr | 3. Plant, pobl ifanc ac oedolion yn defnyddio'r Gymraeg lle nad oeddent yn gwneud ynghynt | 3. Cynnydd mewn hyder a defnydd pobl o'r Gymraeg. Ymateb i anghenion a sicrhau mynediad i'r Gymraeg yn ddi-rwystr | 3. Rhagor o fuddiolwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn defnyddio'r Gymraeg |
| 4. Cydlynu, marchnata a chyfathrebu ynghylch hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg | 4. Negeseuon clir wedi eu cydlynu gyda sefydliadau eraill sy'n trefnu digwyddiadau Cymraeg | 4. Buddiolwyr yn ymwybodol o ddigwyddiadau cymdeithasol a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol | 4. Cynnydd yn y niferoedd sydd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol | 4. Rhagor o fuddiolwyr yn mynychu digwyddiadau cymdeithasol a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol |
| 5. Ymwneud â buddiolwyr trwy weithgareddau a ariennir gan grantiau amrywiol | 5. Gweithgareddau eraill y derbynwyr grant sydd ddim yn cael eu hariannu gan y Cynllun Grantiau | 5. Cyfleoedd gwell i hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg a threfniadau cydweithio effeithiol i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg | 5. Dealltwriaeth o effaith targedau a rhaglenni gwaith | 5. Mesur effaith gweithgareddau sy'n rhoi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy effeithiol |

**A yw gweithgareddau'r Cynllun Grantiau presennol yn rhesymegol gadarn o ystyried amcanion y Cynllun?**

7.33 O dan faner y Cynllun Grantiau ar ei ffurf bresennol mae ystod eang o weithgareddau, ymyraethau a digwyddiadau yn cael eu cynnal. Mae'r mathau o weithgareddau a ariennir yn amrywiol, gan adlewyrchu amcanion a themâu *Cymraeg 2050*. Mae'r amrywiaeth yn cynnwys cynnal gwyliau cenedlaethol; gwyliau lleol; prosiectau cymunedol lleol; digwyddiadau lleol megis eisteddfodau, cwisiau, cyngherddau a gigiau; cefnogi sefydliadau penodol i fedru gweithredu a chynnal digwyddiadau Cymraeg; darparu cynlluniau chwarae; cynnal ymgyrchoedd marchnata ynghyd â chydweithio gydag ystod o bartneriaid eraill. Trafodwyd yn y gweithdai bod rhai o'r gweithgareddau yn cael eu cynnal ar sail hanesyddol ac roedd eraill yn ymateb i flaenoriaethau ac anghenion partneriaid a buddiolwyr newydd o ganlyniad i'r twf mewn technoleg, gweithgarwch digidol, ymgysylltu rhithwir, a phatrymau mewnfudo. Nododd cyfranogwyr y gweithdai bod angen pwyso a mesur y berthynas rhwng arbrofi a datblygu darpariaeth newydd drwy'r Cynllun Grantiau ar y naill law gyda'r angen i sicrhau cysondeb a pharhad ar gyfer pobl sy'n mynychu digwyddiadau cyfredol ar y llall. Codwyd y cwestiwn a oes modd cyflawni'r ddau beth drwy'r Cynllun Grantiau o fewn y lefelau cyllido presennol.

7.34 Yn y gweithdai, nodwyd fod angen meddwl am y cyd-destunau daearyddol gwahanol a oedd yn sail ar gyfer gwaith y derbynwyr grant, sy'n golygu bod angen trefnu gweithgareddau gwahanol i'w gilydd mewn rhai ardaloedd. Fel rhan o'r drafodaeth, nodwyd bod y drefn bresennol o ddyrannu arian yn ôl canrannau siaradwyr Cymraeg mewn ardal yn annheg, gan bod mwy o ymdrech yn cael ei gwneud yn aml i ddenu buddiolwyr mewn ardaloedd gyda niferoedd llai o siaradwyr. Mae'r Cynllun Grantiau presennol yn caniatáu amrywio lleol, ac yn caniatáu cynllunio gweithgareddau ac ymyraethau yn seiliedig ar y blaenoriaethau lleol mae derbynwyr grant wedi eu hadnabod.

7.35 Roedd llawer o gyfranogwyr y gweithdai a'r cyfweliadau yn teimlo y byddai cynyddu'r cylch cyllido o flwyddyn i gylch cyllido sy'n para am gyfnod o dair i bum mlynedd yn galluogi cynllunio targedau a phrosiectau yn fwy effeithiol.

Mynegwyd bod grant sydd yn cael ei ddyfarnu'n flynyddol, fel y mae'r Cynllun Grantiau presennol, yn ei gwneud yn fwy anodd cynllunio'n hir dymor, datblygu gweithgareddau newydd o fewn cylch ariannu cyfyng, a gwerthuso effaith gweithgareddau dros gyfnod byr.

7.36 Mae disgwyl i dderbynwyr grant sicrhau cyllid cyfatebol.[10] Disgwylir i arian cyfatebol gyd-fynd â dibenion y Cynllun Grantiau a bod derbynwyr grant yn cynnwys manylion arian cyfatebol yn y rhaglenni gwaith a'r gyllideb arfaethedig. Yn y cyfweliadau a'r gweithdai, nododd cyfranogwyr bod canfod ffynonellau cyllido eraill sydd yn cyd-fynd â dibenion y Cynllun Grantiau yn anodd gan mai ychydig iawn o gynlluniau grant a ffynonellau arian sydd â nodau penodol o ran hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Yn ôl sylwadau cyfweliadau roedd yr angen i sicrhau ffynonellau cyllid eraill hefyd yn golygu bod llawer o amser staff yn cael ei dreulio yn ysgrifennu ceisiadau grant yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu gweithgareddau i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

7.37 Ar y cyfan, roedd y derbynwyr grant a gyfrannodd dystiolaeth i'r adolygiad hwn yn fodlon ar y gofynion i adrodd ar gyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol. Fodd bynnag, nododd y derbynwyr grant fod angen i lefel yr adrodd fod yn gymesur â lefel y cyllid sydd yn cael ei ddyrannu, yn arbennig yn achos Papurau Bro sy'n derbyn symiau bach o nawdd. Roedd nifer o'r farn fod y gofyniad i gasglu data meintiol ar gyfer pob gweithgaredd a digwyddiad a gwerthuso effaith eu gweithgareddau yn cymryd llawer o'u hamser, ac i rai roedd gormod o bwyslais ar adrodd ar dargedau a gofynion data'r Llywodraeth. Nododd cyfranogwyr y gweithdai gyda derbynwyr grant a swyddogion Llywodraeth bwysigrwydd datblygu dulliau i gyd-gynhyrchu a gosod targedau ystyrlon a chyraeddadwy. Roedd rhai o'r derbynwyr grant a gyfrannodd i'r gweithdai yn cwestiynu a oedd modd asesu cynnydd mewn defnydd o'r Gymraeg mewn gwirionedd, ac yn dweud mai cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y mae eu sefydliadau.

**Gweithgareddau nad ydynt yn cyfrannu at gyflawni amcanion *Cymraeg 2050***

7.38 Ni wnaeth yr adolygiad adnabod achosion o gyllid y Cynllun Grantiau presennol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn cyfrannu at gyflawni amcanion *Cymraeg 2050.*

7.39 Er bod y Cynllun Grantiau yn bwriadu hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol ac anffurfiol ar draws Cymru, nid yw gweithgareddau'r derbynwyr grant yn medru cyrraedd pob ardal a phob cymuned. Eglurodd cyfranogwyr i'r gweithdai nad yw'n bosibl cyrraedd rhai grwpiau oherwydd diffyg capasiti a chyllid. Roedd cyfranogwyr y gweithdai yn cytuno bod angen blaenoriaethu ar sail tystiolaeth am yr angen lleol a sicrhau bod gweithgarwch newydd yn ategu ac nid yn disodli gweithgarwch cyfredol sy'n cyfrannu at amcanion *Cymraeg 2050*.

7.40 Mae angen pwyso a mesur y berthynas rhwng nifer y gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal gan dderbynwyr grant a'r angen i werthuso effaith y gweithgareddau hynny o fewn yr adnoddau staffio a chyllid sydd ar gael iddynt. Nododd y derbynwyr grant a gyfrannodd i'r gweithdai bod angen cynnal digon o weithgareddau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. Nododd y derbynwyr grant hefyd fod angen ystyried cynllunio gweithgareddau'n fwy strategol ac y dylid gwerthuso'r gweithgareddau a gynhelir. Byddai datblygu ffyrdd mwy trylwyr ac effeithiol o werthuso gweithgareddau yn galluogi derbynwyr grant i asesu eu rhaglenni gwaith mewn modd mwy beirniadol.

7.41 Pwysleisiodd y derbynwyr grant bod yr adnoddau sydd ganddynt ar gyfer gweithredu a gwerthuso yn gyfyngedig ond y byddai modd ystyried dulliau o leihau'r baich gwerthuso trwy, er enghraifft, werthuso un math o weithgaredd ar y tro (e.e. fesul blwyddyn); bod sawl derbynnydd grant yn cydweithio i werthuso un math o weithgaredd gyda'i gilydd, cynnal gwerthusiadau cymheiriaid; a chynnal gwerthusiadau gan ymgynghorwyr allanol. Gellid ystyried a fyddai modd defnyddio'r data a'r wybodaeth sydd yn cael eu casglu gan dderbynwyr grant unigol i greu synthesis ar lefel genedlaethol neu ranbarthol sy'n adrodd am arferion ac enghreifftiau cadarnhaol, a chyflwyno beth sydd wedi ei ddysgu a pha nodweddion sydd heb weithio cystal.

### A oes deilliannau ychwanegol nad oeddent wedi eu rhagweld?

7.42 Yn ôl cyfranogwyr y gweithdai, mae'r swyddi sydd yn cael eu creu drwy'r Cynllun Grantiau yn cynnig cyfle i gadw pobl i fyw a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cymunedau lleol. Fodd bynnag, dywedodd cyfranogwyr bod y drefn ariannu blynyddol gyfredol yn creu ansicrwydd swyddi i staff derbynwyr grant. Oherwydd na fu cynnydd yn y cyllid sydd yn cael ei ddyfarnu ers deng mlynedd, nid yw staff rhai o'r derbynwyr grant wedi cael codiad cyflog yn ystod y cyfnod hwn. Yn ôl sylwadau a gasglwyd o'r cyfweliadau a'r gweithdai, mae'r cyfuniad o gylch cyllido blynyddol a chyflogau isel yn arwain at anawsterau recriwtio, diffyg cyfleoedd datblygu gyrfa a throsiant staff uchel ymysg rhai sefydliadau.

7.43 Canlyniad anfwriadol cyllid y Cynllun Grantiau yw ei fod yn creu dibyniaeth ac y gall gweithgareddau hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ddod i ben gyda rhai derbynwyr grant heb gefnogaeth cyllid y Cynllun Grantiau. Nodwyd mewn cyfweliadau a'r arolwg y byddai'n anodd i sefydliadau ddatblygu gweithgareddau eraill heb gyllid y grant.

7.44 Roedd natur a rôl rhai o'r derbynwyr grant wedi newid, er enghraifft nid yw Llywodraeth Cymru yn brif ariannwr ar gyfer rhai o'r derbynwyr grant. Gwna rhai o'r derbynwyr grant lawer o waith datblygu cymunedol, sy'n cael ei ariannu o ffynonellau eraill. Bu pwyslais ar ddenu gwirfoddolwyr i gyfrannu mewn digwyddiadau yn ddiweddar, ond mewn rhai ardaloedd mae hyn yn heriol oherwydd nad oes digon o wirfoddolwyr ar gael yn ôl sylwadau cyfranogwyr y gweithdai.

### Datblygu'r theori newid i'r dyfodol

7.45 Ymgais gychwynnol yw'r uchod i ddatblygu theori newid ar gyfer y Cynllun Grantiau. Bwriedir i'r theori newid hon gael ei defnyddio fel sail ar gyfer manylu a mireinio pellach gan Lywodraeth Cymru a'r derbynwyr grant wrth ddatblygu Cynllun Grantiau newydd at y dyfodol. Mae ein hadolygiad o'r llenyddiaeth ymchwil a'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn yr adolygiad hwn yn dangos y gallai cydweithio ar ddatblygu theori newid fod yn fodd i weithredu'n gynhwysol mewn ffordd sy'n grymuso cymunedau i gynllunio'n

strategol. Bwriedir i'r theori newid hon hefyd fod yn sail i'w mireinio a'i datblygu ymhellach mewn modd cyd-weithredol gyda buddiolwyr amrywiol.

## 8. Datblygu'r Cynllun Grantiau at y dyfodol

8.1 Mae'r adran hon yn trafod datblygiad y Cynllun Grantiau at y dyfodol ac yn rhoi sylw i:

- gynnig cyfleoedd priodol i grwpiau a sefydliadau newydd i dderbyn cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru;
- ceisiadau grant gan dderbynwyr grant newydd; a
- gweithrediad y Cynllun Grantiau i'r Dyfodol.

8.2 Mae'r canfyddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn yr adran hon yn seiliedig ar y dystiolaeth ganlynol:

- arolwg a chyfweliadau gyda derbynwyr grant presennol;
- cyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, partneriaid sydd yn cydweithio gyda'r derbynwyr grant presennol a swyddogion o sefydliadau eraill sydd yn cefnogi'r trydydd sector drwy gyllid grant;
- gweithdai theori newid gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a derbynwyr grant presennol; ac
- ymchwil pen desg yn archwilio dogfennaeth y Cynllun Grantiau.

*Cynnig cyfleoedd priodol i grwpiau a sefydliadau newydd i dderbyn cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru*

8.3 Un o ofynion yr adolygiad hwn oedd ystyried i ba raddau mae'r Cynllun Grantiau yn cynnig cyfleoedd priodol i grwpiau a sefydliadau nad ydynt wedi derbyn cyllid drwy'r Cynllun yn y gorffennol (neu nad ydynt yn derbyn cyllid ar hyn o bryd) i dderbyn cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

8.4 Mae'r ddogfen *Canllaw i Dderbynwyr Grant 2021* yn nodi fod y Cynllun yn agored i'r cyrff sydd wedi cael eu henwi yn atodiad y Canllaw yn unig. Mae'r Cynllun Grantiau presennol, felly yn un caeedig ac nid oes cyfleoedd i grwpiau nad ydynt wedi derbyn cyllid drwy'r Cynllun Grantiau yn y gorffennol, neu nad ydynt yn derbyn cyllid ar hyn o bryd, i wneud cais am gefnogaeth ariannol o dan yr amodau presennol.

*Ceisiadau grant gan dderbynwyr grant newydd*

8.5 Mae’r drafodaeth yn yr adran hon yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy waith maes yr adolygiad hwn. Casglwyd peth tystiolaeth am ddulliau ymgysylltu ac annog ceisiadau gan ddarpar dderbynwyr grant o gyfweliadau gyda derbynwyr grant presennol a sefydliadau sydd yn cefnogi’r trydydd sector drwy gyllid grant ac yn y gweithdai theori newid.

8.6 Yn ystod y cyfweliadau cyfeiriodd gwahanol dderbynwyr grant at y disgwyliad arnynt i ymgysylltu gyda sefydliadau a grwpiau eraill er mwyn cynyddu’r cyfleoedd i ddenu cynulleidfaoedd newydd a, thrwy hynny, datblygu cyfleoedd gwahanol i hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg. Yn y gweithdai theori newid, mynegwyd pryder am y risg o chwalu darpariaethau a phartneriaethau sydd yn bodoli eisoes, petai model ariannu newydd yn annog cystadleuaeth yn hytrach na chydweithio rhwng derbynwyr grant a phartneriaid. Mewn cyfweliadau, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod risgiau i barhad gweithgareddau presennol trwy ehangu mynediad i’r Cynllun Grantiau i ymgeiswyr newydd pe na bai cyfanswm y cyllid a ddyrennir trwy Cynllun Grantiau yn cynyddu.

8.7 Roedd y derbynwyr grant a gyfrannodd i’r gweithdai theori newid yn awyddus i barhau i gadw’r Cynllun Grant yn gaeedig i’r derbynwyr presennol. Roeddent yn credu y gellid ehangu mynediad i’r grant trwy osod targedau ar y derbynwyr grant presennol i bartneru gyda nifer penodol o grwpiau cymunedol/partneriaid newydd i hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg o fewn cyfnod cylch cyllido.

*Gweithrediad y Cynllun Grantiau i’r Dyfodol*

8.8 Bwriad Llywodraeth Cymru yw newid rhai agweddau ar sut mae cynlluniau grant Llywodraeth Cymru yn cael eu hadolygu a’u hail-hysbysebu yn y dyfodol. Yn ôl datganiad a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn symud i drefniadau cyllido newydd a fydd yn golygu y bydd rhai cynlluniau grant sy’n dechrau ar ôl Ebrill 2022 (yn dibynnu ar y maes polisi a beth sydd fwyaf addas) yn cael eu dyfarnu am gyfnod o hyd at dair blynedd yn y lle cyntaf (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2022: dim rhif tudalen). Ar ddiwedd y tair blynedd, mae’n bosibl y bydd angen i dderbynwyr grant fynd drwy ymarfer meincnodi i asesu

perfformiad er mwyn ymestyn o bosibl y cyfnod cyllido am gyfnod ychwanegol o hyd at dair blynedd (ibid.: dim rhif tudalen).

8.9 Mae’n bosibl y bydd y newidiadau hyn yn berthnasol i unrhyw Gynllun Grantiau a grëir yn lle’r Cynllun Grantiau presennol i Hyrwyddo a Hwyluso’r Defnydd o’r Gymraeg. Mae’n bosibl y bydd modd ymestyn y cyfnod y dyfernir grantiau ar gyfer cynlluniau grantiau cystadleuol newydd, lle bo hynny’n briodol.

# 9. Casgliadau ac argymhellion

9.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r casgliadau o'r gwerthusiad proses o'r Cynllun Grantiau presennol, y theori newid a gynigir ar gyfer y Cynllun Grantiau i'r dyfodol a'r data a gasglwyd am ddatblygu Cynllun Grantiau newydd.

**Gwerthusiad proses o'r Cynllun Grantiau presennol**

*Gweithredu'r Cynllun Grantiau*

9.2 Roedd bwriad y Cynllun Grantiau wedi ei fynegi'n eglur ac yn ddi-amwys yn nogfennaeth y Cynllun ac roedd cyfraniad y Cynllun i weledigaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru yn eglur i swyddogion y Llywodraeth, derbynwyr grant a mwyafrif y Papurau Bro a ymatebodd.

9.3 Roedd y *Canllaw i Dderbynwyr Grant 2021-22* yn gosod yn eglur feini prawf cymhwyso a chostau cymwys y Cynllun. Roedd hefyd yn manylu ar y themâu strategol, y targedau a'r nodau y disgwylir i'r sefydliadau sy'n ymgeisio am gyllid gyfrannu tuag atynt, a'r gofynion a'r disgwyliadau ar dderbynwyr grant. Ar y cyfan, ar sail ymatebion arolwg, roedd y derbynwyr grant yn fodlon ar eglurder a chynnwys y Canllaw, yn cytuno ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth ar sut i dderbyn arian grant, a bod y canllawiau ynglŷn â derbyn grant yn hawdd eu deall. Ar y cyfan, roedd y derbynwyr grant hefyd o'r farn bod y meini prawf cymhwysedd a chyllid ar gyfer derbyn grant wedi eu datgan yn eglur yn y Canllaw.

9.4 Mae rhaid i'r Cynllun Grantiau gydymffurfio â'r *Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector*. Nid yw hynny'n amlwg, fodd bynnag, yn nogfennaeth y Cynllun Grantiau presennol. Mae *Cynllun y Trydydd Sector* a'i God Ymarfer yn ddogfen gynhwysfawr sydd yn amlinellu'r prif egwyddorion sy'n sail i'r berthynas gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector ac yn nodi beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei gael yn ôl gan dderbynwyr grant. Wrth edrych at y dyfodol, byddai alinio dogfennaeth y Cynllun Grantiau gyda *Chynllun y Trydydd Sector* yn fodd o amlygu statws y Cynllun a gosod yn eglur yr egwyddorion sy'n sail i'r berthynas gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff Trydydd Sector sy'n gweithredu i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

9.5 Roedd rhai Papurau Bro a nifer o dderbynwyr grant eraill o blith y rhai a ymatebodd i'r arolwg a'r cyfweliadau yn ddibynnol ar yr arian craidd yr oeddent yn ei dderbyn trwy'r Cynllun Grantiau er mwyn gallu parhau i weithredu. Mae *Cynllun y Trydydd Sector* yn manylu ar gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru i '[G]ynnal strwythurau sy'n galluogi'r Trydydd Sector i ffynnu' (Adran 5). Yn yr un modd, dylai dogfennaeth y Cynllun Grantiau at y dyfodol ymrwymo i'r un cyfrifoldeb i gynnal strwythurau sy'n galluogi i'r sector sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ffynnu.

**Argymhelliad 1 : Dylai Llywodraeth Cymru alinio dogfennaeth y Cynllun Grantiau newydd gyda *Cynllun y Trydydd Sector* a'r *Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.***

*Trefniadau cytuno ar raglenni gwaith a monitro cynnydd a pherfformiad*

9.6 Dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd fod rhaglenni gwaith blynyddol y derbynwyr grant yn cael eu cytuno gyda swyddog grantiau Llywodraeth Cymru. Roedd y meini prawf a'r rhesymeg a oedd yn cael eu defnyddio gan dderbynwyr grant i bennu amcanion a thargedau eu rhaglenni gwaith yn dilyn themâu strategol a thargedau cenedlaethol *Cymraeg 2050,* gyda'r pwyslais ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Ar y cyfan, roedd derbynwyr grant hefyd yn pennu eu targedau a rhaglenni gwaith mewn ymateb i ofynion lleol a hynny ar sail ffynonellau gwybodaeth, tystiolaeth a dulliau ymchwil amrywiol. Dywedodd nifer o'r derbynwyr grant eu bod yn sicrhau perchnogaeth leol ar eu gweithgareddau trwy dulliau amrywiol o ymgysylltu a chyd-gynllunio.

9.7 Roedd barn derbynwyr grant am briodoldeb y drefn bresennol o adrodd ar gynnydd yn amrywio. Roedd rhai yn cytuno bod y gofynion o ran casglu a dadansoddi data ar wahanol gamau'r cylch cyllido yn rhesymol. Roedd eraill yn cwestiynu'r angen i adrodd ar gynifer o dargedau ac o'r farn bod casglu tystiolaeth am bob gweithgaredd a digwyddiad a drefnwyd ganddynt yn cymryd llawer o'u hamser. Roedd rhai derbynwyr grant o'r farn bod gormod o bwyslais ar adrodd ar dargedau a gofynion data'r Llywodraeth, yn enwedig os nad oedd y rhain yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau lleol.

9.8 Ar y cyfan, roedd y derbynwyr grant a gyfrannodd i'r arolwg a'r cyfweliadau yn ymwybodol o ddulliau casglu tystiolaeth ac yn eu defnyddio'n helaeth, ond

cyfyngedig oedd ymwybyddiaeth rhai derbynwyr grant o wahanol fathau o ddulliau gwerthuso.

9.9 Datblygwyd *Mesur Canlyniadau* gan Mentrau Iaith Cymru ar y cyd gyda Lywodraeth Cymru er mwyn cynnig canllaw i dderbynwyr grant werthuso cyfraniad eu gweithgareddau i amcanion *Iaith Fyw: Iaith Byw.* Bydd angen diweddaru'r canllaw hwn er mwyn iddo alinio gyda thargedau a nodau *Cymraeg 2050* ac ymgorffori egwyddorion grymuso cymunedol.

9.10 Roedd peth defnydd gan rai derbynwyr grant o *Gweithredu'n Lleol* y fframwaith a phecyn adnoddau ar gyfer hwyluso cynllunio iaith micro ymysg cymdogaethau Cymraeg mewn modd cyd-weithredol.

9.11 Nododd yr adolygiad llenyddiaeth ar rymuso cymunedol a gyflwynwyd yn Adran 4 nifer o egwyddorion mewn perthynas ag adnabod targedau a chasglu tystiolaeth. Roedd yr egwyddorion a amlygwyd yn cynnwys yr angen i bobl mewn cymunedau ddiffinio'r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu iddynt hwy a phennu'r dangosyddion i fesur hynny. Dangosodd yr ymchwil a adolygwyd bod tuedd 'yn rhy aml i defnyddio dangosyddion ar gyfer cymunedau sy'n gysylltiedig â materion sy'n bwysig i'r wladwriaeth ond nad oes dim cysylltiad rhyngddynt a phethau sy'n bwysig i gymunedau' (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2018: 23). Golyga hyn bod angen i gyllidwyr sicrhau bod eu cynlluniau cyllido a'r fframweithiau monitro cysylltiedig yn ymateb i ddyheadau cymunedau. Egwyddor arall sy'n greiddiol i'r maes grymuso cymunedol yw'r gydnabyddiaeth bod gwybodaeth academaidd a gwybodaeth sy'n seiliedig ar brofiad a ddaw o'r gymuned yn wahanol ond yr un mor hanfodol â'i gilydd wrth gynllunio a gwerthuso effaith gweithgareddau a weithredir mewn ymateb i ddyheadau cymunedau.

9.12 Fel y nodwyd hefyd yn Adran 4, mae'r egwyddorion grymuso cymunedol, sydd eisoes yn rhan annatod o'r ddeddfwriaeth sylfaenol, yn sail i Bolisi Cymunedau arfaethedig (Llywodraeth Cymru 2022c). Wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r Cynllun Grantiau newydd byddai'n fuddiol iddynt sicrhau ei fod yn ymgorffori egwyddorion y polisi hwnnw.

**Argymhelliad 2 : Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod y Cynllun Grantiau newydd yn ymgorffori'r egwyddorion grymuso cymunedol a fydd yn sail i'r Polisi Cymunedau arfaethedig.**

**Argymhelliad 3 : Er mwyn i egwyddorion grymuso cymunedol fod yn elfen ganolog o'r Cynllun Grantiau newydd, dylai derbynwyr grant, gyda chydweithrediad Llywodraeth Cymru, arwain ar lunio a gweithredu dulliau a fydd yn eu galluogi i ddeall ac ymateb i ddyheadau a blaenoriaethau eu poblogaethau targed.**

**Argymhelliad 4 : Dylai Llywodraeth Cymru arwain ar ddiweddaru'r *Pecyn Mesur Canlyniadau*, er mwyn iddo fod wedi ei alinio â thargedau a nodau *Cymraeg 2050* ac ymgorffori egwyddorion grymuso cymunedol.**

*Cynllunio a gweithio mewn partneriaeth*

9.13 Roedd llawer o'r derbynwyr grant yn cydweithio gyda sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac roedd cydweithio agos rhwng derbynwyr grant a phartneriaid eraill yn allweddol i'r ymdrechion i gyflawni nod ac amcanion *Cymraeg 2050*. Roedd rhai derbynwyr grant a'u partneriaid wedi sefydlu partneriaethau strategol cryf ac yn ôl y dystiolaeth a gynhigiwyd roedd cynllunio a chydweithio cydlynus rhyngddynt.

9.14 Roedd ambell i enghraifft o gydweithio llai llwyddiannus o ganlyniad i ddiffyg cynllunio a gweithredu cydlynus, diffyg ymddiriedaeth, diffyg dealltwriaeth o union rôl ac arbenigeddau derbynwyr grant a phartneriaid, neu ddiffyg gweithio mewn partneriaeth gyfartal.

9.15 Roedd mwyafrif y derbynwyr grant a gyfrannodd i'r adolygiad yn cydweithio gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar ystod o weithgareddau a phrosiectau cymunedol amrywiol. Nid oedd y berthynas rhwng y sefydliadau a'r CGSau wedi ei datblygu yn llawn ym mhob ardal. Nododd rhai derbynwyr grant eu bod wedi profi anawsterau o ran cydweithio gyda rhai o'r CGSau o ganlyniad i'r hyn roeddent yn ei weld fel cyndynrwydd rhai o'r CGSau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

**Argymhelliad 5 : Dylai Llywodraeth Cymru gynnig arweiniad ar y ffordd fwyaf priodol o edrych yn systematig ar sut mae derbynwyr grant y Cynllun Grantiau newydd a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cydweithio**

**i hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg, fel sail ar gyfer cryfhau’r cydweithio lle bo angen hynny.**

9.16 Roedd llawer o’r derbynwyr grant yn cynllunio’n fwriadus i annog cyfranogwyr newydd i gymryd rhan yn y gweithgareddau roeddynt yn eu trefnu. Roedd gan derbynwyr grant ddulliau penodol i annog cynulleidfaoedd newydd yn cynnwys rhwydweithio, strategaethau marchnata, gosod targedau i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chynnig aelodaeth gostyngol ar gyfer grwpiau penodol. Roedd llawer o’r gwaith denu cynulleidfaoedd newydd yn waith creu partneriaethau gyda grwpiau, mudiadau a chymdeithasau sy’n cynrychioli buddiolwyr penodol.

9.17 Roedd trefniadau gan lawer o dderbynwyr grant i gynnwys pobl o gymunedau ac hunaniaethau amrywiol yn eu gweithgareddau yn cynnwys, ymhlith eraill, cymunedau ethnig lleiafrifol, pobl LHDTC+ a phobl anabl. Nid oedd gan rai o’r sefydliadau a Phapurau Bro a gyfrannodd i’r adolygiad drefniadau penodol i gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, gan ddweud bod eu gweithgareddau yn agored i bawb. Nodir yn Adran 3 yr adroddiad hwn fod *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* (Llywodraeth Cymru 2022b) yn cynnwys camau gweithredu penodol ar gyfer y Gymraeg. Mae’r rhain yn cynnwys gosod disgwyliad ar sefydliadau sy'n derbyn grant gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol sy'n mwynhau gweithgareddau a digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Argymhelliad 6 : Dylai pob sefydliad sy’n derbyn grant drwy’r Cynllun Grantiau newydd ac sy’n cynnal gweithgareddau gyda’r cyhoedd sicrhau fod ganddynt drefniadau penodol i gynnwys pobl o gymunedau a hunaniaethau amrywiol yn eu gweithgareddau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gymunedau ethnig lleiafrifol, pobl anabl a phobl LHDTC+.**

*Cyfrannu i weledigaeth ac amcanion Cymraeg 2050 a meysydd polisi cysylltiedig*

9.18 Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad mae cyfraniad y Cynllun Grantiau i weledigaeth ac amcanion *Cymraeg 2050* yn gwbl ganolog i weithgaredd y sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan y Cynllun.

9.19 Roedd mwyafrif y sefydliadau a gyfrannodd i'r adolygiad yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd i weledigaeth ac amcanion y Strategaethau Hybu'r Gymraeg statudol a weithredir gan Awdurdodau Lleol. Ni dderbyniwyd tystiolaeth am dderbynwyr grant yn cyfrannu i Strategaethau Hybu yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (er y dylid cadw mewn cof nad oes cyfleoedd i bob derbynnydd grant gyfrannu i waith APC, gan nad ydynt i gyd yn gweithio o fewn ardal Parc Cenedlaethol). Mae Strategaethau Hybu yn cynnig mecanwaith allweddol ar gyfer datblygu cydweithio cydlynus ymhlith asiantaethau amrywiol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar lefelau sirol a rhanbarthol. Mae'n bwysig felly bod cydweithrediad agos rhwng yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng ogystal ag Awdurdodau Lleol a derbynwyr grantiau'r Cynllun Grant newydd.

**Argymhelliad 7 : Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaeth â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, i archwilio a chytuno ar y dulliau mwyaf priodol i Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyd-weithio â derbynwyr grant y Cynllun Grantiau newydd, i ddatblygu a gweithredu Strategaethau Hybu'r Gymraeg.**

9.20 Mae'r cynlluniau llesiant hefyd yn cynnig cyfle i gryfhau cynllunio a chydweithio strategol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel awdurdodau lleol a rhanbarthol. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad am gyfraniad derbynwyr grant sy'n cael eu hariannu gan y Cynllun Grantiau i asesiadau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfyngedig. Nodwyd yn Adran 6 ei bod yn bosibl bod y Byrddau Gwasanaethau yn bwriadu gwahodd y sefydliadau i gyfrannu at y Cynlluniau Llesiant, ond nad oedd hynny wedi digwydd eto. Mae'n bosibl hefyd nad yw sefydliadau yn ymwybodol o'r defnydd mae'r Byrddau Gwasanaethau wedi ei wneud o ddata/gwybodaeth a ddarparwyd gan y sefydliadau wrth baratoi eu hasesiadau.

9.21 Amlygodd yr adolygiad fod gwaith derbynwyr grant sy'n derbyn cyllid drwy'r Cynllun Grantiau yn cyfrannu at y dulliau o weithio sy'n ganolog i *Ddeddf*

*Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* trwy gydweithio'n helaeth gyda sefydliadau, partneriaid ac endidau eraill yn lleol ac ar draws Cymru a chynnwys amrywiaeth o bobl yn eu gweithgareddau.

**Gweithrediad y Cynllun Grantiau i'r dyfodol**

9.22 Dywedodd mwyafrif y derbynwyr grant a gyfrannodd i'r adolygiad eu bod yn derbyn cyllid o ffynonellau eraill tuag at gynnal eu gweithgareddau, er nad oedd hwn yn gyllid cyfatebol bob tro. Nododd nifer o dderbynwyr grant fod prinder ffynonellau cyllid eraill ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ac mai ychydig o gynlluniau grant eraill Llywodraeth Cymru oedd yn cynnig cyllid i datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar hyn o bryd.

9.23 Amlygodd y dystiolaeth a gasglwyd gan swyddogion a chynrychiolwyr sefydliadau sy'n cefnogi'r trydydd sector drwy gyllid grant nifer o nodweddion sydd, ar sail yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad, yn wahanol i drefniadau'r Cynllun Grantiau presennol. Roedd y nodweddion a fyddai'n bosibl ystyried eu mabwysiadu ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Grantiau i'r dyfodol yn cynnwys: cynnig arweiniad a hyfforddiant i ddarpar ymgeiswyr ar ysgrifennu ceisiadau grant; gosod disgwyliadau ar yr ymgeisydd i weithio gyda buddiolwyr i adnabod eu hanghenion a chynllunio'r prosiect; cynnig proses ymgeisio am gyllid sy'n amrywio yn dibynnu ar faint y grant; darparu cefnogaeth i dderbynwyr grant i ddatblygu eu hunain o ran materion rheoleiddio, llywodraethiant a gweinyddiaeth; darparu arweiniad a chefnogaeth i bob derbynnydd grant ar ddulliau monitro a gwerthuso gan gynnwys annog derbynwyr grant i ddefnyddio asesiad cymheiriaid fel rhan o'r broses fonitro; gosod disgwyliadau hunan werthuso ar gyfer derbynwyr pob maint grant a chynnal gwerthusiad gan endid allanol ar gyfer grantiau mwy; a darparu cyllid prosiectau mewn dau gam a gwerthuso cyfnod cyntaf prosiect i ddeall pa effaith mae'r prosiect wedi ei gael cyn rhannu cyllid pellach i barhau'r gwaith.

9.24 Byddai mabwysiadu rhai o'r camau uchod yn dynesu'r Cynllun Grantiau i egwyddorion a dulliau gweithredu o fewn y trydydd sector.

**Argymhelliad 8 : Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymhellach weithdrefnau cyrff eraill sy'n dyrannu grantiau i fudiadau trydydd**

**sector, i ganfod a oes nodweddion a allai fod yn fanteisiol i'r Cynllun Grantiau newydd eu hymgorffori, o ran y broses ymgeisio am grant, darparu cefnogaeth i dderbynwyr grant, a gwerthuso effaith grantiau.**

9.25 Cynigiodd y dystiolaeth a gasglwyd ynghylch un o gynlluniau grant eraill Llywodraeth Cymru wybodaeth am fodel a allai fod yn ddefnyddiol ei archwilio mewn mwy o ddyfnder. Mae'r Grant Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn darparu cyllid craidd i fudiadau trydydd sector drwy bartneriaeth rhwng yr 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC/WCVA), sy'n dosbarthu'r grant iddynt. Gallai fod yn fanteisiol archwilio'r model hwn, neu fodelau eraill tebyg, mewn mwy o fanylder, i ganfod a oes agweddau ohonynt a allai fod yn ddefnyddiol i'w hystyried ar gyfer clwstwr o dderbynwyr grant sy'n gweithredu mewn meysydd cyffelyb i'w gilydd. Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol ystyried a allai model o'r fath fod yn ffordd o gynnig arweiniad ar ddatblygu dulliau cydweithredol o werthuso a deall effaith gweithgareddau.

**Argymhelliad 9 : Dylai Llywodraeth Cymru archwilio model y Grant Cefnogi Trydydd Sector a chynlluniau grant eraill sy'n cael eu gweithredu mewn modd tebyg, ac ystyried a oes nodweddion o'r cynlluniau hyn a allai fod yn ddefnyddiol i'w hystyried ar gyfer y Cynllun Grantiau newydd. Gallai hyn gynnwys edrych ar ffyrdd o sefydlu pwynt canolog i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i dderbynwyr grant sy'n gweithio mewn meysydd cyffelyb, a chefnogi derbynwyr grant i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i werthuso a deall effaith eu gweithgareddau.**

**Datblygu Theori Newid ar gyfer y Cynllun Grantiau**

9.26 Mae datblygu theori newid yn ddull cydnabyddedig ar gyfer cynllunio strategaeth neu gynllun. Nid oedd theori newid yn bodoli ar gyfer y Cynllun Grantiau presennol. O'r dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â'r adolygiad hwn, dim ond dau o'r derbynwyr grant oedd yn gyfarwydd â'r cysyniad o theori newid ac un ohonynt oedd wedi datblygu theori newid ar gyfer eu gweithgareddau.

9.27 Cyflwynodd Adran 7 theori newid ar gyfer y broses o weithredu'r Cynllun Grantiau a chynyddu defnydd o'r Gymraeg drwy'r Cynllun. Bwriedir i'r theori newid hon gael ei defnyddio yn sail ar gyfer manylu a mireinio pellach gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu Cynllun Grantiau newydd at y dyfodol, a hefyd gan dderbynwyr grant mewn modd cyd-weithredol gyda buddiolwyr amrywiol.

**Argymhelliad 10 : Dylai Llywodraeth Cymru a derbynwyr grant y Cynllun Grantiau newydd adolygu a datblygu mewn modd cydweithredol y theori newid gychwynnol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.**

**Argymhelliad 11 : Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod cefnogaeth briodol mewn lle er mwyn i dderbynwyr grant y Cynllun Grantiau newydd ymgyfarwyddo â sut i ddatblygu theori newid mewn modd cydweithredol gyda buddiolwyr yn eu cymunedau.**

**Datblygu'r Cynllun Grantiau at y dyfodol**

9.28 Mae'r Cynllun Grantiau ar ei ffurf bresennol yn gaeedig ac nid oes cyfleoedd i grwpiau nad ydynt wedi derbyn cyllid drwy'r Cynllun Grantiau yn y gorffennol, neu nad ydynt yn derbyn cyllid ar hyn o bryd, i wneud cais am gefnogaeth ariannol o dan yr amodau presennol.

9.29 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y gallai cynlluniau grant newydd sy'n dechrau ar ôl Ebrill 2022 gynnwys yr opsiwn (yn dibynnu ar y maes polisi a beth sydd fwyaf addas) i symud i fodel dyfarnu tair blynedd, gyda hyd at dair blynedd ychwanegol wedi hynny lle bo hynny'n briodol.

9.30 Amlygodd y dystiolaeth a gasglwyd drwy gyfweliadau a gweithdai theori newid bryderon ymhlith rhai derbynwyr grant y byddai model ariannu newydd yn annog cystadleuaeth yn hytrach na chydweithio rhwng mudiadau a phartneriaid, a hynny'n cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth gyfredol a threfniadau gyda phartneriaid.

9.31 Mae'r math o gyrff sy'n derbyn cyllid trwy'r Cynllun Grantiau yn gyfredol yn amrywiol iawn o ran eu maint, natur eu gweithgaredd a'u gallu i ymgeisio'n gystadleuol am ffynonellau incwm amgen. Gallai peidio derbyn cyllid grant yn y dyfodol beryglu eu gallu i fodoli ac/neu i gynnal y gweithgareddau y maent yn eu cynnal. Wrth ddatblygu'r Cynllun Grantiau at y dyfodol, bydd angen ystyried a fyddai ffurfio categorïau o gyrff sydd angen eu trin yn wahanol o ran y gefnogaeth ariannol a dderbynnir ganddynt gan Lywodraeth Cymru yn briodol.

**Argymhelliad 12 : Fel rhan o'r gwaith paratoadol ar gyfer cynllunio'r Cynllun Grantiau newydd dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad trylwyr o oblygiadau gwahodd ceisiadau grant gan sefydliadau nad ydynt yn derbyn cyllid drwy'r Cynllun Grantiau ar hyn o bryd. Dylai hyn gynnwys asesiad risg o'r newidiadau i'r trefniadau presennol.**

## Atodiad 1: Llyfryddiaeth


Adamson, D. a Bromiley, R. (2008). *Community empowerment in practice: lessons from Communities First*. Efrog: Joseph Rowntree Foundation.

Adamson, D. a Bromiley, R. (2013). Community empowerment: learning from practice in community regeneration. *International Journal of Public Sector Management*. 26(3): 190-202.

Atkinson, R. a Cope, S. (1997). Community participation and urban regeneration in Britain. Yn Hoggett, P. (gol.) *Contested Communities* (201-221). Caergrawnt: Cambridge University Press.

Audit Scotland (2019). Principles for community empowerment. Caeredin: Audit Scotland.

Better Evaluation (2011). Equal access participatory monitoring and evaluation toolkit: Introduction, modules and resources.

Bock, B. (2012). Social Innovation and Sustainability; How to Disentangle the Buzzword and Its Application in the Field of Agriculture and Rural Development. *Studies in Agricultural Economics*. 114: 57–63.

Boonstra, B. (2016). *Planning strategies in an age of active citizenship, a post-structuralist agenda for self-organization in spatial planning*. Groningen: InPlanning.

Braun, V. a Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*. 3(2): 77-101.

Brunner, R., Craig, P. a Watson, N. (2017). *Evaluability Assessment of Thriving Places: a Report for Glasgow Community Planning Partnership*. What Works Scotland.

Comisiynydd y Gymraeg (2016). Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012 - 2015 Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg (2020). Sefyllfa'r Gymraeg 2016-20: Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg.

Craig, P. a Campbell, M. (2015). Evaluability Assessment: a systematic approach to deciding whether and how to evaluate programmes and policies. What Works Scotland.

Cymdeithas yr Iaith (2018). Gwaith i Adfywio Iaith. Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2017). Rheoli eich sefydliad - Effaith a mesur effaith.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2018). Grymuso Cymunedau - Empowering Communities.

(Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2022). Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi trefniadau cyllido mwy hirdymor.

Davies, E. a Rees, A. D. (gol.) (1960). *Welsh Rural Communities*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Davies, R. a Dart, J. (2005). The 'Most Significant Change' (MSC) Technique: A Guide to Its Use.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Fishman, J. A. (1991). *Reversing Language Shift: Theoretical and Empirical Foundations of Assistance to Threatened Languages*. Clevedon: Multilingual Matters.

Glyn, J. (2010). *Asesiad o Effeithiolrwydd Strategaethau Ieithyddol Cymunedol Cyfredol yng Nghymru*. Thesis PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Aberystwyth.

Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2019). Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned er mwyn Grymuso.

Jones, H. M. (2007). Goblygiadau newid ym mhroffeil oedran siaradwyr Cymraeg. *Gwerddon*. 2: 12-34.

Jones, R. (2021). The geography of minority language use: from community to network. Yn Lewis, H. A McLeod, W. (gol.) *Language Revitalisation and Social Transformation* (37-65). Llundain: Palgrave Macmillan.

Jones, R. a Lewis, H. (2019). *New Geographies of Language: Language, Culture and Politics in Wales*. Llundain: Palgrave Macmillan.

Jones, R. a Ross, A. (2016). National sustainabilities. *Political Geography*. 51: 53-62.

Kusek, J. a Rist, R. (2004) Ten Steps to a Results-Based Monitoring and Evaluation System. A Handbook for Development Practitioners. Washington, D.C: World Bank Group.

Lawthom, R. a Whelan, P. (2012). Understanding Communities. Yn Azzopardi, A. a Grech, S. (gol.) *Inclusive Communities: A Critical Reader* (11–22). Boston: Sense Publishers.

Lewis, H. a McLeod, W. (gol.) (2021). *Language Revitalisation and Social Transformation*. Llundain: Palgrave Macmillan.

Llywodraeth Cymru (2003). *Iaith Pawb*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2012a). Gweithredu'n Lleol: Fframwaith ar Gyfer Hwyluso Cynllunio Iaith Micro Ymysg Cymdogaethau Cymraeg.

Llywodraeth Cymru (2012b). Iaith Fyw: Iaith Byw.

Llywodraeth Cymru (2013). Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg . Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014a). Adolygiad o waith y Mentrau Iaith.

Llywodraeth Cymru (2014b). Cynllun y Trydydd Sector.

Llywodraeth Cymru (2014c). *Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hyrwyddo Iaith Aman Tawe / Welsh Government Response to the Review of the Work of the Mentrau Iaith, Language Action Plans and the Aman Tawe Language Promotion Scheme*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Datganiad Llafar.

Llywodraeth Cymru (2015a). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion.

Llywodraeth Cymru (2015b). Gwerthuso Cymunedau yn Gyntaf.

Llywodraeth Cymru (2016) Safonau Gofynnol ar Gyfer Cyllid Grant

Llywodraeth Cymru. (2017). Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.

Llywodraeth Cymru (2019). Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant.

Llywodraeth Cymru (2020a). Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg.

Llywodraeth Cymru (2020b). Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig.

Llywodraeth Cymru (2021a). *Canllaw Adrodd Grant Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg 2021-2022: Gwybodaeth i Dderbynwyr Grant*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2021b). Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Llywodraeth Cymru (2021c). *Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg 2021 – 2022: Canllaw i Dderbynwyr Grant*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2021d). Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: ymateb y llywodraeth.

Llywodraeth Cymru (2021e). Y Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad

Llywodraeth Cymru (2021f). *Llythyr Grant Safonol (templed)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022a). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso.

Llywodraeth Cymru (2022b). Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Llywodraeth Cymru (2022c). Datganiad Ysgrifenedig: Polisi Cymunedau.

Llywodraeth Cymru (2022d). Rhaglen Arfor gwerth £11 miliwn i hybu ffyniant economaidd mewn cymunedau Cymraeg.

Llywodraeth yr Alban (2009). *Community: Scottish Community Empowerment Action Plan*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Llywodraeth yr Alban (2011). *Commission on the Future Delivery of Public Services.* Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Mayo, M. (2000). *Cultures, Communities, Identities*. Efrog Newydd: Palgrave.

Meijer, M. (2018). *Community-led, Government-fed and Informal. Exploring planning from below in depopulating regions across Europe*. Traethawd PhD Prifysgol Wageningen.

Mentrau Iaith Cymru a Llywodraeth Cymru (dim dyddiad). *Mesur Canlyniadau: Fersiwn 1.*

Moulaert, F., Martinelli, F., Swyngedouw, E. a Gonzalez, S. (2005). Towards Alternative Model(s) of Local Innovation. *Urban Studies*. 42 (11): 1969–1990.

OECD (2017). *Stimulating Social Entrepreneurship and Social Innovation*. Paris: OECD.

Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd (2022). Ymchwiliad i asedau cymunedol. Caerdydd: Senedd Cymru.

Rees, A. D. (1950). *Life in a Welsh Countryside: A Social Study of Llanfihangel yng Ngwynfa*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Roche, C. (1999). *Impact Assessment for Development Agencies: Learning to Value Change*. Rhydychen: Oxfam GB.

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru (2019). Measuring What Matters: Evaluation that asks the right questions of the right people in the right way.

Sefydliad Iechyd y Byd (2020). Track 1: Community empowerment.

Schiavo-Campo, S. (1999). 'Performance' in the public sector. *Asian Journal of Political Science*. 7 (2): 75-87.

Te Puni Kōkiri and the Department of Internal Affairs. (2020). Oranga Marae: Summative Evaluation Final Report.

Trysorlys ei Mawrhydi. (2020). Magenta Book: Central Government Guidance on Evaluation. Llundain: Hawlfraint y Goron.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2013). Guide to Social Innovation. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

## Atodiad 2: Arfau ymchwil

Canllaw cyfweliadau swyddogion Llywodraeth Cymru

Canllaw cyfweliadau rhanddeiliaid

Arolwg ar-lein derbynwyr grant 2021-22

Canllaw gweithdai theori newid

ADOLYGIAD O GYNLLUN GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU I HYRWYDDO A HWYLUSO'R DEFNYDD O'R GYMRAEG

**Cyfweliadau Cwmpasu Swyddogion Llywodraeth Cymru [1]**

| **Manylion Gweinyddol** | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfweliad | |
| Cod y Cyfweliad | |

| Rhif Cwestiwn | |
|---|---|
| | ***Cefndir a rôl gyda Chynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg*** |
| 1. | Beth yw eich rôl chi yng nghyswllt Cynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg? |
| | |

| | |
|---|---|
| 2. | Sut y mae'r Cynllun hwn wedi cael ei weinyddu ers iddo gael ei drosglwyddo o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Lywodraeth Cymru ?<br><br>(Ni fydd y cwestiwn hwn yn berthnasol i bob swyddog a gyfwelir). |
| | |
| 3. | Beth yw eich dealltwriaeth chi o sut y pennwyd y mudiadau/sefydliadau sy'n gymwys i wneud cais am y grant ar hyn o bryd? |
| | |
| | ***Cynllunio Strategol*** |
| 4. | Beth yw eich dehongliad chi o fwriad y Cynllun Grantiau ar ei ffurf bresennol? |
| | |

| | |
|---|---|
| 5. | A oes cysylltiad rhwng y Cynllun Grantiau i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg a chynlluniau grant eraill gan Lywodraeth Cymru? |
| | |
| 6. | Os oes cysylltiad gyda grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru, beth yw'r cysylltiad a sut mae hynny'n gweithio? |
| | |
| | ***Proses weithredu Cynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg*** |
| 7. | Allwch chi esbonio os gwelwch yn dda beth yw'r broses o ymgeisio am grant?<br>Allwch chi esbonio beth yw'r camau yn dilyn hynny; h.y. y camau hyd at ddyfarnu'r grant, a'r camau sydd yn dilyn hynny, drwy'r cylch grant?<br>Beth yw trefniadau monitro presennol y Cynllun Grantiau? |
| | |

| | |
|---|---|
| 8. | Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r broses o weithredu'r Cynllun Grantiau ar hyn o bryd?<br><br>A oes enghreifftiau penodol? |
| | |
| 9. | A fu gan y mudiadau a'r sefydliadau unrhyw fewnbwn i drafodaethau ynglŷn â sut i weithredu'r Cynllun Grantiau yn y gorffennol? |
| | |
| 10. | A oes unrhyw heriau wedi'u hadrodd gan dderbynwyr grant neu bartneriaid wrth weithredu'r Cynllun ? |
| | |
| 11. | Yn eich profiad chi o'r Cynllun Grantiau i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg, beth yw'r amodau a'r nodweddion sy'n dylanwadu ar allu derbynwyr grant a'u partneriaid i gyrraedd eu targedau'n effeithiol? |

| | |
|---|---|
| | |
| 12. | Ym mha ffordd mae COVID-19 wedi effeithio ar y ffordd mae'r grwpiau a'r sefydliadau yn gweithredu?<br>A yw'r Cynllun Grantiau wedi gorfod cael ei addasu yn sgil hynny?<br>Ym mha ffordd? |
| | |
| 13. | A oes yna unrhyw anghenion neu nodweddion penodol o ran y derbynwyr grant sydd wedi eu hamlygu yn sgil COVID-19? |
| | |
| | ***Edrych i'r dyfodol*** |
| 14. | Yn eich barn chi, a oes grwpiau penodol nad ydynt yn gymwys i wneud cais am grant ar hyn o bryd y dylid eu cynnwys yn y dyfodol? Beth yw'r rhesymau dros eu cynnwys? |

| | |
|---|---|
| | |
| 15. | Yn eich barn chi, a oes unrhyw newidiadau eraill sydd angen eu hystyried wrth feddwl am ddulliau o gefnogi partneriaid i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau? |
| | |

**ADOLYGIAD O GYNLLUN GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU I HYRWYDDO A HWYLUSO'R DEFNYDD O'R GYMRAEG**

**Cyfweliadau Swyddogion Llywodraeth Cymru [4]**

| **Manylion Gweinyddol** | |
|---|---|
| Dyddiad y Cyfweliad | |
| Cod y cyfweliad | |

| Rhif Cwestiwn | |
|---|---|
| | ***Cefndir y Cynllun(iau) Grant a drafodir*** |
| 1. | Beth yw'r grant(iau) yr ydych yn gyfrifol amdanynt?<br>A ydynt yn grant(iau) craidd neu'n grant(iau) prosiect?<br>Beth yw manteision/anfanteision y math(au) hyn o grantiau?<br>Beth yw'r rhesymau dros ddewis y dulliau ariannu hyn? |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| 2. | Beth yw nod y grant(iau)?<br>Sut caiff y grant ei fonitro yn erbyn targedau a chanlyniadau? |
| | |
| 3. | Pwy/pa sefydliadau sy’n gymwys i wneud cais am y grant(au) hyn?<br>Pwy yw’r derbynwyr grant presennol? |
| | |
| 4. | A yw’r derbynwyr grantiau yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gyflawni eu hamcanion?<br>Pwy yw’r sefydliadau hyn? |
| | |
| 5. | Pwy yw buddiolwyr y grant? |
| | |

| | |
|---|---|
| | ***Gweithredu'r Cynllun(au) Grant(iau)*** |
| 6. | Gweinyddiaeth<br>Esboniwch y broses o wneud cais am y grantiau yr ydych yn gyfrifol amdanynt os gwelwch yn dda.<br>Sut mae cyllid yn cael ei ddyrannu?<br>Sut y dyrennir cyllid os yw nifer y ceisiadau'n uwch na'r gyllideb sydd ar gael?<br>Esboniwch y camau sy'n dilyn ar ôl i'r cais ddod i law h.y. gwerthuso'r ceisiadau hyd at ddyfarnu'r grant, a'r camau sy'n dilyn, drwy'r broses monitro grant? |
| | |
| 7. | A oes agweddau cadarnhaol ar reoli'r cynllun(iau) grant o ddydd i ddydd?<br>Beth yw'r pethau sy'n gweithio'n dda? |
| | |
| 8. | A oes unrhyw agweddau heriol ar reoli'r cynllun grant(iau) o ddydd i ddydd?<br>Beth ydynt? |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| | ***Monitro*** |
| 9. | Beth yw'r trefniadau monitro presennol ar gyfer y cynllun(iau) grant?<br>Sut ydych yn delio gyda thanberfformio? |
| | |
| 10. | A yw'r cynllun(iau) grant(iau) wedi'i adolygu/gwerthuso o gwbl?<br>Beth a ddysgwyd o'r adolygiad/gwerthusiad?<br>Beth a wnaed yn wahanol o ganlyniad i'r adolygiad/gwerthusiad? |
| | |
| 11. | A oes cyfle i'r derbynwyr grantiau roi adborth ar y ffordd y caiff y cynllun ei reoli/gweinyddu? |
| | |
| 12. | A oes unrhyw anghenion neu nodweddion penodol gan dderbynwyr grantiau sydd wedi dod i'r amlwg oherwydd COVID-19? |

| | |
|---|---|
| | Sut yr aethpwyd i'r afael â'r anghenion hyn? |
| | |
| 13. | A yw buddiolwyr grantiau yn adrodd ar gydraddoldeb mewn unrhyw ffordd?<br>Os felly, sut y gwneir? |
| | |
| | ***Agweddau Strategol*** |
| 14. | A yw'r cynllun grant yn cyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu? Os felly, sut? |
| | |
| 15. | A yw *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* wedi ei integreiddio i'r cynllun grantiau mewn unrhyw ffordd? Os felly, sut? |
| | |
| 16. | A yw'r cynllun grant yn integreiddio Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru mewn unrhyw ffordd? Os felly, sut? |

| | |
|---|---|
| | |
| | ***Hyrwyddo'r Gymraeg*** |
| 17. | A yw'r cynllun grantiau yn integreiddio Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050*, mewn unrhyw ffordd? Os felly, sut? |
| | |
| 18. | A oes unrhyw gysylltiad rhwng y grant(iau) yr ydych yn gyfrifol amdanynt a'r Cynllun Grantiau i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg?<br>Os oes cysylltiad â'r Grant i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg, beth yw'r cysylltiad a sut mae hynny'n gweithio?<br>Os nad oes cysylltiad ar hyn o bryd, a ddylid cael cyswllt yn y dyfodol? |
| | |
| 19. | Yn seiliedig ar eich profiadau o reoli'r cynllun grant(iau) yr ydych yn gyfrifol amdano, a'ch dealltwriaeth o nodau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg, a ydych yn credu bod angen unrhyw newidiadau o ran ffyrdd o gyflwyno neu gynyddu'r cymorth i'r rhai sy'n derbyn grantiau ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau? |

| | |
|---|---|
| | |

**ADOLYGIAD O GYNLLUN GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU I HYRWYDDO A HWYLUSO'R DEFNYDD O'R GYMRAEG**

**Cyfweliadau Derbynwyr Grant Presennol**

| **Manylion Gweinyddol** | |
|---|---|
| Dyddiad y Cyfweliad | |
| Cod y cyfweliad | |

| Rhif Cwestiwn | |
|---|---|
| | ***Gwybodaeth am y mudiad/sefydliad*** |
| 1. | Pwy yw prif fuddiolwyr gweithgareddau'r mudiad/sefydliad? |
| | |
| | ***Cyfrannu at amcanion strategol Cymraeg 2050*** |
| 2. | Sut ydych chi'n mynd ati i gynllunio eich rhaglenni gwaith er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg? |
| | |
| 3. | Ydych chi'n dilyn egwyddorion neu strategaethau penodol wrth gynllunio gwaith y mudiad / sefydliad?<br>Ydych chi'n defnyddio'r data a'r dystiolaeth sydd yn cael eu casglu ar gyfer monitro i gynllunio gwaith y mudiad/sefydliad? |

| | |
|---|---|
| | |
| | ***Monitro a deall effaith*** |
| 4. | Beth yw eich safbwynt am drefniadau monitro a chloriannu cyflawniad ar ddiwedd cyfnod cyllido (blynyddol) y Cynllun Grantiau presennol? |
| | |
| 5. | A oes gennych drefniadau mewn lle i ddeall a gwerthuso sut mae eich gweithgareddau yn gwneud gwahaniaeth o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?<br>Beth yw'r trefniadau hynny?<br>Beth ydych yn ei wybod/deall am sut y gall defnyddio theori newid eich cynorthwyo gyda'ch gwaith? |
| | |
| 6. | Beth sy'n digwydd wedyn i'r dystiolaeth a'r data rydych chi wedi eu casglu?<br>Ydych chi'n eu defnyddio ar gyfer unrhyw beth arall? |
| | |
| 7. | Ar wahân i'r Canllaw Adrodd ar gyfer y Cynllun Grantiau, ydych chi'n derbyn unrhyw arweiniad neu hyfforddiant ar sut i adrodd ar eich cyflawniad i Lywodraeth Cymru? |

| | |
|---|---|
| | Ydych chi'n derbyn unrhyw adborth ar sut rydych chi'n adrodd?<br>Os felly, sut mae hyn yn digwydd?<br>A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r ffordd rydych chi'n adrodd ar gyflawniad?<br>A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniadau hyfforddiant ac adborth?<br>Ydy'r dulliau cysylltu a chyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun monitro a deall effaith yn addas a phriodol? |
| | |

| | |
|---|---|
| | ***Denu cynulleidfaoedd*** |
| 8. | A ydych chi'n defnyddio dulliau penodol i gynyddu nifer y buddiolwyr sydd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau rydych yn eu trefnu?<br>Beth yw'r dulliau hyn?<br>A yw defnyddio'r dulliau hyn wedi arwain at gynyddu niferoedd y buddiolwyr sy'n mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau?<br>Sut y mesurwyd y cynnydd? Ydych chi'n gwybod eich bod yn cynyddu niferoedd y buddiolwyr? |
| | |
| 9. | Ydych chi'n gwneud unrhyw beth i geisio dod o hyd i gynulleidfaoedd newydd?<br>Os felly, sut ydych chi'n gwneud hyn? Sut ydych chi'n penderfynu pwy ydych chi am ei ddenu (h.y. pwy sy'n 'newydd'?)<br>Sut ydych chi'n mynd ati i ganfod a deall beth mae eich buddiolwyr yn chwilio amdano? |
| | |
| 10. | Beth ydych yn ei wneud er mwyn cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig (a nodweddion cysylltiedig) yn eich gweithgareddau?<br>[Nodweddion gwarchodedig yw oed; anabledd; statws o ran ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil (gan gynnwys pobl sy'n Sipsi, Roma neu Deithwyr); crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol]. Mae pobl â nodweddion cysylltiedig yn cynnwys pobl LHDTC+ (pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, |

| | |
|---|---|
| | trawsryweddol a chwiar/sy'n cwestiynu, yn ogystal â phobl sydd â hunaniaethau eraill gan gynnwys pobl anneuaidd). Hefyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches, waeth beth fo'u hil.<br>Ydych chi'n gwybod eich bod yn denu pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i'ch gweithgareddau? |
| | |
| | ***Cyllid*** |
| 11. | I ba raddau mae'r cyllid sydd yn cael ei ddyrannu drwy'r Cynllun Grantiau yn rhoi sylfaen i chi dderbyn arian cyfatebol o ffynonellau eraill [arian cyfatebol yw'r arian sy'n cyfrannu yn uniongyrchol at ddibenion y dyraniad grant]?<br>A yw'r  mudiad/sefydliad yn derbyn arian cyfatebol o ffynonellau eraill?<br>A allai'r Cynllun Grantiau ddysgu oddi wrth drefniadau/gweithdrefnau ffynonellau cyllid grant eraill yr ydych yn eu derbyn? |
| | |
| 12. | Ydych chi'n derbyn cyllid grant o ffynonellau eraill ar gyfer trefnu gweithgareddau cymunedol? |
| | |
| | ***Partneriaethau*** |

| | |
|---|---|
| 13. | A ydych yn gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau neu sefydliadau eraill i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg?<br>Os felly pa sefydliadau ydyn nhw?<br>Beth yw natur y cydweithio?<br>Pwy sydd yn dueddol o wneud cysylltiadau cychwynnol – chi neu sefydliadau eraill? |
| | |
| 14. | Beth yw'r ffactorau sydd yn hwyluso ac yn atal gweithio ar y cyd gyda phartneriaid?<br>(heb enwi, allwch chi roi enghreifftiau o'r mathau o bethau sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim yn gweithio cystal?)<br>Beth fyddai'n cryfhau/gwella/hwyluso cydweithio effeithiol?<br>Oes yna rywbeth allai'r Cynllun ei wneud i gryfhau neu wella gweithio mewn partneriaeth? |
| | |
| 15. | A oes unrhyw beth arall rydych yn dymuno ei nodi am y Cynllun Grantiau? |
| | |

| | |
|---|---|
| | |

**ADOLYGIAD O GYNLLUN GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU I HYRWYDDO A HWYLUSO’R DEFNYDD O’R GYMRAEG**

**Cyfweliadau sefydliadau sydd yn gweithio gyda derbynwyr grant**

| **Manylion Gweinyddol** | |
|---|---|
| Dyddiad y Cyfweliad | |
| Cod y cyfweliad | |

| Rhif Cwestiwn | ***Gwybodaeth am y sefydliad*** |
|---|---|
| 1. | A ydych yn cydweithio gyda mudiad(au) sydd yn derbyn cyllid grant drwy’r Cynllun Grant hwn? (Clybiau Ffermwyr Ifanc, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Merched y Wawr, Mentrau Iaith Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Cronfa Papurau Bro (MIC), Mentrau Iaith),<br>Os felly gyda pha rai? |
| | |
| 2. | Ym mha ffordd ydych chi’n cydweithio? |

| | |
|---|---|
| | Er enghraifft a ydych yn cynnal gweithgareddau a digwyddiadau?<br>A oes cydweithio ar lefel mwy strategol?<br>Oes cytundeb cydweithio ffurfiol yn ei le rhyngoch ar gyfer hyn? |
| | |
| 3. | Ydych chi'n cydweithio gyda mudiadau/sefydliadau eraill nad ydynt yn derbyn cyllid grant drwy'r Cynllun Grantiau hwn, i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg?<br>Os ydych, pwy yw'r sefydliadau hyn?<br>Oes cytundeb cydweithio ffurfiol yn ei le rhyngoch ar gyfer hyn? |
| | |
| | ***Cynllunio, a Deall Effaith*** |
| 4. | Allwch chi ddisgrifio sut ydych chi'n mynd ati i adnabod cyfleoedd i gydweithio gyda'r mudiadau sy'n derbyn cyllid grant?<br>Ydy hyn yn digwydd mewn ffordd systematig?<br>Pa mor aml ydych chi'n cwrdd/trafod? |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| 5. | A oes gan eich sefydliad  drefniadau yn eu lle gyda'r derbynwyr grant i ddeall sut mae'r gweithgareddau yn gwneud gwahaniaeth o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg?<br>Beth yw'r trefniadau hyn? |
| | |
| | ***Cyfrannu at amcanion strategol Cymraeg 2050*** |
| 6. | A yw'r gweithgareddau neu ddigwyddiadau rydych yn cydweithio arnynt gyda'r derbynwyr grant wedi cael eu halinio'n benodol gydag amcanion *Cymraeg 2050*? |
| | |
| | ***Denu cynulleidfaoedd*** |
| 7. | Ydych chi'n trafod dulliau o gynyddu nifer  y cyfranogwyr sy'n mynychu digwyddiadau neu weithgareddau sy'n cael  eu trefnu ar y cyd â'r derbynwyr grant?<br>Ydych chi'n gwneud unrhyw beth i geisio dod o hyd i gynulleidfaoedd newydd? |

| | |
|---|---|
| | Os felly, sut ydych chi'n gwneud hyn? Sut ydych chi'n penderfynu pwy ydych chi am ei ddenu (h.y. pwy sy'n 'newydd'?)<br><br>Sut ydych chi'n mynd ati i ganfod a deall beth mae eich buddiolwyr/cyfranogwyr yn chwilio amdano? |
| | |
| 8. | Ydych chi'n defnyddio unrhyw ddulliau penodol i wybod lle mae yna gyfleoedd i gynnwys dysgwyr neu 'siaradwyr newydd' yn eich digwyddiadau neu weithgareddau?<br><br>Os felly, beth ydy'r dulliau hyn? |
| | |
| | ***Ymateb i sefyllfaoedd yn sgil COVID-19*** |
| 9. | A gafodd y cyd-weithio rhyngoch chi a'r derbynwyr grant ei effeithio gan bandemig COVID-19?<br><br>Os felly, ym mha ffordd?<br><br>A wnaethoch chi ddatblygu ffyrdd newydd o gyd-weithio gyda'r derbynwyr grant yn sgil y pandemig?<br><br>Sut mae hyn yn wahanol i'r ffordd o weithio cyn COVID-19? |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| | ***Cryfderau a chyfleoedd i wella*** |
| 10. | Beth yw'r ffactorau sydd yn hwyluso ac yn rhwystro gweithio ar y cyd efo'r derbynwyr grant?<br>Beth sy'n gweithio'n dda?<br>Beth fyddai'n cryfhau/gwella/hwyluso cydweithio mwy effeithiol? |
| | |
| 11. | Beth os unrhyw beth allai'r Cynllun ei wneud i gryfhau/gwella gweithio mewn partneriaeth? |
| | |

**ADOLYGIAD O GYNLLUN GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU I HYRWYDDO A HWYLUSO'R DEFNYDD O'R GYMRAEG**

**Cyfweliadau sefydliadau sy'n cefnogi'r trydydd sector drwy gyllid grant**

| **Manylion Gweinyddol** | |
|---|---|
| Dyddiad y Cyfweliad | |
| Cod y cyfweliad | |

| Rhif Cwestiwn | ***Nod a bwriad cynlluniau grantiau / ariannu'r sefydliad sy'n cefnogi'r trydydd sector drwy gyllid grant*** |
|---|---|
| 1. | Pwy / pa fath o sefydliadau sy'n gymwys i wneud cais am y grant(iau)?<br><br>Pwy yw'r derbynwyr grant presennol? |
| | |
| 2. | A yw'r cynlluniau grant(iau) yn targedu unigolion neu grwpiau penodol o fewn y gymuned? |
| | |
| 3. | A oes disgwyl i dderbynwyr grantiau weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gyflawni eu hamcanion?<br><br>Pa fath o sefydliadau ydynt? |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| | ***Gweinyddiaeth y cynllun grantiau/ariannu*** |
| 4. | Beth yw'r broses o wneud cais am y grantiau y mae'ch sefydliad yn eu cynnig?<br><br>A yw'r prosesau yn rhai agored i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cais, neu'n gaeedig i grwpiau penodol?<br><br>Pa mor gyfyng neu pa mor eang ydy'r meini prawf cymhwyso ar gyfer derbyn grant (h.y. ydy'r sefydliad yn pennu dibenion penodol iawn ar gyfer y grantiau, neu yn gadael y maes yn agored?)<br><br>Sut y dyrennir cyllid os yw nifer y ceisiadau'n uwch na'r gyllideb sydd ar gael? |
| | |
| 5. | A oes disgwyl i ymgeiswyr grant baratoi theori newid neu offeryn cynllunio a gwerthuso arall ar gyfer y gwaith sydd yn cael ei ariannu gan gynllun(iau) grant y sefydliad?<br><br>Ar gyfer pa fathau o brosiectau rydych chi'n gofyn am hyn?<br><br>Os felly, beth yw'ch profiad chi o'u defnyddio?<br><br>Os na, pam ddim? |
| | |
| 6. | Pa feini prawf neu ganllawiau mae eich sefydliad yn eu darparu, ar gyfer asesu cynigion ar gyfer grantiau? |

| | |
|---|---|
| | Sut y datblygwyd y meini prawf/canllawiau hyn? |
| | |
| 7. | Pa ddisgwyliadau sydd gan eich sefydliad o ran cyd-gynhyrchu (co-production) rhwng y rhai sy'n derbyn y grant a buddiolwyr y grantiau? [Mae cyd-gynhyrchu yn golygu ymgynghori a chynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau o ddechrau i ddiwedd unrhyw brosiect sy'n effeithio arnynt].<br><br>Beth ydynt? |
| | |
| 8. | A oes gennych unrhyw dystiolaeth am y gwahaniaeth y mae cyd-gynhyrchu yn ei wneud i ganlyniadau prosiectau grantiau sydd yn cael eu dyrannu? |
| | |
| | ***Monitro a deall effaith*** |
| 9. | Sut caiff y grantiau a ddyrennir eu monitro yn erbyn gwariant, targedau a chanlyniadau? |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| 10. | Pa ddata a pha dystiolaeth sydd yn cael eu casglu a'u dadansoddi gan y derbynwyr grant ar wahanol gamau'r cylch cyllido, ac at ba ddibenion maent yn cael eu casglu? |
| | |
| 11. | A oes disgwyl i dderbynwyr gynnwys elfennau o hunan-werthuso yn eu dulliau monitro? |
| | |
| 12. | A oes dulliau gennych mewn lle i ddeall i ba raddau mae'r gwaith sy'n cael ei ariannu yn arwain at newid/i ddeall effaith y gwaith?<br><br>Beth yw'r dulliau hyn?<br><br>Beth yw eich profiad o'u defnyddio? |
| | |
| 13. | Pa mor aml y caiff cynlluniau grant y sefydliad ariannu eu hadolygu neu eu gwerthuso?<br><br>Oes modd rhoi enghreifftiau o  newidiadau a wnaed o ganlyniad i adolygiadau neu werthusiadau o gynlluniau grant/ariannu? |

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | ***Themâu trawsbynciol*** |
| 14. | A oes themâu penodol  y mae'n rhaid i ymgeiswyr roi ystyriaeth iddynt wrth gyflwyno cais ac yna wrth weithredu eu cynlluniau? (er enghraifft llesiant, tlodi, cydraddoldeb, cynhwysiant)?<br><br>A oes gennych unrhyw ofynion neu ddisgwyliadau penodol o ran gweithredu er lles amrywiaeth o fuddiolwyr?<br><br>Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol?<br><br>Hyrwyddo'r Gymraeg? |
| | |
| 15. | Ydych chi'n pennu meini prawf penodol ar gyfer hyn?<br><br>Sut mae'r ceisiadau  sydd yn dod i law yn cael eu hasesu yn  erbyn y meini prawf hyn?<br><br>Sut mae'r elfennau hyn yn cael eu monitro ar ôl i'r cyllid gael ei ddyrannu?<br><br>A sut maent yn cael eu hystyried wrth i'r prosiectau gael eu gwerthuso ar ôl iddynt ddod i ben? |

**ADOLYGIAD O GYNLLUN GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU I HYRWYDDO A HWYLUSO'R DEFNYDD O'R GYMRAEG**

**Cyfweliadau swyddogion addysg Awdurdodau Addysg Lleol**

| **Manylion Gweinyddol** | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfweliad | |
| Cod y cyfweliad | |

| Rhif Cwestiwn | **Gweithio mewn partneriaeth** |
|---|---|
| 1. | ***Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg***<br>Gan feddwl am y ddarpariaeth addysg yn y sir, a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn benodol, beth ydy'r berthynas rhwng yr  AALl a'r sefydliad(au) sydd yn derbyn cyllid grant drwy'r Cynllun Grant hwn? (Clybiau Ffermwyr Ifanc, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Merched y Wawr, Mentrau Iaith Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Cronfa Papurau Bro (MIC), Mentrau Iaith? |
| | |

| | |
|---|---|
| 2. | Ydych chi  fel swyddogion addysg AALl yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r sefydliad(au) hyn, neu yn gweithio drwy swyddogion eraill o fewn yr AALl neu drwy gonsortiwm rhanbarthol? |
| | |
| 3. | A yw rhai o'r sefydliadau hyn yn aelodau o is-bwyllgorau/fforymau cynllunio addysg Gymraeg yr awdurdod lleol?<br>Beth yw eu rôl ar yr is-bwyllgor/fforwm?<br>Sut mae'r Mentrau Iaith yn benodol yn cefnogi gwaith yr AALl gyda chynllunio addysg Gymraeg? |
| | |
| 4. | A oes ffyrdd  eraill y mae'r  AALl yn cydweithio gyda'r derbynwyr grant yng nghyd-destun y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg?<br>A oes cydweithio ar lefel mwy strategol?<br>Oes cytundeb cydweithio ffurfiol yn ei le rhyngoch ar gyfer hyn?<br>Ydy'r trefniadau cydweithio wedi eu nodi yn ffurfiol? |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| 5. | A yw'r AALl a'r consortiwm yn cydweithio gyda sefydliadau ar wahân i'r derbynwyr grant gyda datblygu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg?<br>Gyda pha fath o sefydliadau? |
| | |
| | ***Siarter Iaith a'i raglenni cysylltiedig*** |
| 6. | Gan feddwl yn benodol am y Siarter Iaith a'i raglenni cysylltiedig, beth ydy'r berthynas rhwng yr AALl a'r sefydliad(au) sydd yn derbyn cyllid grant drwy'r Cynllun Grant hwn? (Clybiau Ffermwyr Ifanc, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Merched y Wawr, Mentrau Iaith Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Cronfa Papurau Bro (MIC), Mentrau Iaith? |
| | |
| 7. | Ydych chi fel swyddogion addysg AALl yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r sefydliad(au) hyn, neu yn gweithio drwy swyddogion eraill o fewn yr AALl neu gonsortiwm rhanbarthol? |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| 8. | A oes gennych enghreifftiau o gydweithio rhwng ysgolion a'r derbynwyr grant ar weithgareddau'r Siarter Iaith a'i rhaglenni cysylltiedig?<br>Ym mha ffyrdd maent yn cydweithio?<br>Ydy'r trefniadau cydweithio wedi eu nodi yn ffurfiol? |
| | |
| 9. | Ydy ysgolion o fewn yr AALl yn cydweithio gyda sefydliadau ar wahân i'r derbynwyr grant gyda'r Siarter Iaith a'i raglenni cysylltiedig?<br>Gyda pha fath o sefydliadau? |
| | |
| 10. | Ydy'r system wobrwyo ar gyfer y Siarter Iaith a'i rhaglenni cysylltiedig yn dangos tystiolaeth am gydweithio gyda mudiadau cymunedol? |

| | |
|---|---|
| | Ydy hyn yn cael ei fwydo'n ôl at yr AALL/y consortiwm?<br><br>Pa fath o dystiolaeth sy'n cael ei chynnwys am gydweithio gyda mudiadau cymunedol? |
| | |
| | ***Cynllunio a deall effaith*** |
| 11. | Allwch chi ddisgrifio sut mae'r AALl yn mynd ati i adnabod cyfleoedd i gydweithio gyda'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant yng nghyd destun y Siarter Iaith a'i raglenni cysylltiedig?<br><br>Ydy hyn yn digwydd mewn ffordd systematig?<br><br>Pa mor aml ydych chi'n cwrdd/trafod? |
| | |
| 12. | Pwy sy'n gwneud y cyswllt cyntaf gyda'r derbynwyr grant – yr AALl neu'r sefydliadau?<br><br>Pwy sydd yn cynnal y bartneriaeth rhyngoch?<br><br>Beth sy'n gweithio'n dda? |

| | |
|---|---|
| | A oes unrhyw heriau o ran cynnal y bartneriaeth?<br>A oes trefniadau mewn lle i adolygu'r sut mae'r cydweithio'n mynd?<br>Beth yw ffurf y trafodaethau a pha mor aml fyddwch chi'n trafod? |
| | |
| 13. | A oes gan yr AALI drefniadau yn eu lle gyda'r derbynwyr grant i ddeall sut mae'r gweithgareddau yn gwneud gwahaniaeth o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg?<br>Beth yw'r trefniadau hyn? |
| | |
| | ***Cryfderau a chyfleoedd i wella*** |
| 14. | Wrth feddwl am y nod o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc yng nghyd-destun addysg ac ysgolion yn benodol, beth sydd yn gweithio'n dda ar hyn o bryd o ran cydweithio rhwng ysgolion a mudiadau cymunedol?<br>A oes unrhyw beth y gellid ei gryfhau/gwella? |

| | |
|---|---|
| | Beth allai’r Cynllun Grantiau i Hyrwyddo a Hwyluso’r Defnydd o’r Gymraeg ei gynnig i hwyluso hyn? |
| | |

**Adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg**

**Arolwg Ar-lein Derbynwyr Grant**

**CYFLWYNIAD**

Mae'r arolwg hwn yn casglu gwybodaeth am Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg (y Cynllun Grantiau).

Mae'r arolwg yn gofyn cwestiynau i dderbynwyr grant ynghylch gwahanol elfennau o'r Cynllun.

Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na thua **40 munud** i'w lenwi. Yn achos atebwyr ar ran Papurau Bro, ni ddylai gymryd mwy na thua **20 munud** i'w lenwi.

Ceir gwybodaeth am sut y bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio [dolen]

**Y mudiad/sefydliad**

1. Beth yw enw'r mudiad/sefydliad rydych yn ateb ar ei ran?

(Os nad ydych yn dymuno darparu enw eich mudiad/sefydliad, gallwch barhau i gymryd rhan yn yr arolwg).

[blwch testun]

2. Pa fath o fudiad/sefydliad rydych chi yn ei gynrychioli wrth ateb yr arolwg hwn? Dewiswch un o'r canlynol.

Mudiad/sefydliad sydd yn gweithredu ar lefel Cymru gyfan (yn cynnwys y rheiny sydd yn cynrychioli sefydliadau rhanbarthol a lleol)

Menter Iaith neu grŵp cymunedol lleol

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sirol

Papur Bro

3. Pwy sydd yn defnyddio'r gwasanaethau mae eich mudiad/sefydliad yn eu cynnal/trefnu?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Plant bach/babanod (cyn oed ysgol)

Plant ysgol gynradd

Plant ysgol uwchradd

Pobl ifanc (16 – 26)

Teuluoedd

Dysgwyr / siaradwyr newydd

Oedolion

4. A yw eich mudiad/sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau neu sefydliadau eraill i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg?

Ydy

Nac ydy

Os mai 'Ydy' oedd eich ateb, pwy yw'r partneriaid hyn a beth yw natur y cydweithio?

[blwch testun]

**Cynllunio**

5. Ar sail eich dealltwriaeth chi, y tu hwnt i'w deitl, beth yw amcanion y Cynllun Grantiau?

[blwch testun]

6. Sut mae eich mudiad/sefydliad yn mynd ati i gynllunio ei raglenni gwaith er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg?

[blwch testun]

7. A yw eich mudiad/sefydliad yn defnyddio dulliau penodol i annog cyfranogwyr newydd i gymryd rhan yn y gweithgareddau mae'n eu trefnu?

Ydy

Nac ydy

Os mai 'Ydy' oedd eich ateb, nodwch pa ddulliau rydych yn eu defnyddio.

[blwch testun]

8. Beth mae eich mudiad/sefydliad yn ei wneud er mwyn cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig (a nodweddion cysylltiedig) yn eich gweithgareddau?

Nodyn: Y nodweddion gwarchodedig yw : Oed; anabledd; statws o ran ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil (gan gynnwys pobl sy'n Sipsi, Roma neu Deithwyr); crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae pobl â nodweddion cysylltiedig yn cynnwys pobl LHDTC+ (pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol a chwiar/sy'n cwestiynu, yn ogystal â phobl sydd â hunaniaethau eraill gan gynnwys pobl anneuaidd). Hefyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches, waeth beth fo'u hil.

[blwch testun]

9. A oes gennych drefniadau yn eu lle i ddeall ac adolygu sut mae eich gweithgareddau yn gwneud gwahaniaeth o ran cynyddu defnydd y Gymraeg?

Oes

Nag oes

Os mai 'Oes' oedd eich ateb, beth yw'r trefniadau hynny?

[blwch testun rhydd]

**Effaith Pandemig COVID-19**

10. A gafodd eich mudiad/sefydliad unrhyw gefnogaeth i ymateb i sefyllfaoedd yn sgil COVID-19?

Do

Naddo

Nodwch unrhyw sylwadau i ymhelaethu ar eich ateb.

[blwch testun]

11. A yw eich mudiad/sefydliad wedi dysgu gwersi wrth gynnal gweithgareddau yn ystod pandemig COVID-19?

Ydy

Nac ydy

Os mai ' Ydy' oedd eich ateb, beth oedd y gwersi hynny?

[blwch testun]

12. A oes unrhyw beth y byddwch yn ei wneud yn wahanol yn y dyfodol o ganlyniad i'ch profiad yn ystod pandemig COVID-19?

[blwch testun rhydd]

**[Papurau Bro yn unig ymlaen i C13]**

**[pob categori arall ymlaen i C19]**

**Cwestiynau ar gyfer Papurau Bro**

13. Ar sail eich profiad chi o redeg Papur Bro, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu anghytuno â'r datganiad canlynol?

Dewisiadau: Cytuno'n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno'n gryf

Mae'r trefniadau presennol, sy'n golygu ein bod yn derbyn ein cyllid grant drwy Fentrau Iaith Cymru, yn addas.

Nodwch unrhyw sylwadau i ymhelaethu ar eich ateb.

[blwch testun]

14. I ba bwrpasau mae eich Papur Bro yn defnyddio'r cyllid rydych yn ei dderbyn drwy'r grant? (e.e. marchnata, argraffu).

[blwch testun]

15. Yn ystod y chwe blynedd diwethaf, a yw cylchrediad eich Papur Bro wedi:

Lleihau

Aros yn sefydlog

Cynyddu

Nodwch unrhyw sylwadau i ymhelaethu ar eich ateb.

[blwch testun]

16. A oes gan eich Papur Bro gynllun ar gyfer denu darllenwyr newydd?

Oes

Nag oes

Nodwch unrhyw sylwadau i ymhelaethu ar eich ateb.

[blwch testun]

17. A yw eich Papur Bro yn darparu fersiwn ddigidol o’r papur?

Ydy

Nac ydy

18. A yw eich Papur Bro yn casglu neu yn derbyn adborth gan ddarllenwyr neu unrhyw un arall ynghylch y Papur Bro?

Ydy

Nac ydy

Nodwch unrhyw sylwadau i ymhelaethu ar eich ateb.

[blwch testun]

**[Papurau Bro ymlaen i ddiwedd yr arolwg ]**

**Gweithrediad y Cynllun Grantiau**

19. Gan ystyried y ddogfen *Canllaw i Dderbynwyr Grant*, gweler [dolen], i ba raddau rydych chi’n cytuno neu anghytuno â’r datganiadau canlynol?

Dewisiadau: Cytuno’n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno’n gryf

a. Mae’n hawdd cael gafael ar wybodaeth ar sut i dderbyn arian grant.

b. Mae’r canllawiau ynglŷn â derbyn grant yn hawdd eu deall.

c. Mae’r meini prawf cymhwysedd a chyllid ar gyfer derbyn grant wedi eu datgan yn eglur yn y canllaw.

Ch. Ar y cyfan, rydym yn fodlon gyda’r canllawiau ar gyfer derbyn arian grant.

20**.** Gan ystyried y ddogfen *Canllaw Adrodd i Dderbynwyr Grant* [dolen], i ba raddau rydych chi’n cytuno neu anghytuno â’r datganiadau canlynol?

Dewisiadau: Cytuno’n gryf-Cytuno-Ddim yn cytuno nac yn anghytuno-Anghytuno-Anghytuno’n gryf

a. Mae’r gofynion o ran adrodd ar gynnydd y gweithgareddau a ariennir drwy’r Cynllun Grantiau yn addas ar gyfer lefel y cyllid.

b. Mae’r rhesymeg dros adrodd ar gynnydd a pherfformiad yn erbyn yr amcanion a bennwyd yn eglur.

c. Mae’r broses adrodd ar gynnydd y gweithgareddau a ariennir drwy’r Cynllun Grantiau wedi ei diffinio’n glir yn y canllaw.

ch. Mae'r gofynion o ran casglu a dadansoddi data ar wahanol gamau'r cylch cyllido yn rhesymol.

**Ffynonellau Cyllid**

21. A yw eich mudiad/sefydliad yn derbyn cyllid cyfatebol o ffynonellau eraill i gefnogi amcanion y Cynllun Grantiau?

Ydy

Nac ydy

Os mai 'Nac ydy' oedd eich ateb, nodwch unrhyw sylwadau i ymhelaethu ar eich ateb.

[blwch testun]

22. A yw eich mudiad/sefydliad yn derbyn cyllid o ffynonellau eraill?

Ydy

Nac ydy

**[Os ydy, ymlaen i gwestiwn 23; os nac ydy, ymlaen i gwestiwn 24]**

23. A allai'r Cynllun Grantiau ddysgu oddi wrth nodweddion unrhyw ffynonellau cyllid eraill yr ydych yn eu derbyn?

Nodwch eich sylwadau yma.

[blwch testun]

**Eich sylwadau ar y Cynllun Grantiau**

24. A oes cryfderau i'r Cynllun Grantiau presennol?

Oes

Nag oes

Nodwch unrhyw sylwadau i ymhelaethu ar eich ateb.

[blwch testun]

25. A oes gwendidau i'r Cynllun Grantiau presennol?

Oes

Nag oes

Nodwch unrhyw sylwadau i ymhelaethu ar eich ateb.

[blwch testun]

26. A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun Grantiau presennol?

Dylid

Na ddylid

Nodwch unrhyw sylwadau i ymhelaethu ar eich ateb.

[blwch testun]

27. Os hoffech roi unrhyw sylwadau pellach ynglŷn â'ch profiad wrth dderbyn cyllid o'r Cynllun Grantiau, gallwch eu nodi yma:

[blwch testun]

**Cyfraniad Ehangach**

28. A yw eich mudiad/sefydliad yn cydweithio gyda'r Cyngor/Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVC) i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg?

Ydy

Nac ydy

Os mai 'Ydy' oedd eich ateb, beth yw natur y cydweithio?

[blwch testun]

29. Beth yw natur cyfraniad eich mudiad/sefydliad i ddrafftio, gweithredu a monitro Strategaeth Hybu'r Gymraeg yr awdurdod(au) lleol a'r parc(iau) cenedlaethol lle rydych yn gweithio?

[blwch testun]

30. A yw eich mudiad/sefydliad wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd at asesiad llesiant lleol yr ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lle rydych yn gweithio?

Nodyn: Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol llesiant yn ei ardal unwaith yn ystod pob cylch etholiad llywodraeth leol. Maent yn gallu tynnu ar sbectrwm eang o arbenigedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol er mwyn gwneud hyn. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau Cymraeg, a hefyd fforymau ieuenctid, grwpiau cymunedol, fforymau pobl hŷn, cyrff amgylcheddol ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd.

Ydy

Nac ydy

Os mai 'Ydy' oedd eich ateb, sut?

[blwch testun]

Tudalen olaf

Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

**Adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg**

**Gweithdy Theori Newid - Derbynwyr Grant**

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu *IAITH: y ganolfan gynllunio iaith* i gynnal Adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg. Fel rhan o'r Adolygiad mae angen dehongli a datblygu theori newid ar gyfer y Cynllun. Diben yr elfen hon fydd archwilio ac amlygu:

- y newidiadau tymor hir y bwriedir i'r Cynllun arwain tuag atynt;
- y trywydd rhesymeg rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a deilliannau disgwyliedig y Cynllun;
- y rhagdybiaethau a'r risgiau cysylltiedig.

**Beth yw Theori Newid?**

- Proses o fod yn glir ynghylch pa wahaniaeth mae cynllun neu raglen i fod i'w wneud.
- Proses o brofi'r rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig â'r camau sydd wedi eu nodi.
- Mae Theori Newid yn helpu i sicrhau bod rhaglen/cynllun yn rhesymegol gadarn ac yn glir.
- Gall Theori Newid hefyd helpu i sicrhau bod rhaglen yn cael ei gwerthuso'n effeithiol, fel y gall eraill ddysgu ohoni, ei hailadrodd a'i datblygu ymhellach.

Dyma'r drefn y byddwn yn ei dilyn ar gyfer y sesiwn:

**10.30 Croeso a Chyflwyniad:**

- Esbonio trefn a threfniadau'r sesiwn
- Materion Hysbysiad Preifatrwydd
- Theori Newid: diben, nodweddion ac ystyriaethau allweddol

**10.40 Gweledigaeth a chanlyniadau tymor hir:** Beth yw'r canlyniad rydym am ei weld? Ble rydym am gyrraedd?

**10.50 Mewnbynnau:** gweithgareddau sydd yn digwydd o fewn y Cynllun Grantiau?

**11.10 Allbynnau:** beth sydd yn cael ei greu neu ei ddatblygu?

**11.35 Toriad**

**11.45 Deilliannau a chanlyniadau:** beth yw'r newid neu'r canlyniad rydym am ei weld? Beth yw'r deilliannau yn y tymor byr, ac yn y tymor hwy?

**12.10 Dangosyddion:** beth fydd yn dangos a yw rhywbeth wedi llwyddo?

**12.25 Crynhoi a Chloi**